
CYNGOR BRO MORGANNWG

## GWEITHIO GYDA'N GILYDD AM DDYFODOL DISGLEIRIACH



# ADRODDIAD HUNANASESIAD BLYNYDDOL

# 2022-2023

VALE of GLAMORGAN

BRO MORGANNWG

# RHAGAIR

*Mae'r Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol yn gwerthuso'r hyn rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yng nghyd-destun ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022/23 ac Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol 2020-2025 ac mae'n rhan sylfaenol o'n fframwaith llywodraethu. Nod llywodraethu corfforaethol yw gwneud y pethau cywir yn y ffordd iawn a dangos rhesymau dilys dros ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.*

Mae'r crynodeb diwedd blwyddyn hwn o gynnydd yn ymwneud ag ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23 sydd wedi'u llywio gan breswylwyr y Fro a'n partneriaid allweddol gan sicrhau ein bod wedi blaenoriaethu'r gwasanaethau sy'n bwysig i breswylwyr, yn enwedig aelodau mwyaf bregus ein cymuned. Fel corff cyhoeddus, rydym yn gyfrifol am sicrhau bod ein busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif cywir amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n gynnil, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn deg, i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Bro Morgannwg a chyfrannu at y nodau lles cenedlaethol.

Rydym wedi gwerthuso ystod eang o fewnwelediadau perfformiad a data o'n fframwaith cynllunio a pherfformiad blynyddol sydd wedi ein galluogi i ddod i gasgliadau o ran pa mor dda yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi cyflawni Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol. Yn y cyd-destun hwn, credwn ein bod, *o ystyried popeth, wedi cyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022/23,* yn ystod blwyddyn heriol arall i'r Cyngor.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol arall, ond mae'n un lle rydym unwaith eto wedi gweld yr hyn sy'n bosibl pan fyddwn yn cydweithio â'n partneriaid a'n cymunedau. Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, a sut rydym wedi gweithio i gefnogi ein dinasyddion a'n busnesau yn 2022/23. Wrth wraidd popeth a wnawn mae cydweithio â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, busnesau lleol, y sector gwirfoddol a chymunedol ac, yn bwysicaf oll, ein dinasyddion – ni allwn gyflawni ein huchelgeisiau ar ein pennau ein hunain.



> "Mae ein cymunedau, sy'n dal i wella o effeithiau Covid-19, wedi wynebu heriau newydd, a'r mwyaf difrifol ohonynt yw'r cynnydd yng nghostau byw. Hon hefyd oedd y flwyddyn lle gwelsom effaith ddinistriol y rhyfel ar bobl yn yr Wcráin. Er gwaethaf yr heriau a wynebwn, mae'r Cyngor wedi parhau i fod yn uchelgeisiol dros ein dinasyddion ac wedi ymdrechu i gyflawni'r gorau oll."

**Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg.**
**A copy of this report is available in English.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni blaenoriaethau allweddol gan gynnwys ymgysylltu â'n cymunedau i ddatblygu cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer ein pedair prif dref a Chynllun Ynni Lleol fel rhan o gefnogi ein cymunedau a buddsoddi yn ein hasedau adfywio; ymuno â threfniant Gwasanaeth Caffael ar y Cyd gyda Chynghorau Caerdydd, Sir Fynwy a Thorfaen i gryfhau gwydnwch gwasanaethau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau arbedion trwy gaffael gyda ffocws penodol ar werth cymdeithasol, lleihau carbon a chefnogi cyflogaeth leol; ac wedi gweithio gyda'n cymunedau a'r trydydd sector ar amrywiaeth o brosiectau gwahanol, gan gynnwys symud a darparu mannau cynnes, cymorth bwyd, mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd a defnyddio'r rhain fel cyfle i ymgysylltu â phynciau eraill a fydd yn cryfhau ein perthnasoedd gwaith ymhellach. Rydym wedi cynyddu'r dewis sydd ar gael i breswylwyr sy'n oedolion agored i niwed er mwyn cefnogi a gwella eu lles trwy'r fenter 'Eich Dewis'. Fel rhan o hyn, symudon ni 11 o asiantaethau gofal cartref i'r fenter gyda 235 o ddinasyddion yn derbyn 3,700 o oriau o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn eu cartrefi bob wythnos. Mae ein Gwasanaeth Ymateb i Gwympo 24/7 wedi ymateb i dros 500 o gwympiadau ers i'r gwasanaeth gael ei sefydlu ym mis Hydref 2022, gan leihau nifer y bobl sy'n mynd i'r Uned Damweiniau ac Achosion Brys namyn 440 person gydag amcangyfrif o arbediad o £547K i'r Bwrdd Iechyd. Gwnaethom gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned trwy bron £180k o Gronfa Cymunedau Cryf, sydd wedi bod o fudd i gymunedau; gyflawni'r Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid Arian i gydnabod darpariaeth o ansawdd uchel ac effeithiol i bobl ifanc; a chynyddu lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach gyda 210 o leoedd cynradd ychwanegol yn natblygiad newydd ar lannau'r Barri (Ysgol Sant Baruc) a 299 o leoedd uwchradd ychwanegol yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Gwnaethom ddatblygu prosiect uchelgeisiol i leihau digartrefedd trwy gymorth effeithiol i denantiaid a llety a welodd ychydig iawn o achosion o gysgu ar y stryd ym Mro Morgannwg, a chryfhau diogelwch cymunedol trwy adnewyddu system CCTV a threfniadau gweithredol y Cyngor yn llwyr.

Cafwyd llwyddiannau cadarnhaol hefyd sydd wedi cyfrannu at Brosiect Sero (ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur) gan gynnwys sicrhau £600K o gyllid yn llwyddiannus i gefnogi gwelliannau i Safleoedd Bysus ar draws y Fro er mwyn annog teithio llesol; gweithio ar y cyd i sicrhau statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Efydd ar gyfer Bro Morgannwg; gwella cyfleusterau gwastraff trwy agor Cyfleuster Adfer Adnoddau newydd i brosesu deunydd ailgylchu sydd wedi'i wahanu lle'i cynhyrchir, siop ailddefnyddio newydd, ehangu'r broses o gyflwyno trefniadau ailgylchu newydd a chynyddu'r ystod o ddeunyddiau ailgylchadwy ymyl y ffordd i gynyddu cyfranogiad dinasyddion a chyrraedd targedau ailgylchu cenedlaethol; a sicrhau bod 100% o'n trydan yn cael ei brynu o ffynonellau adnewyddadwy i'n galluogi i gyflawni ein hymrwymiadau lleihau carbon.

Ni fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb ymroddiad ein cydweithwyr, ein partneriaid a'n gwirfoddolwyr sydd wedi parhau'n hyblyg ac yn ystwyth, gan weithio gyda'i gilydd i ymateb i'n heriau wrth amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a chefnogi ein cymunedau.

Mae ein heriau mwyaf hanfodol y mae gan y Cyngor rôl bwysig wrth ymateb iddynt yn deillio o'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd (Prosiect Sero) a sicrhau ein gwydnwch sefydliadol. Fel llawer o awdurdodau lleol, rydym yn dal i wynebu heriau ariannol, ond rydym yn gyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn parhau i gadw ein cyllid mewn sefyllfa mor gryf â phosibl. Dros y blynyddoedd diwethaf, trwy raglen drawsnewid uchelgeisiol rydym wedi gallu datblygu ein ffyrdd o weithio a gwneud arbedion effeithlonrwydd ariannol a gwasanaethau mwy carbon effeithlon a fydd yn creu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau gwerthfawr iawn ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd mantoli'r cyfrifon yn anoddach nag erioed yn y dyfodol, ac mae angen i ni gyflymu'r gwaith hwn yn sylweddol os ydym am ddatblygu atebion arloesol ac effeithiol yn y gymuned i ateb y galw cynyddol am ein gwasanaethau. Rydym yn cryfhau ein defnydd o fewnwelediad data ynghyd â defnyddio technoleg ymhellach i'n helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a darparu ymateb pwyllog i'n heriau. Bydd ein partneriaethau wedi'u cryfhau â chymunedau yn ogystal â'r trydydd sector a'r sector preifat yn hanfodol i lwyddiant.

Wrth i ni edrych yn ôl ar lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf a thuag at heriau a chyfleoedd y flwyddyn nesaf, **rydym yn diolch i bawb** sydd wedi dod at ei gilydd eto i weithio er lles Bro Morgannwg a'i dinasyddion. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein **gweledigaeth o gymunedau cryf gyda dyfodol disglair** ar gyfer pawb.



**Y Cynghorydd Lis Burnett**
*Arweinydd Gweithredol y Cyngor Bro Morgannwg*



**D.R. Thomas**
*Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg*



# EIN HERIAU ALLWEDDOL

Mae byd llywodraeth leol yn parhau i wynebu heriau digynsail wrth i ni geisio dygymod â chostau effeithiau'r pandemig.

Ar ben hynny, rydym yn parhau i ymateb i'r materion diogelwch dyngarol a byd-eang parhaus sy'n codi o'r rhyfel yn yr Wcráin, gwaethygu'r argyfwng newid yn yr hinsawdd a natur, a'r argyfwng ynni a chostau byw byd-eang. Mae'r darlun yn un o bwysau sylweddol a chymhleth sy'n cystadlu â'i gilydd gan gynnwys heriau cyllido, cynnal twf economaidd gwyrdd, heriau darpariaeth gwasanaethau integredig, a'r galw cynyddol ar ein gwasanaethau ynghyd â'u cymhlethdod gyda chostau cynyddol sy'n gysylltiedig â'u darpariaeth.  Trwy gydol hyn rydym wedi dangos ein gwydnwch trwy reolaeth dda ar adnoddau cyfyngedig (pobl, asedau, cyllid), sicrhau bod ein straenachoswyr ariannol yn cael eu deall a'u cyfyngu, a bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu darparu. Mae ein ffocws wedi, a bydd yn parhau i fod, ar y blaenoriaethau hynny sydd bwysicaf i'n preswylwyr, a thrwy hynny ddiogelu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi nodi nifer o heriau critigol sydd wedi llunio ein gweithgareddau cynlluniedig ac sy'n rhan o ymdrech ar y cyd (gyda'n partneriaid) i ymateb i'r heriau hyn

## Argyfwng Costau Byw

Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i dyfu ac mae'n rhoi mwy a mwy o bwysau ariannol ar aelwydydd. Mae prisiau ynni uwch a chostau cynyddol trafnidiaeth a bwyd yn effeithio ar bob un ohonom ond maent yn fwy o ergyd i aelwydydd tlotach. Er bod nifer o gynlluniau wedi'u cyflwyno er mwyn ysgafnhau'r baich ar aelwydydd, mae pryder y gallai pwysau



cynyddol yn sgil cynnydd mewn costau byw ddwysáu anghydraddoldebau ym Mro Morgannwg ymhellach. Mae'r cynnydd mewn prisiau yn gwasgu cyflogau a chymorth budd-dal seiliedig ar incwm, gan effeithio ar yr aelwydydd tlotaf sydd â'r modd lleiaf o fewn eu cyllidebau i liniaru'r cynnydd hwn. Mae pryderon, wrth i'r pwysau hyn gynyddu, y gallai mwy o aelwydydd fynd i ddyled ffurfiol ac anffurfiol a chael eu gwthio i dlodi tanwydd a bwyd, gan effeithio ar les corfforol a meddyliol. Mae disgwyl i gostau byw godi ymhellach yn ystod y tymor agos i'r tymor canolig a bydd angen i ni gefnogi ein cymunedau a'n dinasyddion i ymdopi â'r argyfwng hwn a goresgyn ei effeithiau gwaethaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu'r dinasyddion â'r amddifadedd mwyaf a'r rhai mwyaf agored i niwed. Byddwn yn gwneud hyn trwy weithio ar y cyd ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys ysgolion, cymdeithasau





tai, sefydliadau cymunedol a thrydydd sector i gydlynu gwasanaethau i sicrhau y gall pobl gael mynediad i ystod o wasanaethau, cymorth a chyngor mewn un lle. Byddwn yn cynnwys pobl yn yr hyn rydym yn ei wneud i sicrhau ein bod yn cyrraedd y bobl hynny sydd angen ein cymorth fwyaf.




## Yr Argyfwng Hinsawdd

**(Prosiect Sero):**

Ym mis Gorffennaf 2019 ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru a chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan ‘argyfwng hinsawdd’ byd-eang mewn ymateb i ganfyddiadau’r ‘Adroddiad Arbennig am Gynhesu Byd-eang o 1.5°C’ gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) (Hydref 2018). Ers hynny, rydym wedi parhau i wneud newidiadau ym mhob rhan o’r sefydliad a chychwyn ar brosiectau uchelgeisiol i leihau ein hallyriadau carbon. Mae gwaith i fynd i’r afael â’r her hon yn cynnwys adolygu’r Cynllun Datblygu Lleol a datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, gwella ein tai, ein hysgolion a’n hadeiladau eraill, hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a gosod mannau gwefru cerbydau trydan yn ogystal â chanolbwyntio ar gaffael ac ymgysylltu â’r gymuned. Rydym yn ymchwilio i botensial cynlluniau ynni cymunedol ac yn gweithredu Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd, y Cynllun Rheoli Traethlin a fersiwn ddiwygiedig o’r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Rydym wedi dod â’r holl waith hwn ynghyd fel Prosiect Sero a byddwn yn parhau i weithio gyda’r gymuned a’n partneriaid i wneud y newidiadau angenrheidiol, gan ganolbwyntio ar ynni, gwastraff, bwyd, adeiladau, trafnidiaeth, defnydd tir a chaffael. Ein prif darged yw lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net erbyn 2030 ond rydym hefyd am ddylanwadu ar eraill a’u hannog i leihau eu hallyriadau a bod yn rhan o Brosiect Sero. Er bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran alinio ei wariant cyllidebol â’i ymrwymiadau Prosiect Sero, mae’r dulliau cyllido cenedlaethol byrdymor presennol yn golygu nad oes strategaeth ariannol hirdymor gynaliadwy ar waith i gefnogi’r Cyngor a’i bartneriaid i gyflawni ymrwymiadau Prosiect Sero. Mae’r argyfwng costau byw a’r ansicrwydd economaidd ac ariannol parhaus yn rhoi pwysau sylweddol o hyd ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau craidd awdurdodau lleol, gan ddrysu ffocws a lleihau ein gallu i fuddsoddi yn yr agenda sero net. Mae hyn yn cynnwys ein gallu i ymgysylltu â’n cymunedau i gefnogi’r gwaith o gyflawni ymrwymiadau Prosiect Sero. Nid oes gan y Cyngor a’i bartneriaid y gallu, yr arbenigedd a’r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ymrwymiadau Prosiect Sero. Yn ogystal, mae diffyg mewnwelediadau data carbon amserol a chynhwysfawr i lywio ein penderfyniadau ar gyfer y tymor hir mewn perthynas â chyflawni Prosiect Sero. Er gwaethaf yr heriau hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws pob sector i ddatblygu dull cynaliadwy o ariannu ein huchelgeisiau Prosiect Sero, gan ddefnyddio adnoddau i sicrhau bod gennym weithlu gyda’r gallu a’r lefelau staff sydd eu hangen i gyflawni ein huchelgeisiau gwyrdd yn y tymor hir.



# Gwydnwch sefydliadol:

Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn heriol mewn cyfnod lle mae mwyfwy o alw a chymhlethdod o ran gwasanaethau ac angen i gefnogi'r rhai mwyaf anghenus. Mae'r Cyngor hefyd yn agored iawn i bwysau costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant, gan gynnwys cost gynyddol deunyddiau adeiladu, cyflenwadau bwyd, costau ynni a chyflogau staff a fydd oll yn cael effaith ar gostau darparu gwasanaethau. Gallai hyn herio ein gallu fel Cyngor i gynnal lefelau darpariaeth gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau allweddol fel Prosiect Sero, y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, y Rhaglen Tai Cyngor a phrosiectau trawsnewid eraill. Mewn ymateb i Covid-19, gwnaethom addasu'n llwyddiannus i ffyrdd newydd o weithio a mabwysiadu modelau darparu gwasanaethau newydd. Bydd angen i ni barhau i drawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio a'r ffordd orau y gallwn gynnal gwasanaethau yn y tymor byr a'r tymor hwy. Er mwyn dod yn wytnach, bydd angen i ni fod yn fwy arloesol yn y ffordd rydym yn gweithio, gan fabwysiadu modelau sy'n ein galluogi i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd ystwyth. Bydd angen i ni fynd i'r afael â nifer o bwysau costau, gan gynnwys dod yn gyflogwr 'cyflog byw', diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion lles meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Ein staff yw ein hased mwyaf ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu denu a chadw'r bobl orau. Rydym yn wynebu llawer o heriau yn y gweithlu ar draws amrywiaeth o wasanaethau yn unol â'r sefyllfa genedlaethol a bydd angen i ni sicrhau ein bod yn darparu cynnig cystadleuol er mwyn recriwtio a chadw pobl mewn ffordd gynhwysol sy'n croesawu amrywiaeth ac yn gwella perfformiad.

Byddwn yn adolygu hyfywedd a chynaliadwyedd gwasanaethau mewn ymateb i heriau ac ansicrwydd ariannol sylweddol parhaus. Byddwn ni'n defnyddio ein hasedau yn fwy effeithlon, yn gwthio ein hagenda ddigidol ymlaen, yn datblygu ac yn cefnogi ein gweithlu, ac yn achub ar gyfleoedd masnachol lle maen nhw'n ychwanegu gwerth ac yn diogelu ein gwasanaethau. Bydd angen i ni ddefnyddio llawer o ddulliau gweithredu amrywiol, gan weithio gyda phartneriaid ar draws pob sector i gynyddu ein gwydnwch a chyflawni ein Hamcanion Lles. Yn rhan annatod o'r gwaith i drawsnewid sut rydym yn gweithio mae'r angen i gynnwys ac ymgysylltu â'n staff, preswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth a gwrando ar amrywiaeth o leisiau y bydd modd cael newid effeithiol a mwy o wydnwch.  Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion amrywiol ein cymunedau.








# EIN HADRODDIAD HUNANASESU


## SUT MAE'R CYFAN YN DOD AT EI GILYDD

Mae **Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol** yn nodi'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni sy'n adlewyrchu blaenoriaethau gwleidyddol y weinyddiaeth, ein dyheadau a'n hymrwymiadau cyffredin gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus (e.e. Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Ardal Caerdydd a'r Fro) a dinasyddion y Fro ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwella lles ym Mro Morgannwg yn ystod y tymor canolig.

**Ein Hamcanion Lles ar gyfer 2022/23 yw:**

- **Gweithio gyda'n cymunedau a throstynt.**
- **Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.**
- **Cynorthwyo pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau.**
- **Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.**

**SUT MAE'R CYFAN YN DOD AT EI GILYDD**




Mae ein Cynllun Cyflawni Blynyddol a gyhoeddir bob gwanwyn, yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn i gyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol a gwireddu ein gweledigaeth i greu **Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair.**

Trosir y camau hyn yn weithredoedd trwy broses gynllunio integredig a manylir arnynt mewn Cynlluniau Gwasanaeth a Thîm ac arfarniadau staff (#AmdanaFi) ar draws y Cyngor ac maent yn sail i'n fframwaith corfforaethol blynyddol o weithgareddau, mesurau perfformiad a thargedau gwella gwasanaethau, timau ac unigolion. Dangosir y cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau CCB a'n Hamcanion Lles mewn adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n destun her fewnol trwy'r Uwch Dîm Arwain ac aelodau etholedig trwy Bwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet. Mae monitro cynnydd yn erbyn y camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen mwy o waith.

Mae'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol yn rhoi crynodeb diwedd blwyddyn o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd â'n pedwar Amcan Lles.

Mae'n bwysig bod ein dull o hunanasesu yn parhau i ddatblygu i ysgogi gwelliant yn unol ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol. Er mwyn gwella ein her fewnol, mae'r Tîm Arwain Strategol yn ystyried diweddariadau perfformiad yn rheolaidd ar Galendr Perfformiad Blynyddol y Cyngor o weithgareddau sy'n eu galluogi i herio dulliau gweithredu a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Mae rhaglen flynyddol o weithdai aelodau etholedig sy'n cyd-fynd â'r Calendr wedi estyn amrediad cyfranogiad aelodau ac wedi eu galluogi i lunio ein dull gweithredu a'r wybodaeth a gawsant i'w galluogi i ymgymryd â'u rôl cyfaill beirniadol yn effeithiol.

## Sut rydyn ni wedi asesu ein perfformiad?

Ein trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad blynyddol presennol yw ein prif fodd o gyflawni ein dyletswyddau perfformiad newydd.  Mae ein dull o ran hunanasesu wedi'i integreiddio o fewn y trefniadau hyn sy'n darparu cyfleoedd trwy gydol y flwyddyn ar gyfer herio perfformiad mewnol ac allanol gan ein galluogi ar unrhyw adeg i adolygu pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein hamcanion lles. Yn ogystal â'r trefniadau hyn, rydym hefyd yn datblygu ein mewnwelediad mewnol sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am berfformiad, data ac ymgysylltu â'r cyhoedd trwy gydol y flwyddyn ynghyd â mewnwelediadau cysylltiedig â llywodraethu o raglenni gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi helpu i greu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y casgliadau hunanasesu blynyddol. Mae aelodau etholedig wedi dylanwadu ar fformat, cynnwys a chyflwyniad yr wybodaeth hon trwy gydol y flwyddyn yn ystod cymysgedd o sesiynau anffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys sesiynau briffio a chyfarfodydd pwyllgorau.




Mae amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth wedi helpu i lywio ein dyfarniadau hunanasesu a meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol: Mae'r rhain ar gael *yma:*



## Cyd-destun ein dyfarniadau

Wedi'i lywio gan y dystiolaeth a gasglwyd, rydym wedi asesu ein cynnydd gan ddefnyddio'r graddfeydd isod. Mae'n bwysig nad yw ein dyfarniadau'n cael eu hystyried ar wahân gan eu bod yn effeithio ar ei gilydd a bod angen eu hystyried mewn ffordd integredig.

### Cynllun Cyflawni Blynyddol

Wrth fesur ein cynnydd o ran ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol, rydym yn ystyried y canlynol er mwyn llunio dyfarniad:

- **Tystiolaeth mewn perthynas â chyflawni gweithgareddau cynlluniedig;**
- **Perfformiad mewn perthynas â chyfres o ddangosyddion perfformiad a thargedau gwella cysylltiedig;**
- **Adborth ymgysylltu ac ymgynghori gan randdeiliaid allweddol;**
- **Barn ein rheoleiddwyr a'n harchwilwyr.**



## Defnyddio Adnoddau Asesiad o Ymarfer Corfforaethol

Wrth fesur pa mor dda rydym yn defnyddio ein hadnoddau, rydym yn ystyried y canlynol er mwyn llunio dyfarniad:

- **Pobl**
- **Asedau (Ffisegol a Digidol)**
- **Cyllid (gan gynnwys caffael a chomisiynu)**
- **Ymgysylltu a mewnwelediad**
- **Rheoli perfformiad**
- **Rheoli risg**

■ Ardderchog ■ Da ■ Gweddol ■ Gwael






## Llywodraethiant

Wrth fesur pa mor dda rydym yn cael ein rhedeg (llywodraethu), ynghyd â'r uchod, rydym hefyd yn ystyried y canlynol er mwyn llunio dyfarniad:

- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ar sail egwyddorion 'Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol' CIPFA**
- **Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.**
- **Canfyddiadau'r Rhaglen Gwaith Archwilio Mewnol a Sicrwydd**
- **Canfyddiadau'r Rhaglen Gwaith Archwilio (gan gynnwys gwaith sicrwydd y systemau ariannol a'r amgylchedd rheoli ehangach)**

■ Sylweddol ■ Rhesymol ■ Cyfyngedig ■ Dim

## Adolygiad o'n Hamcanion Lles

Bob blwyddyn, mae dinasyddion y Fro, staff y Cyngor, aelodau etholedig a phartneriaid allweddol eraill yn helpu i lunio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Lles trwy ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol. Trwy'r broses hon gofynnir iddynt gadarnhau perthnasedd ein Hamcanion Lles. Hefyd, yn flynyddol, trwy ein trefniadau cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad integredig, rydym yn parhau i adolygu perthnasedd ein Hamcanion Lles, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau, y cyflawniadau a'r heriau a fwriedir. Trwy'r gwaith hwn yn 2021/22, rydym yn sicr bod ein Hamcanion Lles yn briodol a'u bod hefyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Lles 2018-2023 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac y bydd yn ategu gwaith y BGC wrth symud ymlaen.

# EIN CYNNYDD YN ERBYN MEYSYDD FFOCWS Y LLYNEDD

Yn ein Hunanasesiad Blynyddol 2021/22 nodwyd cyfres o feysydd yr oeddem am ganolbwyntio arnynt ym mlwyddyn 2022/23. Isod ceir diweddariad am y gwaith rydym wedi'i wneud, a'r camau nesaf.

**Buom yn gweithio gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol** i wella ein model strategol ar gyfer cynllunio'r gweithlu mewn ymateb i adborth gan ein rheoleiddwyr fel rhan o adolygiad Llamu Ymlaen.

**Ymgymerwyd â gwaith wedi'i dargedu ar draws gwasanaethau'r Cyngor** i gryfhau ein dull o reoli talent, ehangu'r sylfaen sgiliau i helpu i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd a chynllunio'r setiau sgiliau sydd eu hangen ar gyfer modelau gweithredu yn y dyfodol.

**Cyflwynwyd rhaglen i wella opsiynau gyrfa i bobl ifanc fel rhan o fabwysiadu** dull hirdymor o gynllunio'r gweithlu. Rydym wedi hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau gydag 11 o brentisiaid gweithredol mewn rolau ar draws y Cyngor. Cafwyd nifer cadarnhaol o bobl ifanc 16.24 oed yn cymryd rhan yn y rhaglen Kick Start gyda 41 ohonynt yn cymryd rhan ac 8 yn mynd ymlaen i rolau parhaol o fewn y Cyngor. Mae ein rhaglen newydd ar gyfer Dechrau Cyflym y Fro hefyd wedi gweld 6 o bobl ifanc yn achub ar gyfleoedd o fewn y Cyngor gyda 4 yn sicrhau cyflogaeth llawn amser. Mae'r rownd nesaf o gyfleoedd yn cael ei sefydlu.

**Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir** wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu Strategaeth 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol' Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd, ac wrth gyflwyno'r achos i Lywodraeth Cymru am brentisiaeth reoleiddiol yng Nghymru i greu llwybr i wasanaethau rheoleiddio i bobl ifanc. Bydd y gwaith hwn yn helpu i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw o fewn y sector.

**Mwy o ffocws ar raglenni digideiddio** fel Oracle Fusion, Microsoft 365, Dangosfyrddau Adnoddau Dynol, ac IDev ar draws y Cyngor fel rhan o ddatblygu sgiliau a lefel staffio'r gweithlu i gyflawni ein blaenoriaethau.

**Adolygwyd ein strwythurau cyflogau. Fodd bynnag,** mae fforddiadwyedd yn creu heriau sylweddol.



Sefydlwyd fforwm Gwobrau a Budd-daliadau i adolygu'r cynnig presennol.

**Cyflwynwyd polisïau a thechnoleg newydd** i gefnogi model gweithio hybrid newydd y Cyngor gan gyfrannu at fwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion gwasanaethau a recriwtio a chadw staff gwell.

**Gwellwyd ein Rhaglen Lles Gweithwyr** (Eich Iechyd) trwy gynyddu nifer yr Hyrwyddwyr Lles (o 45 i 65) a sgiliau'r Timau Iechyd Galwedigaethol i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau a digwyddiadau i'n gweithwyr yn dilyn adborth gan ein Harolwg Gweithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys caffi menopos, hyfforddiant pwrpasol wedi'i lywio gan drawma, sesiynau lles cymunedol, sesiynau cerdded coetir misol, a Cherdded a Chlonc ymhlith llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau lles.

**Cyflwynwyd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Hil** ar draws y sefydliad, gan ddechrau gyda phob uwch reolwr. Mae hyn yn unol â'n hymrwymiad i adeiladu gweithlu amrywiol sy'n herio hiliaeth a rhagfarn hiliol yn hyderus.



**Cydweithiwyd â SOCITM** i ddatblygu Strategaeth Ddigidol, map ffordd a model gweithredu targedau newydd ar gyfer y Cyngor i gefnogi cyflawni ein Hamcanion Lles.

**Datblygwyd Rhaglen Adnewyddu** a Buddsoddi Seilwaith Digidol dreigl ar gyfer y Cyngor ac ysgolion.

**Mwy o hygyrchedd i wasanaethau trwy ddulliau digidol.** Mae'r nifer uchel sy'n manteisio ar wasanaethau yn dangos eu bod wedi'u cynllunio mewn ffordd y mae preswylwyr wedi'i chael hi'n hawdd dod o hyd iddynt a'u defnyddio. Er enghraifft, meddyginiaeth ddigidol yn ein cartrefi preswyl; gwasanaeth newydd i gefnogi ymateb y Cyngor i'r argyfwng costau byw; defnyddio codau QR i weld hysbysiadau safleoedd cynllunio; mwy o brosesau ymgeisio ar-lein e.e. Cymorth i Ofalwyr Di-dâl, Taliadau Tanwydd y Gaeaf a Cheisiadau Grant Dewisol.

**Yn unol â'n hymrwymiad i ddatgarboneiddio ein hasedau,** gwnaethom barhau i brynu 100% o'n trydan o ffynonellau adnewyddadwy; gosod mesuryddion dŵr awtomatig ar ein portffolio asedau i ddeall y defnydd o ddŵr yn well ym mhob safle; gosod cynlluniau goleuadau LED ar ein hadeiladau ac wedi cynllunio mwy ar gyfer y flwyddyn i ddod; gosod paneli solar ar 23 o adeiladau gydag ynni cyfunol o bron 1 Megawatt gyda mwy wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod; gosod mannau gwefru cerbydau trydan mewn dau o'n prif safleoedd swyddfeydd ac ar safleoedd ysgol dethol; dechrau'r arolwg o adeiladau cymunedol (24) rydym wedi'u prydlesu i nodi cyfleoedd i gefnogi eu datgarboneiddio.

**Mabwysiadwyd Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 5 mlynedd newydd** i gefnogi ein penderfyniadau rheoli asedau strategol gyda phwyslais ar ddatgarboneiddio ein hystâd.

**Cynhaliwyd adolygiad Model Landlordiaid Corfforaethol** i lywio gwaith i symleiddio ein gweithgareddau rheoli asedau.

**Adolygwyd ein rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi Ysgolion** i adlewyrchu effaith Brexit/Covid ar gyflawni'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Ymgysylltwyd â chymunedau i lywio cynigion newydd ar gyfer y rhaglen nesaf o fuddsoddi mewn ysgolion.

**Parhaed i ddatblygu ein defnydd o System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru** gan ganolbwyntio ar gofnodi amserol a chymesur a sicrhau ansawdd i reoli perfformiad, hysbysu a gwella darpariaeth gwasanaethau a phrofiad cwsmeriaid.

**Gwellwyd gwasanaethau teleofal** trwy gyflwyno Gwasanaeth Ymateb 24/7 ar gyfer Cwympiadau a ymatebodd i dros 500 o gwympiadau ers cychwyn y gwasanaeth ym mis Hydref 2022. Lleihawyd nifer y bobl a ddaeth i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys namyn 440 gydag amcangyfrif o arbediad o £547K i'r Bwrdd Iechyd.

**Estynnwyd y cynllun Cartrefi Clyfar** i wella annibyniaeth a chefnogi lles. Mae dau Gartref Clyfar yn gwbl weithredol. Disgwylir i un fod yn barod erbyn hydref 2023 ac i 6 fflat arall gael eu cwblhau yn 2024/25.

**Datblygwyd polisi newydd ar gyfer rheoli lleithder ac anwedd** yn eiddo domestig y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cartrefi diogel ac iach i'n tenantiaid.

**Adeiladwyd ar ein prosiect blaenllaw Gofod Gwneud ym Mhenarth,** gan estyn y glasbrint hynod lwyddiannus yn Llyfrgell y Barri. Mae prosiectau Gofod Gwneud wedi'u cynllunio i roi lle i'n dinasyddion a'n dysgwyr ddatblygu eu sgiliau a'u creadigrwydd.

**Ymgysylltwyd â chymunedau** i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cynllun Creu Lleoedd ar gyfer ein pedair prif dref, a chynllun Ynni lleol fel rhan o ymdrechion i gefnogi ein cymunedau a buddsoddi yn ein hasedau adfywio.

**Lobïo Llywodraeth Cymru** trwy rwydwaith CLILC a rhwydwaith yr Arweinwyr ar gyfer setliadau ariannol aml-flwyddyn gwirioneddol.

**Cynhaliwyd adolygiad fforensig** o bwysau ariannol cyfredol a hirdymor fel rhan o gynllunio ariannol a gosod cyllideb a chyhoeddwyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 5 mlynedd dreigl.

**Mabwysiadwyd Polisi a Strategaeth Caffael newydd** sy'n rhoi mwy o ffocws ar werth cymdeithasol mewn contractau a lleihau carbon a chefnogi cyflogaeth leol. Mae ein Rheolau Gweithdrefn Gontractau wedi'u diweddaru i gynnwys isafswm gofyniad am gydran gwerth cymdeithasol wrth werthuso tendrau.

**Bwriwyd ymlaen â gwaith i lunio Strategaeth Fuddsoddi** nad yw'n ymwneud â Thrysorlys a fydd yn cael ei lansio yn ystod 2023/24.

**Sefydlwyd trefniant Gwasanaeth Caffael ar y Cyd gyda chynghorau Caerdydd, Sir Fynwy a Thorfaen** i gryfhau gwydnwch gwasanaethau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau arbedion trwy gaffael, gan gynnwys symleiddio prosesau caffael.

**Mewn ymateb i adborth gan ein rheoleiddwyr fel rhan o adolygiad y Contract Hamdden, ymgymerwyd â mapio cymunedol ar gyfer gweithgareddau hamdden** fel rhan o waith i ymgorffori egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein darpariaeth hamdden. Ymgymerwyd hefyd â gwaith a ddangosodd ein bod yn darparu gwerth am arian ac yn parhau i fod yr unig awdurdod lleol yng Nghymru sy'n derbyn incwm o weithrediad ei ganolfannau hamdden.

**Cryfhawyd yr her i ysgolion** a'u cyrff llywodraethu o ran sefyllfoedd ariannol ac maent yn gweithio gyda naw ysgol a alldrodd sefyllfa ddiffyg.



**Cryfhawyd cydweithio ymhellach ar draws y Cyngor** i nodi a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i dderbyn cyllid grant a'i ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion yn y tymor hir.

**Cynyddwyd buddsoddiad mewn darpariaeth Gymraeg** i ddinasyddion y Fro o ran cyfleoedd cyfranogi, yn enwedig i bobl ifanc mewn ymateb i'r gwaith mapio a wnaed.

**Cynhyrchwyd Strategaeth Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (ICEM) ar y cyd â rhanddeiliaid partner,** gan gynnwys pobl ifanc. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu dogfen sy'n addas i blant. Ymatebwyd i'r galw cynyddol am wasanaethau ICEM trwy gynyddu'r ddarpariaeth, ond mae'r galw yn parhau i dyfu wrth i'r gwasanaeth ddod yn fwy sefydledig.

**Roeddem yn gweithio gyda BIP Caerdydd a'r Fro i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol** ac iechyd ymhellach er mwyn darparu mynediad rhwydd i gymorth iechyd, gofal cymdeithasol a lles i holl ddinasyddion y Fro sy'n oedolion. Fel rhan o Gynghrair y Fro, rydym wedi cytuno ar strwythur llywodraethu, wedi recriwtio Rheolwr Ardal y Fro yn llwyddiannus ac yn symud ymlaen gyda 3 blaenoriaeth - y Gwasanaeth Materion Lles, Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro a Chontractau Trydydd Sector.

**Sefydlwyd y Rhaglen Gyfranogi i gyflawni'r ymrwymiadau allweddol yn ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd,** gan gynnwys sefydlu swydd i ddatblygu cyfranogiad a gweithgarwch rheoli ymgyrchoedd, cyflwyno'r defnydd o 'Bang the Table' fel yr un canolbwynt digidol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu a chyfranogi, gan sefydlu Rhwydwaith Cymuned Ymarfer sy'n gwneud cysylltiadau agos â'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb a grŵp Hyrwyddwyr Aelodau. Fel rhan o'r gwaith i hyrwyddo cyfranogiad, mae cynllun e-ddeiseb newydd hefyd wedi'i gyflwyno a'i hyrwyddo i breswylwyr a staff.

**Roeddem yn gweithio gyda'r gymuned a'r trydydd sector ar amrywiaeth o brosiectau gwahanol,** gan gynnwys trefnu a darparu mannau cynnes, cymorth bwyd, cymorth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd, a defnyddio'r rhain fel cyfle i ymgysylltu â phynciau eraill.

**Cydweithiwyd yn effeithiol i gyflawni'r cynllun Costau Byw Dewisol, darparu Grant Cymorth Bwyd Uniongyrchol a chyllid Mannau Cynnes, a rhoi gwybodaeth am gostau byw i breswylwyr a staff.** Mae 8,000 o alwadau wedi'u derbyn ar linell gymorth Costau Byw benodol gyda dros 10,000 o geisiadau ar-lein am gymorth ariannol.

**Cefnogwyd sefydliadau sy'n gweithio i fynd i'r afael â her hirdymor costau'r pandemig sydd hefyd wedi'u cysylltu'n annatod â'r argyfwng costau byw.** Er enghraifft, rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i Cyngor ar Bopeth, ac wedi hwyluso grantiau i ysgolion, y gymuned a'r trydydd sector i ddarparu cymorth a chefnogaeth.

**Trwy weithio mewn partneriaeth gref, gwnaethom gamau breision yn ein cyfnod pontio i gyngor gofal cartref sy'n seiliedig yn llwyr ar ganlyniadau 'Eich Dewis'.** Hyd yn hyn, rydym wedi trosglwyddo un ar ddeg o asiantaethau gofal cartref i Eich Dewis, sy'n golygu bod cyfanswm o 235 o ddinasyddion yn cael eu cefnogi gan 3,700 awr o ofal a chymorth gartref bob wythnos sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

**Mae'r Gwasanaeth Materion Lles yn datblygu protocolau gweithio** i rannu gwybodaeth ac arbenigedd er mwyn sicrhau bod ymatebion iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn cael eu darparu'n rhwydd i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**Cynyddwyd adnoddau iechyd a lles a gyhoeddir** ar Dewis Cymru gyda dros chwarter miliwn o bobl yn edrych yn fanwl ar wasanaethau Iechyd a Lles yn y Fro yn 2022/23 (253,194 o bobl yn edrych ar y  wefan, cynnydd o 26.6% ers 2021/22).

**Datblygwyd prosiect uchelgeisiol** i leihau digartrefedd trwy gymorth effeithiol i denantiaid a llety gan arwain at ychydig iawn o achosion o gysgu ar y stryd ym Mro Morgannwg.

## Meysydd lle mae angen rhagor o waith

**Mynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw parhaus** mewn gwasanaethau allweddol fel Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth.

**Adolygu ein dull Hamdden** o wella cyfranogiad ymhellach unwaith y bydd y trefniadau rhanbarthol ar gyfer darparu cyllid Chwaraeon Cymru wedi'u cytuno.

**Cryfhau ymhellach ein her o Wasanaeth Addysg** ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i sicrhau cymorth effeithiol i'n hysgolion i gyflawni'r effaith a'r gwelliannau gofynnol o ran codi cyrhaeddiad a lles yn gyffredinol. Ers mis Chwefror 2022, mae 3 ysgol wedi mynd i gategori Camau Dilynol Estyn.

**Cryfhau mecanweithiau i wella cynwysoldeb** ein gwaith ymgysylltu, yn enwedig gan grwpiau 'na chlywir yn aml' i lunio a llywio dyluniad a datblygiad gwasanaethau.



**Parhau i weithio tuag at wireddu ein gweledigaeth** i ysgolion fod wrth wraidd y gymuned, gan gynnig ystod eang o wasanaethau cymunedol.

**Er gwaethaf y dull cydweithredol a ddefnyddir, mae lefelau uchel iawn o alw am leoliadau Plant a Phobl Ifanc wedi effeithio'n negyddol** ar gyflawni gostyngiadau a ddymunir ac rydym wedi dod yn fwy dibynnol ar ofal a brynir yn allanol, yn enwedig lleoliadau asiantaethau maethu annibynnol lle mae'r argaeledd hefyd wedi gostwng yn amlwg.

**Gwella mannau mynediad ymhellach i'n gwasanaethau** ar gyfer dinasyddion trwy ddulliau digidol.

**Parhau i weithio'n arloesol gyda darparwyr gofal cymdeithasol allanol** i helpu i lunio darpariaeth o ansawdd i ddiwallu anghenion lleol. Er gwaethaf perthnasoedd gwaith cadarnhaol, mae methiant darparwyr yn parhau i fod yn bryder o ystyried eu gallu a'u hadnoddau i ymateb i'r galw cynyddol wrth iddynt barhau i fod yn destun pwysau gweithlu a chostau byw cynyddol.

**Cryfhau galluogrwydd ymhellach i gefnogi ein dull integredig** o ddefnyddio mewnwelediad perfformiad a data i gefnogi gwneud penderfyniadau.

**Bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu Strategaeth Fuddsoddi** ar gyfer ein hasedau ffisegol gan ganolbwyntio ar sero net/carbon isel a chynaliadwyedd hirdymor fel rhan o Brosiect Sero.

**Ymwreiddio ein defnydd o'r dechnoleg cyfarfodydd hybrid integredig** i wella cyfranogiad mewn democratiaeth leol yn unol â'n blaenoriaethau cyfranogiad y cyhoedd.

**Byddwn yn parhau i wella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu ein heriau ariannol a heriau eraill** ac yn cynnwys preswylwyr ac yn gwrando arnynt, a sicrhau ein bod yn rhoi esboniadau clir a syml o sut y gwnaed penderfyniadau a'r effaith y byddant yn ei chael ar ein dinasyddion.

# EIN PERFFORMIAD

## YN ERBYN Y CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022/23

Isod ceir **crynodeb o'n perfformiad** mewn perthynas â'n pedwar Amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol a pherfformiad cyffredinol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23.

Mae'r Trywydd yn rhoi syniad o gyfeiriad y perfformiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol.

- Er enghraifft, lle mae ein statws perfformiad (CMG) wedi **GWELLA,** nodir hynny gan ↑
- lle mae ein statws perfformiad **WEDI AROS YR UN FATH** o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, fe'i dangosir gan ↔
- a lle mae ein statws perfformiad **WEDI GOSTWNG**, fe'i cynrychiolir gyda ↓

Ar ddiwedd 2022/23, statws perfformiad cyffredinol (CMG) y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol yw **DA**. Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod gydag 87% o weithgareddau a thargedau arfaethedig wedi'u cyflawni.

### STATWS PERFFORMIAD

| Holl Gamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth a'r Holl Fesurau Perfformiad | GWYRDD | MELYN | COCH | Statws CMG Cyffredinol ar gyfer pob Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau |
| **388** | **335 (87%)** | **5 (1%)** | **48 (12%)** | **GWYRDD** |

Hefyd, priodolwyd statws perfformiad DA i bob un o bedwar Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Ar y cyfan, mae'r trywydd wedi aros yn sefydlog ar gyfer holl weithredoedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd â'n pedwar Amcan Lles o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (chwarter 3), er y cafwyd gwelliant o ran perfformiad yn y mesurau sy'n gysylltiedig ag Amcan Lles 1 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol.

| CCB (Camau Gweithredu) | CMG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | G | ↔ |
| Amcan 2 | G | ↔ |
| Amcan 3 | G | ↔ |
| Amcan 4 | G | ↔ |
| Holl gamau gweithredu'r CCB | G | ↔ |

| CCB (Mesurau Perfformiad) | CMG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | M | ↑ |
| Amcan 2 | G | ↔ |
| Amcan 3 | M | ↔ |
| Amcan 4 | M | ↔ |
| Holl Ddangosyddion Perfformiad y CCB | M | ↔ |

| CCB (Camau Gweithredu + Mesurau wedi'u cyfuno) | CMG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | G | ↑ |
| Amcan 2 | G | ↔ |
| Amcan 3 | G | ↔ |
| Amcan 4 | G | ↔ |
| CCB cyffredinol | G | ↔ |

# EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLES CENEDLAETHOL

Isod nodir ein hymrwymiadau i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein dinasyddion fel yr amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol 2020-2025. Trwy ymgorffori'r pum ffordd o weithio trwy gydol ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau, rydym yn gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy i gyflawni'r ymrwymiadau hyn a chyfrannu at y nodau lles cenedlaethol fel y manylir arno isod.

Oherwydd natur hirdymor rhai ymrwymiadau, mae'n bosibl na fydd effaith gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bob amser yn amlwg yn y tymor byr a bydd ei effaith i'w gweld dros y tymor hwy. Mae'r rhain yn parhau'n flaenoriaethau strategol hirdymor i'r Cyngor wrth i ni ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-25 gan gynnwys ein partneriaid a'n cymunedau wrth 'gydweithio ar gyfer dyfodol disgleiriach'.

Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru Fwy Cyfartal | Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang | Cymru Gydlynol | Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu

| Gweithio gyda, a thros ein cymunedau (WBO1) | Cefnogi dysgu, cyflogaeth, a thwf economaidd cynaliadwy (WBO2) | Cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned (WBO3) | Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd (WBO4) |
|---|---|---|---|
| Gwella sut yr ydym yn cynnwys pobl eraill ac yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â nhw o ran ein gwaith a'n penderfyniadau | Sicrhau mynediad priodol i ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar, meithrin ac addysg o safon gan alluogi pobl i gael y canlyniadau gorau posibl, beth bynnag y bo'u hoedran | Annog pobl o bob oed i fod â ffyrdd actif ac iach o fyw sy'n hyrwyddo lles corfforol a meddyliol gwell | Gweithio i leihau allyriadau carbon y sefydliad i sero net cyn 2030 ac annog eraill i'n dilyn yn rhan o'r gwaith o leihau'r effaith negyddol y caiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd |
| Gweithio'n arloesol gan ddefnyddio technoleg, adnoddau a'n hasedau i drawsnewid ein gwasanaethau fel eu bod yn gynaliadwy i'r dyfodol | Buddsoddi yn ein hysgolion i greu'r amgylchedd dysgu cywir i'r 21ain ganrif a chyfleusterau sydd o fudd i'r gymuned ehangach | Rhoi mwy o gyfleoedd beicio a cherdded a datblygu ystod o opsiynau teithio i annog pobl i beidio â defnyddio eu ceir | Gweithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill a'u grymuso i gynnal cyfleusterau lleol gan gynnwys toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd, parciau, ardaloedd chwarae a chanolfannau cymunedol |
| Datblygu ein diwylliant cryf o wasanaeth cwsmeriaid da gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor o fod yn uchelgeisiol, yn agored, ynghyd ac yn falch | Gweithio gydag ysgolion, teuluoedd ac eraill i wella'r gwasanaethau a'r cymorth i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol | Hyrwyddo gweithgareddau hamdden, celfyddydol a diwylliannol sy'n diwallu amrywiaeth eang o anghenion | Diogelu, cadw a, lle bo'n bosibl, wella ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo cyfle cyfartal a gweithio gyda'r gymuned i sicrhau ein bod yn ymatebol i anghenion amrywiol ein cwsmeriaid | Gweithio gydag addysg, darparwyr hyfforddiant, busnesau ac asiantaethau eraill i roi ystod o gyngor, cymorth a chyfleoedd hyfforddiant sy'n gwella sgiliau pobl a'u parodrwydd at waith | Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy di-dor | Gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn lân, yn ddeniadol ac yn cael ei reoli'n dda |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwr Cymraeg erbyn 2050. | Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall pobl gael cyngor, gwybodaeth a chymorth dyledion ariannol ynglŷn â thai, budd-daliadau, addysg,hyfforddiant a chyflogaeth | Rhoi gofal a chymorth i blant a theuluoedd mewn angen sy'n adlewyrchu eu cryfderau a'u hamgylchiadau unigol | Gweithio gyda'r gymuned, datblygwyr ac eraill i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynaliadwy a bod datblygwyr yn lliniaru ar eu heffeithiau, integreiddio â chymunedau lleol a darparu'r seilwaith angenrheidiol. |
| Cefnogi datblygiad a lles ein staff a chydnabod eu cyfraniad at waith y Cyngor | Cefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli a dysgu cymunedol gan gydnabod ystod y buddion i unigolion a'r gymuned | Rhoi gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i oedolion mewn angen | Darparu gwasanaethau rheoli gwastraff effeithiol a gweithio gyda'n preswylwyr, ein partneriaid a busnesau i leihau gwastraff a'i effaith ar yr amgylchedd |
| Sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu a chraffu ar waith a chefnogi ein haelodau etholedig i gyflawni eu rolau | Gweithio fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllunio strategol a mentrau trafnidiaeth a hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chyflogaeth | Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau cymorth lles emosiynol ac iechyd meddwl amserol a phriodol | Lleihau llygredd gan gydnabod yr effaith andwyol y gallai ei gael ar yr amgylchedd a lles pobl |
| | Cefnogi twf economaidd trwy adfywio, seilwaith gwell a chymorth i ganol trefi, twristiaeth a diwydiant | Cyflawni ein dyletswyddau diogelu i amddiffyn pobl rhag niwed | Gweithio i leihau effaith erydu, llifogydd a llygredd ar ein hardaloedd arfordirol a chyrsiau dŵr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cymunedau cydlynol a hyrwyddo diogelwch cymunedol | |
| | | Cadw pobl yn ddiogel trwy gynllunio cadarn a gwydn at argyfyngau a gwasanaethau rheoliadol sy'n diogelu'r cyhoedd, defnyddwyr a busnesau | |
| | | Cynyddu nifer y tai hygyrch a fforddiadwy o safon uchel sydd ar gael drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r angen am dai | |
| | | Rhoi cyngor a chymorth tai er mwyn atal digartrefedd | |

# PERFFORMIAD EIN CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL YN ÔL AMCANION LLES

## AMCAN LLES 1: GWEITHIO GYDA, A THROS EIN CYMUNEDAU

Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion ein preswylwyr a'n cymunedau lleol ac i adael etifeddiaeth gadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### STATWS PERFFORMIAD

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag **Amcan Lles 1** | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | Statws CMG Cyffredinol ar gyfer **Amcan Lles 1** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau |
| 134 | 15 | 118 (88%) | 8 (53%) | 0 | 1 (7%) | 16 (12%) | 6 (40%) | GWYRDD |

Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 1 yw **DA** Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod.

### YR HYN A DDYWEDON NI Y BYDDEN NI'N EI WNEUD

| Ymrwymiad | Statws Perfformiad |
|---|---|
| **1** Gwneud defnydd effeithiol o'n hasedau a'n technoleg i wella ein gwasanaethau a sut rydym yn cyfathrebu. | G |
| **2** Cyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n galluogi ac yn annog preswylwyr a rhanddeiliaid eraill i gymryd mwy o ran mewn prosesau gwneud penderfyniadau. | G |
| **3** Cefnogi mwyfwy o bobl ifanc i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd cyfranogiad ac i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. | G |
| **4** Adeiladu momentwm o ran y Sgwrs Gymunedol am y Newid yn yr Hinsawdd a'r argyfwng natur sy'n cynnwys gwahanol grwpiau o randdeiliaid i siapio ein cynlluniau ac annog newid ymddygiad. | G |
| **5** Cyflawni cam nesaf Rhaglen Newid Trawsnewidiol y Cyngor sy'n rhoi ar waith ffyrdd newydd o weithio i ymateb i anghenion cymunedol a heriau sefydliadol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. | G |
| **6** Gweithio gyda sefydliadau nid er elw preifat, gwirfoddol a chymunedol i ddarparu a llunio gwasanaethau lleol ac i annog pobl i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau lleol. | G |
| **7** Cyflawni blwyddyn tri Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, sicrhau statws Sy'n Dda i Bobl Hŷn i'r Fro a bwrw ymlaen â gwaith fel rhan o'r gweithredu cenedlaethol ar hil, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. | G |
| **8** Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a gwella gwasanaethau'r Gymraeg trwy gyflwyno Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 5 mlynedd newydd y Cyngor a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) newydd. | G |
| **9** Gweithio mewn partneriaeth fel rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog i ennill safon aur am ein cefnogaeth i aelodau o'r lluoedd arfog, cyn-filwyr, aelodau teulu a gweddwon. | G |
| **10** Gweithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a sefydlu trefniadau newydd. | G |
| **11** Datblygu a chyflwyno rhaglen sefydlu, hyfforddiant a chymorth i aelodau yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2022. | G |
| **12** Gweithredu Strategaeth Adnoddau Dynol a Rhaglen Datblygu Gweithwyr newydd gan ganolbwyntio'n benodol ar wella amrywiaeth ar draws y gweithlu, ar gynllunio i'r dyfodol ac ar les staff. | G |

## EIN CYFLAWNIADAU

**1.**

- **Gwell profiad cwsmeriaid a mynediad i wasanaethau** yn Cyswllt Un Fro trwy lwyfan digidol newydd - Granicus.
- Mae ein gwefan wedi'i gwella **i hwyluso dod o hyd i wasasanaethau.**
- Crëwyd gwasanaethau newydd i ategu ein hymateb i'r Argyfwng Costau Byw. Ymatebwyd i dros **8,000 o alwadau** ar ein llinell gymorth Costau Byw a thros **10,000 o geisiadau** ar gyfer cymorth ariannol.
- Cafodd **87% o ymholiadau gan gwsmeriaid** i Cyswllt Un Fro eu datrys ar y cyswllt cyntaf ac ni chynhaliwyd cwynion yr Ombwdsmon yn erbyn y Cyngor.
- **Ehangwyd darpariaeth tai clyfar** i gefnogi byw'n annibynnol gyda llety newydd yn Cary Close. Disgwylir i Heol Merthyr Dyfan gael ei chwblhau yn hydref 2023.
- Cyflwynwyd **meddyginiaeth ddigidol** yn ein cartrefi gofal preswyl.
- Ehangwyd gwasanaethau ar-lein **megis trwyddedau parcio a gwasanaethau gwastraff a hamdden.**
- **Cyflwynwyd codau QR i hysbysiadau safleoedd cynllunio a llythyrau ymgynghori â chymdogion** er mwyn gwella mynediad i'r cais ar y broses.

**2.**

- **Ymgorfforwyd dull integredig o gyflawni'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd** trwy Rwydwaith Ymarferwyr Cyfranogiad y Cyhoedd (RhYCC), Rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau a'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb.
- Cyflwynwyd **porthol Cymryd Rhan y Fro** ar gyfer e-ddeisebau a gweithgareddau ymgysylltu. Lansiwyd a hyrwyddo'r **llwyfan Bang the Table** i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Sefydlwyd **rhaglen dreigl o weithgareddau ymgysylltu ar-lein sy'n cyd-fynd â'r calendr perfformiad blynyddol** gyda mewnwelediad ymgysylltu yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â mewnwelediadau data a pherfformiad eraill i gefnogi datblygiad cynlluniau allweddol y Cyngor.

**3.**

- Cyflawnwyd **Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid Arian,** i gydnabod darpariaeth effeithiol o ansawdd uchel i bobl ifanc.
- Roedd pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses **recriwtio e.e. Uwch Swyddi Strategol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion Atal y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.**
- Helpodd pobl ifanc i lunio a chydgynhyrchu fersiynau hygyrch a chyfeillgar i blant o gynlluniau'r Cyngor ac arolygon, megis y Cynllun Lles, y **Cynllun Cyflawni Blynyddol, Prosiect Sero,** yr **Ymgyrch Presenoldeb Ysgol, pecyn cymorth trawsryweddol,** y **gyllideb a'r Cynllun Datblygu Lleol.**
- Cwblhawyd **317** o oriau gwirfoddoli gan aelodau Cyngor Ieuenctid y Fro a Grŵp Gweithredu Ieuenctid Penarth
- Penodwyd **cynrychiolwyr ieuenctid yn y Pwyllgor Dysgu a Sgiliau** o Gyngor Ieuenctid y Fro.

**4.**

- Cyflwynwyd **trefniadau gwastraff newydd** yn llwyddiannus ym Mhenarth.
- Plannwyd **6,000** o goed ar hyd Afon Ddawan trwy gais llwyddiannus i'r Loteri gan y Bartneriaeth Natur Leol
- Mae **hyb Ymgysylltu Prosiect Sero** bellach yn fyw ar lwyfan Cymryd Rhan y Fro i gefnogi ymgysylltu â chymunedau a helpu i lunio ein hymateb i'r newid yn yr hinsawdd.
- Roeddem yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod yr holl benderfyniadau rheoli datblygu'n **sicrhau gwella bioamrywiaeth** yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.
- Llwyddwyd i benodi **rheolwr rhaglen ar gyfer Prosiect Sero** sy'n bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu Herio.
- Roeddem yn gweithio'n rhagweithiol gydag ysgolion ar **Arolygon Teithio Llesol a Chynlluniau Teithio**. E.e. Ysgol Sant Baruc, ysgolion cynradd Dewi Sant a Thrwyn y De.

**5.**

- **Cafodd 3 gwely eu hailagor** yn Nhŷ Dyfan fel rhan o Brosiect 1000 o Welyau i liniaru problemau diffyg lle'r farchnad ym maes gofal cymdeithasol.
- Roedd **100 o gydweithwyr** ar draws yr holl gyfarwyddiaethau yn gweithio gyda SOCITM Advisory i lywio ein **Strategaeth Ddigidol** newydd.
- Cyflwynwyd **offer Wave** 5 yn llwyddiannus i gefnogi ysgolion wrth ddarparu dysgu o bell.
- Sefydlwyd **trefniant gwasanaeth a rennir gyda chynghorau Caerdydd, Sir Fynwy a Thorfaen** i ddarparu mwy o wydnwch, symleiddio ein prosesau a sbarduno arbedion caffael yn y dyfodol.
- Cyhoeddwyd ein **Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol (2023-28**) newydd sy'n canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'n hasedau dros y tymor canolig yn y ffordd fwyaf cynaliadwy.
- Sicrhawyd **£500,000** mewn cyllid grant i gefnogi'r gwaith i ddarparu'r Pod Bwyd
- **Ailfodelwyd cronfeydd wrth gefn y Cyngor** i gyd-fynd â blaenoriaethau allweddol, fel Prosiect Sero, a risgiau fel yr argyfwng costau byw.
- Llwyddwyd i gyflawni **rhaglen gyfalaf sylweddol gwerth tua £6m,** mewn amgylchiadau heriol.
- Cyflwynwyd **technoleg ddigidol** i gefnogi ein blaenoriaethau ail-lunio gan gynnwys Oracle Fusion, offer MS365, Granicus, a llwyfannau ymgysylltu sy'n cyfrannu at well mynediad i wasanaethau, costau is a mwy o dryloywder i ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill.

**6.**

- Cymeradwywyd **Cynllun Lles newydd** ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda phwyslais arbennig ar y newid yn yr hinsawdd, dod yn awdurdod sy'n dda i bobl hŷn a mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd

**7.**

- **Sicrhawyd 11 o gartrefi ychwanegol** ar gytundeb prydlesu gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i roi cymorth adsefydlu allweddol i deuluoedd o Syria ac Affganistan sy'n byw yn y Fro.
- Mae'r Swyddog Sy'n Dda i Bobl Hŷn newydd wedi ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu **Siarter BGC Sy'n Dda i Bobl Hŷn.**
- Recriwtiwyd Cydlynydd Cymunedol sy'n Deall Dementia i fwrw ymlaen â datblygu **Cymunedau sy'n Deall Dementia** yn y Fro.
- Roeddem yn gweithio gydag ysgolion i ddefnyddio **'Fy Mhryder'** ac **'Eglurder'** i ddeall a mynd i'r afael â bwlio yn well yn ein hysgolion.
- Gwellwyd hygyrchedd i breswylwyr anabl trwy ddarparu **gwasanaeth trafnidiaeth wedi'i addasu GreenLinks, uwchraddio 10 safle bws**, a gosod **31 arddangosiad gwybodaeth safle bws electronig** sy'n hygyrch i'r rhai â nam ar eu golwg.
- Gwnaed **5,765 o deithiau teithwyr** ar wasanaeth GreenLinks yn ystod 2022-23, sy'n uwch na ffigur y llynedd, sef 3,345.
- Roedd **230 o ddefnyddwyr** o wasanaethau trafnidiaeth cymunedol, sy'n uwch na 160 yn 2021/22.
- Enillodd y Cyngor **wobr arian** Stonewall i gydnabod cynnydd mewn perthynas â'i **Agenda cynhwysiant LHDTC+**

**8.**

- Cafwyd **58 o gofrestriadau newydd** gan staff y Cyngor ar gyfer y rhaglen 'Dysgu Cymraeg', **sy'n uwch na 9 y llynedd.**
- Mae 1 ysgol Gymraeg wedi ennill **Gwobr Aur Siarter yr Iaith Gymraeg,** mae 8 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn **Gwobr Efydd Campws Cymraeg,** 2 y wobr arian a 2 y wobr aur. Mae 3 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn gwobr efydd Campws Cymraeg
- Mae **Menter Bro Morgannwg** yn parhau i gynnig cyfleoedd amrywiol i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal â gweithgareddau cyn ysgol ac ar ôl ysgol i bobl ifanc. Roedd **dros 15,150 o gyfranogwyr** mewn digwyddiadau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn.
- **Cynyddwyd nifer y lleoedd mewn addysg Gymraeg** ymhellach gyda **210 o leoedd cynradd ychwanegol** yn y datblygiad newydd ar lannau'r Barri a **299 o leoedd uwchradd ychwanegol** yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.
- **Gwellwyd darpariaeth trwy Urdd Gobaith Cymru** mewn ymateb i'r angen a nodwyd am fwy o ddarpariaeth gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg.
- Ar y cyd â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, rydym yn datblygu **Cynllun Ynni Ardal Leol** i ymgysylltu â busnesau i gynnig cymorth datgarboneiddio.

## EIN CYFLAWNIADAU

**9.**

- Enillodd y Cyngor **Wobr Aur** y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn i gydnabod y gwaith cadarnhaol a wnaed i gefnogi teuluoedd cyn-filwyr a'r lluoedd arfog.
- Gwnaeth **1,500** o bobl gysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori i Gyn-filwyr ac fe'u cyfeiriwyd at gymorth ar gyfer Budd-daliadau, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Cyllid, Cyflogaeth a Thai.
- Lansiwyd **hyb cyn-filwyr LHDTC+** ym mis Hydref 2023.
- Cyflwynwyd **cynllun cyfweliadau gwarantedig ar gyfer cyn-filwyr** a mesurau i **recriwtio gweithwyr newydd o gymuned y lluoedd arfog.**
- Mae'r Cyngor wedi'i roi ar y **rhestr fer ar gyfer Gwobr Cyn-filwyr Cymru** gan grwpiau cyn-filwyr lleol i gydnabod ein cyfraniad a'n cefnogaeth.

**10.**

- Cyflawnwyd ein dyletswyddau statudol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan gynnwys cyhoeddi **Hunanasesiad Blynyddol** y Cyngor a **Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.**

**11.**

- **Gwnaeth pob un o'r 54 Aelod Etholedig**, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, gwblhau hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr yn llwyddiannus fel rhan o'r **Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau.**
- Rydym yn cefnogi dulliau newydd ac arloesol o graffu trwy gyflwyno ein **Cynllun Gweithredu Craffu** ar y cyd ag aelodau etholedig.
- Sefydlwyd **rhaglen o weithdai sy'n cyd-fynd â'r calendr perfformiad blynyddol** i alluogi herio a goruchwylio aelodau yn effeithiol yn unol â'u rolau.
- Sefydlwyd **rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau** i wneud cysylltiadau effeithiol rhwng y cynghorwyr hyn a gwaith y Cyngor.

**12.**

- Mae'r **Strategaeth Pobl newydd a strategaethau ategol allweddol** yn adlewyrchu'r ffyrdd newydd o weithio sy'n cefnogi cyflawni Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.
- Cafwyd cynnydd cadarnhaol yng Nghymhareb Amrywiaeth y Cyngor o **2.9% yn 2021/22 i 3.11%**, yn unol â'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth y gweithlu.
- Mae **58** o bobl ifanc wedi elwa hyd yma o **well perthnasoedd â sefydliadau addysg lleol, darparwyr Prentisiaethau Annibynnol a mentrau KickStart a Dechrau'n Gyflym** i ddenu talent ifanc i'r Cyngor.
- Cynyddwyd ein staff o dan 25 oed **o 3.77% i 4.12%**
- Cynyddwyd nifer yr **Hyrwyddwyr Lles (o 45 i 65)** a chafodd Timau Iechyd Galwedigaethol eu huwchsgilio ymhellach i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau a gweithgareddau ar gyfer gweithwyr gan gynnwys caffi menopos, hyfforddiant pwrpasol wedi'i lywio gan drawma, sesiynau lles cymunedol, a sesiynau cerdded coetir misol

# GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU: YR HYN A DDYWEDODD EIN PRESWYLWYR A'N DEFNYDDWYR GWASANAETH

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Cynllun Cyflawni Blynyddol** | Cytunwyd ar yr heriau hollbwysig sy'n wynebu'r Cyngor a'r camau arfaethedig sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain.<br>Cadarnhaodd y canfyddiadau berthnasedd ein hamcanion lles.<br>Cafwyd cytundeb a chefnogaeth ar gyfer y cynllun arfaethedig a gyflwynwyd gan y Cyngor.<br>Ymatebodd dros 320 o bobl trwy arolwg ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a gweithdai amrywiol. | Mae'r Cynllun Cyflawni Blynyddol wedi'i fabwysiadu ac rydym yn monitro'r camau gweithredu ac yn adrodd am y cynnydd i sicrhau y caiff ei gyflawni. Mae cynnydd a chanlyniadau yn cael eu cyfleu'n rheolaidd i randdeiliaid allweddol trwy sawl cyfrwng. |
| **Ymgynghoriad ar y Gyllideb** | Mae cefnogaeth gref i'r Cyngor barhau i adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i'w gwneud mor effeithlon â phosibl.<br>Cytunwyd y dylai'r Cyngor flaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau sy'n amddiffyn ein preswylwyr mwyaf bregus.<br>Roedd taliadau uwch am y dreth gyngor a gwasanaethau anstatudol yn ddewisiadau llai ffafriol ar gyfer cydbwyso'r gyllideb.<br>Nodwyd bod ailwynebu ffyrdd a buddsoddi yn narpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn flaenoriaethau ymhlith ymatebwyr.<br>Roedd 773 o ymatebwyr i'r arolwg cyllideb. | Mewn gwirionedd, roedd angen i'r Cyngor ddefnyddio'r holl ddulliau arfaethedig i gydbwyso'r gyllideb, gan gynnwys cynnydd arfaethedig o 4.9% yn y dreth gyngor. Mae gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn amddiffyn ein preswylwyr mwyaf agored i niwed wedi cael eu blaenoriaethu, gan gynnwys buddsoddi yn narpariaeth gwasanaethau cymdeithasol.<br>Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb a chynaliadwyedd gwasanaethau gwerthfawr, mae gwasanaethau eraill yn cael eu darparu'n wahanol. Mae casgliadau gwastraff gardd, nad ydynt yn rhai statudol, bellach yn cael eu hariannu trwy danysgrifiad blynyddol a delir gan breswylwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae casgliadau bagiau du wedi symud i amserlen tair wythnos er mwyn gwneud arbedion. |
| **Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) 2023-28** | Nodwyd y meysydd canlynol fel y rhai y dylai'r BGC ganolbwyntio arnynt:<br>• Cyfleoedd i bobl ifanc ac addysg<br>• Mynediad i wasanaethau<br>• Trafnidiaeth a theithio llesol, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella seilwaith<br>• Anghenion pobl hŷn<br>• Amddiffyn yr amgylchedd a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd<br>• Trosedd a gorfodi<br>Cytunodd 78.5% o breswylwyr y dylai'r BGC weithio i greu Bro fwy gwydn a gwyrdd; 86.9% i greu Bro fwy actif ac iach; a 78.3% i greu Bro fwy teg a chysylltiedig.<br>Ymatebodd 1,264 i'r arolwg. | Mae'r BGC wedi datblygu, cyhoeddi a lansio ei Gynllun Lles ar gyfer 2023-28 gan fynd i'r afael â 3 amcan lles – Bro fwy gwydn a gwyrdd, Bro fwy actif ac iach a Bro fwy teg a chysylltiedig. Mae'r canfyddiadau ymgysylltu wedi llywio gweithgareddau'r cynllun.<br>Mae partneriaid y BGC wedi nodi prosiectau a fydd yn sylfeini'r blaenoriaethau hyn gyda ffocws penodol ar annhegwch, gweithio mewn cymunedau mwy difreintiedig, trafnidiaeth gynaliadwy a dod yn awdurdod sy'n dda i bobl hŷn. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymgynghoriad ar Deithio Llesol** | Nodwyd rhwystrau allweddol i deithio llesol fel cyrbau coll a phalmentydd cyffyrddol, gatiau mochyn ac ati mewn perthynas â mapiau rhwydwaith yn y Barri, y Bont-faen, Dinas Powys, Llanilltud Fawr, Penarth, y Rhws, Sain Tathan a Sili. Nodwyd llwybrau newydd a'r llwybrau presennol sydd angen eu gwella.<br><br>Roedd 560 o ymatebwyr i'r cynlluniau datblygu teithio llesol. Ar draws y Fro dros y tair rownd ddiwethaf, cymerodd bron 3,650 ran mewn datblygu cynlluniau teithio llesol. | Dechreuwyd y gwaith i gael gwared ar rwystrau gwahaniaethol ar ein rhwydwaith Teithio Llesol a hyrwyddo mynediad i bawb.<br><br>Mae ymgysylltu parhaus wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod Map Rhwydwaith Teithio Llesol mwy cydlynol yn cael ei ddatblygu sy'n hygyrch i bawb. |
| **Mentrau Cyfranogiad Ieuenctid**<br>Rhaglen o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc trwy werthusiadau cleientiaid ac eraill ar gyfer Cenhadon Hawliau'r Fro, y Cabinet Ieuenctid, Llais y Disgyblion, Gwnewch Eich Marc a chynlluniau allweddol y Cyngor gan gynnwys Prosiect Sero, y Cynllun Cyflawni Blynyddol, Cynllun Lles y BGC, a Chynlluniau Teithio Llesol. | Roedd ymgysylltu am gyfranogiad ieuenctid yn amlygu'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth o Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.<br><br>Mae ymgysylltu parhaus ar gynlluniau'r Cyngor megis Prosiect Sero, Teithio Llesol, Cynllun Lles y BGC a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn dangos bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn sgyrsiau ynghylch teithio llesol, y newid yn yr hinsawdd, yr argyfwng natur a'r argyfwng costau byw gyda thrafodaeth barhaus ar eu heffaith.<br><br>Trwy ymgysylltu ar yr ymgyrch diogelwch stryd, nodwyd yr angen am well goleuadau stryd, mwy o gamerâu teledu cylch cyfyng a mwy o ymwybyddiaeth o'r broses adrodd am aflonyddu rhywiol.<br><br>Ymgysylltwyd ar Iechyd Meddwl a Lles trwy drafodaethau mewn sesiynau cwnsela yn Ysgol Barnardo's. | Rhoddwyd ffocws newydd ar gynnwys llais pobl ifanc ym mhob agwedd ar fusnes y Cyngor a chryfhau'r bartneriaeth rhwng pobl ifanc a'r Cyngor wrth lunio ein blaenoriaethau adfer a datblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.<br><br>Cryfhawyd llais pobl ifanc wrth nodi problemau sy'n wynebu pobl ifanc yn y Fro, gan gynnwys teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau ac atebion posibl.<br><br>Mae trafodaethau wedi llywio a chryfhau darpariaeth cwnsela mewn ysgolion ar gyfer pobl ifanc. |
| **Ymgynghoriad ar Fro Sy'n Dda i Bobl Hŷn a Fforwm Strategaeth 50+** | Cadarnhawyd meysydd ffocws allweddol Fforwm Strategaeth 50+ sy'n cynnwys dylanwadu ar strategaeth a pholisïau, mynediad i wasanaethau, mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd, trafnidiaeth, yr amgylchedd, iechyd, ac eiriolaeth i bobl hŷn.<br><br>Nodwyd meysydd lle mae angen mwy o ffocws i helpu i wneud y Fro yn well i bobl hŷn, gan gynnwys mwy o weithgareddau, toiledau cyhoeddus, mwy o seddi, mynediad i wasanaethau a mynediad i wybodaeth.<br><br>Ymatebodd 243 o bobl i'r ymgynghoriad. | Llywiodd flaenoriaethau mewn cynlluniau allweddol fel Cynllun Lles y BGC a Chynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor. |

# YR HYN A DDYWEDODD EIN RHEOLEIDDWYR

| Adolygiad | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| **Llamu Ymlaen - Cynllunio'r Gweithlu** | Rydym yn cymryd camau i wella trefniadau cynllunio'r gweithlu ond mae angen i ni gryfhau ein defnydd o'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn llywio ein dull o gynllunio'r gweithlu ymhellach.<br><br>Gwnaed dau argymhelliad i sicrhau bod ein Cynllun Gweithlu yn cael ei lunio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac i gryfhau'r gwaith o fonitro'r cynllun. | Yn unol â gwella ein model Cynllunio'r Gweithlu'n Strategol, gwnaethom ymgysylltu â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol i ddarparu hyfforddiant a datblygiad â ffocws yn sgil Cynllunio'r Gweithlu'n Strategol sydd wedi ein galluogi i werthuso ein prosesau'n feirniadol.<br><br>Rydym yn cryfhau ein trefniadau i lywio cynlluniau allweddol y Cyngor fel sy'n cyd-fynd â Fframwaith Perfformiad y Cyngor a'r Rhaglen Ail-lunio.<br><br>Datblygwyd Dangosfyrddau Data Gweithwyr i'w defnyddio mewn cyfarfodydd DMT ar draws y gyfarwyddiaeth i alluogi rheolwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ar agweddau megis recriwtio, gwerthuso perfformiad ac amrywiaeth. |
| **Llamu Ymlaen - Asedau** | Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith sy'n helpu i reoli ein hasedau'n effeithiol ond mae angen i ni ystyried sut y gallwn gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llawnach i gryfhau'r trefniadau hyn a chynllunio ar gyfer y dyfodol.<br><br>Gwnaed argymhelliad i sicrhau bod rheolaeth strategol ein hasedau'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llawn. | Gwnaethom adolygu, datblygu a chyhoeddi ein Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol (2023-28) newydd gyda ffocws ar wneud y defnydd gorau o'n hasedau dros y tymor canolig yn y ffordd fwyaf cynaliadwy. |
| **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** | Mae ein trefniadau ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn effeithiol i raddau helaeth, er bod lle i ddatblygu rhai elfennau ymhellach.<br><br>Gwnaed dau argymhelliad i ddatblygu ein pecyn cymorth rheoli prosiectau a'n cynnig dysgu a datblygu i helpu swyddogion i ddeall a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ôl yr angen yn eu rolau. | ymorth rheoli prosiectau ac yn datblygu offer a chanllawiau diwygiedig i gefnogi swyddogion i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br><br>Cyflwynwyd rhaglen o gyfathrebu a darparu gwybodaeth fel rhan o'r cynnig dysgu a datblygu i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach, gan gynnwys trwy'r broses Hunanasesu Flynyddol, arfarniad staff a hyrwyddo gwaith y Cyngor ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol. |

## Ein heriau allweddol

- Mae heriau sylweddol yn parhau mewn rhai gwasanaethau o ran denu a chadw staff. Mae hyn wedi cael ei waethygu gan bwysau cyllidebol, prinder sgiliau cenedlaethol a grymoedd y farchnad. Yn genedlaethol, llywodraeth leol yw'r rhan o'r sector cyhoeddus sy'n talu'r isaf o hyd ac, o ganlyniad, nid yw'n ddeniadol ar gyfer dewis gyrfa. Mae angen i ni wneud llawer mwy i ddatblygu ein brand gweithwyr, hyrwyddo ein cynnig cyflogaeth a chynyddu'r cyflenwad a fydd yn heriol o fewn marchnad gweithwyr hynod gystadleuol.
- Mae absenoldeb gweithwyr ar 12.82 diwrnod cyfwerth ag amser llawn wedi gwaethygu o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (11.35), gan fethu'r targed o 9.2 diwrnod. Mae angen mynd i'r afael â materion llwyth gwaith/capasiti a lleihau lefelau presenoldeb ar draws y gweithlu, a waethygir ymhellach gan yr heriau recriwtio a chadw parhaus mewn rhai gwasanaethau.
- Er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, mae angen cyflymu cynnydd o ran ymgorffori dull cyson o wella ein hymateb, adrodd a dysgu o gwynion a chanmoliaeth.
- Mae angen darparu adnoddau a chyflymu cynnydd o ran datblygu mewnwelediad i gwsmeriaid, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau gwarchodedig a difreintiedig yn gymdeithasol i lywio'r gwaith o ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau.
- Mae pwysau chwyddiant cynyddol y tu hwnt i'n rheolaeth yn parhau i gael effaith ar gost cyflenwadau a'r gallu i weithredu rhaglenni cyfalaf megis y rhaglen Adeiladu Tai Cyngor a'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Oherwydd hyn, mae costau wedi codi cymaint â 30% ar gyfer prosiectau unigol ac mae rhai contractwyr wedi bod yn amharod i ymrwymo i brosiectau tymor hir neu i ddal costau am gyfnodau hir. Mae cyllidebau a rhaglenni unigol yn cael eu hadolygu wrth i ddata ddod i'r amlwg ar gyfer pob prosiect, ond bydd hyn yn parhau i greu heriau.
- Mae adnoddau cystadleuol wedi effeithio ar gyflawni rhai camau allweddol megis fframwaith newydd ar gyfer perthynas y Cyngor â'r Trydydd Sector, datblygu Cynllun Rheoli Carbon newydd ar gyfer 2023-2020 a gweithgareddau allweddol yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac mae angen symud ymlaen â'r rhain.

## Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol

- Parhau i weithio ar y cyd yn fewnol a chyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â'n heriau recriwtio a chadw.
- Bwrw ymlaen â gwaith i gynyddu amrywiaeth y gweithlu gan gynnwys denu a chadw gweithlu iau a mwy amrywiol.
- Bwrw ymlaen â'n cynigion ar gyfer diwylliant, ymgysylltu a chyfranogiad gweithwyr ar gyfer y dyfodol.




- Cydweithio â sefydliadau addysg, darparwyr prentisiaethau annibynnol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu sgiliau a llwybrau gyrfaol galluogrwydd newydd i lywodraeth leol er mwyn denu talent newydd a fydd yn helpu i ddatblygu'r biblinell sgiliau sydd eu hangen arnom i greu gweithlu gwydn ar gyfer y dyfodol.
- Datblygu a chyflwyno cyfleoedd i wella dulliau o reoli absenoldeb.
- Gwreiddio dull cyson o wella ein hymateb, gan adrodd a dysgu o gwynion a chanmoliaeth.
- Darparu adnoddau a chyflymu cynnydd o ran datblygu mewnwelediad i gwsmeriaid, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau gwarchodedig a difreintiedig yn gymdeithasol i lywio'r gwaith o ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau.
- Bwrw ymlaen â gwaith i ehangu gwasanaethau ar-lein a'r amrywiaeth o ddulliau digidol a ddefnyddir i ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion Bro Morgannwg trwy'r Strategaeth Ddigidol.
- Bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu'r Strategaeth Gwirfoddoli fel rhan o'r Strategaeth Lles.
- Adolygu'r Rhaglen Gyfalaf yn gyson i adlewyrchu a mynd i'r afael â phwysau/heriau sy'n dod i'r amlwg o ran addasrwydd/hyfywedd ein hasedau corfforol.
- Parhau i weithio ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid i ddatblygu ein gallu ar y cyd ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion/cwsmeriaid a'n defnydd o'r mewnwelediadau hyn ynghyd â pherfformiad a mewnwelediadau data eraill i lywio datblygiadau gwasanaethau yn y dyfodol.
- Bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu ein Cynllun Rheoli Carbon newydd ar gyfer 2023-2020.
- Bwrw ymlaen â chamau allweddol yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan gynnwys y rhaglen Cynhwysiant LHDTC+ a chwblhau a chyflwyno ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Cryfhau ein perthynas a'n gwaith gyda Chynghorau Tref a Chymuned a'r Trydydd Sector trwy gyflawni Cynllun Lles y BGC a chytundeb fframwaith ar gyfer ein perthynas sy'n datblygu.

# PERFFORMIAD EIN CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL YN ÔL AMCANION LLES

## AMCAN LLES 2: ATEGU DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi pobl o bob oed i ddatblygu a dysgu. Rydym yn ymrwymedig i annog uchelgeisiau pobl a sicrhau bod unigolion a chymunedau'n gallu ffynnu a chyflawni eu gorau

### STATWS PERFFORMIAD

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag **Amcan Lles 2** | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | Statws CMG Cyffredinol ar gyfer **Amcan Lles 2** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau |
| 37 | 18 | 35 (95%) | 17 (94%) | 0 | 0 (0%) | 2 (5%) | 1 (6%) | GWYRDD |

Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 2 yw **DA** Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod.

### YR HYN A DDYWEDON NI Y BYDDEN NI'N EI WNEUD

| Amcan | Statws Perfformiad |
|---|---|
| **1** Gweithio mewn partneriaeth i baratoi ein hysgolion ar gyfer y cwricwlwm addysg newydd. | Statws Perfformiad: G |
| **2** Diwallu anghenion plant a phobl ifanc ac ymateb i'w anawsterau iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol. | Statws Perfformiad: G |
| **3** Hyfforddi a chefnogi ysgolion er mwyn hwyluso'r broses o ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fesul cam. | Statws Perfformiad: G |
| **4** Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi ein hysgolion i leihau gwaharddiadau a gwella presenoldeb. | Statws Perfformiad: G |
| **5** Gwneud gwelliannau i'n hysgolion trwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif). | Statws Perfformiad: G |
| **6** Gweithio gydag eraill i gefnogi cyflogaeth a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol. | Statws Perfformiad: G |
| **7** Rhoi cyngor, cymorth a gwybodaeth i breswylwyr ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys tai, dyled, tlodi tanwydd, budd-daliadau, cyflogaeth a hyfforddiant trwy nifer o wasanaethau. | Performance Status: G |
| **8** Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu strategaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer trafnidiaeth, cynllunio a datblygu economaidd. | Statws Perfformiad: G |
| **9** Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi adferiad parhaus a thwf economaidd y Barri. | Statws Perfformiad: G |
| **10** Datblygu a gweithredu strategaethau twf economaidd ac adfer cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ganol ein trefi. | Statws Perfformiad: G |
| **11** Ail-lunio arferion a pholisïau caffael i sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn cyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol, yn cefnogi gwaith sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac yn adeiladu ar brosiect yr Economi Sylfaenol. | Statws Perfformiad:: G |







## EIN CYFLAWNIADAU

**1.**

- Elwodd **50** o unigolion a sefydliadau o gyllid gwerth **£396,000** i ddatblygu a gwella cynaliadwyedd darpariaeth gofal plant yn y Fro.
- Mae 159 **(93%)** o leoliadau gofal plant cymwys yn y Fro wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant gyda 2,393 o blant wedi defnyddio'r rhaglen
- Derbyniodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd **dros 1,600** o ymholiadau **mewn perthynas â gofal plant, sy'n gynnydd o 3.5%** ers y llynedd.
- Cymerodd **655 o ymarferwyr** o holl ysgolion y Fro ran mewn dysgu proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru.
- Cymerodd **1,811** o ymarferwyr o holl ysgolion y Fro ran yn nigwyddiadau dysgu proffesiynol Consortiwm Canolbarth y De.
- Cymerodd **100%** (74) o athrawon newydd gymhwyso yn ysgolion y Fro ran yn rhaglen Anelu'n Uchel i wella eu gwybodaeth.
- Ar lefel **Safon Uwch,** mae dros **20 o bynciau** yn chwartel uchaf perfformiad ar draws Cymru a Lloegr gan gynnwys Bioleg, Cemeg, Mathemateg, Mathemateg Bellach, ac Economeg.
- Yng **Nghyfnod Allweddol 4,** mae **14** o bynciau yn chwartel uchaf perfformiad ar draws Cymru a Lloegr gan gynnwys Bioleg, Cemeg, Economeg, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, a Mathemateg.

**2.**

- Roedd gwiriadau iechyd a gwblhawyd yn ein hysgolion yn rhoi **adborth cadarnhaol am y cynnydd i ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol.**
- Ymgysylltodd **759** o ddisgyblion â gwasanaethau Emosiynol Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl.
- Roedd **4 Therapyddion Cynradd** yn darparu cymorth cwnsela wyneb yn wyneb ac yn ddigidol yn y gymuned o ddwy ganolfan allgymorth.
- Mae **6 Ysgol Gynradd** bellach yn cael eu cefnogi gan Luna Play gyda 4 yn derbyn sesiynau chwarae therapiwtig a 3 yn derbyn gweithdai chwarae teuluol.

**3.**

- Cwblhaodd pob ysgol **hyfforddiant Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY).**
- Sefydlwyd **Hyrwyddwyr Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a phrosesau sicrhau ansawdd,** gan sicrhau cysondeb mewn ymarfer a chyfrannu at gynnydd dysgwyr. Roedd dros **300 o CDUau** yn destun proses sicrhau ansawdd yn 2022-23. Ysgrifennwyd **619** o CDUau ysgol, sy'n uwch na **335** yn 2022.
- Roedd presenoldeb **100%** o 28 lleoliad addysg yn hyfforddiant Cod ADY Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) yn y Blynyddoedd Cynnar.

**4.**

- **Cyflwynwyd ymgyrch gydag ysgolion i wella presenoldeb wedi'i lywio gan blant a phobl ifanc.**
- Mae cynnydd yn nifer y disgyblion Blwyddyn 12 sy'n mynd ymlaen i'r chweched dosbarth, y coleg neu hyfforddiant yn y gwaith gyda **0.23%** yn **NEET** o'i gymharu â **0.35%** yn **2021/22,** sef yr **2il uchaf yng Nghymru.**
- Mae **2.56%** o bobl ifanc yn NEET ar ôl gadael Blwyddyn 13, ychydig yn is na pherfformiad y llynedd, sef 2.3%, gan ei roi yn yr 8fed safle yng Nghymru.

**5.**

- Mae cyflwyno prosiectau Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B wedi **aros ar y trywydd iawn** o ran y rhaglen gyffredinol sy'n dod i ben yn 2026 gyda 70% o'r prosiectau wedi'u cyflawni. Cwblhawyd **Ysgol Gymraeg Sant Baruc.** Wrthi'n cael eu hadeiladu mae'r Ganolfan Dysgu a Lles yn y Barri; ac Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Arbennig y Deri ym Mhenarth.
- **158** o swyddi llawn amser newydd, **104** o brentisiaethau a **32** o leoliadau profiad gwaith; **3,000** o oriau o weithgareddau STEM ysgol, gan gyrraedd dros **11,000 o ddisgyblion; 99%** o wastraff adeiladu'n osgoi mynd i safleoedd tirlenwi; **82%** o wariant adeiladu yng Nghymru; a **50%** o'r gweithlu yn dod o'r cod post lleol - dyma rai o fuddion cymunedol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

**6.**

- Roedd **211%** yn erbyn targed cleientiaid CaW+ yn cymryd rhan mewn cymorth i wella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd o'i gymharu â ffigur y llynedd o 177%.
- Mae 11 o brentisiaid gweithredol mewn rolau ar draws y Cyngor fel rhan o'n cynllun Prentisiaethau.
- **Mae 41** o bobl ifanc wedi elwa o'r rhaglen Kick Start gydag 8 yn sicrhau swyddi parhaol yn y Cyngor.
- Cwblhawyd **6 lleoliad** QuickStart yn y Cyngor fel rhan o gefnogi datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol gyda thri yn sicrhau cyflogaeth llawn amser.
- Cyfradd llwyddiant **98%** ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr blaenoriaeth, sy'n uwch na ffigur y llynedd, sef 91%, a'r cymharydd cenedlaethol.
- Digwyddiad Ffair Swyddi gyda dros 300 o unigolion yn bresennol a dros 50 o stondinwyr yn arddangos opsiynau i oedolion ifanc 16-24 oed gan gynnwys cyflogwyr lleol, addysg a hyfforddiant, a gwasanaethau lles meddwl.
- Sefydlwyd **3** swydd i gefnogi unigolion niwroamrywiol.
- Nododd arolygiad Estyn o Ddysgu Oedolion a Dysgu Cymunedol **waith partneriaeth ardderchog** gyda Cymunedau am Waith a Mwy y Fro ar ddarparu cyfleoedd dysgu.

**7.**

- Cynhaliwyd **239 o denantiaethau** chwe mis ar ôl derbyn Cyngor Ariannol, yn erbyn targed blynyddol o 200.
- Cysylltodd 1,418 o bobl â'r **Siop Un Stop** am gymorth ar gyfer amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â thai, gydag ymyriadau'n dangos canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth.

**8.**

- Sicrhawyd **£600,000** o gyllid i gefnogi uwchraddio Safleoedd Bysus, gan gynnwys terfynell safle bws Maes Awyr Caerdydd.
- Cwblhawyd **Cyfnewidfa Drafnidiaeth Doc y Barri.**
- Penderfynwyd ar **98.6%** o bob cais cynllunio o fewn 8 wythnos, sy'n uwch na 94.4% yn 2021/22.

**9.**

- Llwyddodd **12 busnes** yn Heol Holltwn i sicrhau cyllid Grant Mân Welliannau Ffisegol fel rhan o waith i adfywio canol tref y Barri.
- Gwnaed **gwelliannau i safleoedd bysus** ar Heol Holltwn, Canol Tref y Barri; Stryd Fawr y Barri; a Park Crescent.
- Rydym yn datblygu **cynllun Creu Lleoedd ar gyfer ein 4 prif dref** gan gynnwys y Barri, Llanilltud Fawr, Penarth a'r Bont-faen gan ganolbwyntio ar dwf economaidd.

**10.**

- Datblygwyd **strategaeth fuddsoddi** i'r Cyngor gyda ffocws ar dwf economaidd, adfywio a'r newid yn yr hinsawdd.
- Mae **15 busnes newydd** ar draws y Fro wedi derbyn arian grant drwy Fwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro.
- **Cwblhawyd gwaith seilwaith ym mhob parc gwledig** yn barod ar gyfer cyflwyno band eang ffibr, gan gynyddu'r potensial i greu incwm yn y lleoliadau hyn.
- Sefydlwyd **Tîm Cyllid, Datblygu Cymunedol ac Arloesi Allanol newydd** i gefnogi creu lleoedd, ac adfywio cymunedau a chanol y dref.

**11.**

- Datblygwyd a mabwysiadwyd **Strategaeth Gaffael** sydd wedi cyflwyno gofyniad gwerth cymdeithasol yng nghontractau'r Cyngor gyda phwyslais ar gefnogi'r economi leol, cyflogaeth a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.
- Ymrwymwyd i **drefniant gwasanaethau a rennir gyda chynghorau Caerdydd, Sir Fynwy a Thorfaen** i ddarparu mwy o wydnwch a sbarduno **arbedion effeithlonrwydd caffael** yn y dyfodol.

# GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU: YR HYN A DDYWEDODD EIN PRESWYLWYR A'N DEFNYDDWYR GWASANAETH

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Parc Sglefrio'r Cnap** | Ceisiwyd syniadau cymunedol cychwynnol ar gyfer dylunio'r parc sglefrio gydag ymgysylltiad pellach ar y dyluniad arfaethedig. Yn ogystal â cheisiadau dylunio penodol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol i'r cyfleuster fod yn un o ansawdd y gallai pawb ei fwynhau. | Cafodd y dyluniad terfynol ei fireinio ar sail adborth gan y gymuned leol a chodwyd arian ychwanegol i dalu'r costau cysylltiedig. Mae'r parc sglefrio newydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Awst. |
| **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** - Ceisiwyd barn rhieni, gofalwyr, darparwyr gofal plant, ysgolion cynradd ac uwchradd, plant a phobl ifanc, asiantaethau partner a gweithwyr proffesiynol eraill i lunio a sicrhau gwasanaethau gofal plant mewn ymateb i anghenion lleol. | Tynnwyd sylw at 7 maes allweddol a oedd yn sail i gynllun gweithredu i lunio a sicrhau gwasanaethau gofal plant mewn ymateb i anghenion lleol.<br><br>Cafwyd ymateb gan 15 o bartneriaid allweddol. | Mwy o gydweithio cydlynol rhwng rhanddeiliaid mewnol ac allanol i fynd i'r afael â'r tebygrwydd o ran cymorth sydd ei angen i ddatblygu a chynnal y sector gofal plant.<br><br>Mae penodi Swyddog Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant wedi rhoi'r gallu i arwain ar elfen bwysig i sefydlogi a chynyddu'r gweithlu gofal plant. Mae'r sector yn wynebu heriau enfawr ac felly'n gweithio gydag asiantaethau partner ar feddwl ar y cyd a'r strategaethau a all helpu darparwyr gofal plant. |
| **Ffair Swyddi Flynyddol Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+), Digwyddiad Ieuenctid, Cynhadledd Gyflogadwyedd a Chynllun Ymgysylltu CaW+** | Cafwyd adborth cadarnhaol iawn yn y Digwyddiad Ieuenctid am yr amrywiaeth o gyflogwyr a sefydliadau hyfforddi ac addysg bellach sy'n tynnu sylw at gyfleoedd i oedolion ifanc yn y digwyddiad, a oedd yn addas i anghenion y mwyafrif.<br><br>Nododd y Gynhadledd Gyflogadwyedd anghenion cyflogaeth cyflogwyr, partneriaid, darparwyr addysg a sefydliadau lleol sy'n darparu cymorth cyflogaeth<br><br>Nododd y Cynllun Ymgysylltu yr angen i gynyddu ymgysylltu ar draws y Fro a darparu cymorth cyflogadwyedd o leoliadau allgymorth eraill. Yn ogystal, roedd angen cynyddu gweithgarwch ar draws ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol sydd wedi bod yn flaenoriaeth allweddol.<br><br>Daeth dros 50 o stondinwyr i ddangos eu cyfleoedd i oedolion ifanc yn yr ardal, gyda dros 300 o unigolion yn bresennol. | Cryfhaodd y Digwyddiad Ieuenctid ein gwaith ymgysylltu â phobl ifanc 16-24 oed fel rhan o'n hymrwymiad i Warant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru gyda sefydliadau partner newydd sy'n ceisio cynorthwyo oedolion ifanc i gael gwaith.<br><br>Mae perthnasoedd wedi cryfhau gyda sefydliadau fel Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith ac Ymddiriedolaeth y Tywysog o ganlyniad i ni ymgysylltu'n fwy ag oedolion ifanc. Mae'r ymgysylltu wedi llywio gweithgareddau blaenoriaeth i gyflawni amcanion ein cynllun cyflawni.<br><br>Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfa ehangach sy'n targedu demograffeg briodol i ddiwallu agendâu Llywodraeth Cymru. Sicrhaodd mwy o ffocws ar y grŵp 50+ gan sicrhau y canolbwyntir ar gyfleoedd a chymorth ar gyfer y grŵp oedran hwn, gan weithio gyda'n partneriaid, Canolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae ymgysylltu a rhyngweithio rheolaidd â'n cyfranogwyr a'n partneriaid wedi ein galluogi i gael gwybod am y datblygiadau cyfredol ym myd cyflogadwyedd a'r farchnad swyddi, gan ein galluogi i addasu ein gwaith i ddiwallu anghenion cyfranogwyr mewn modd amserol a pherthnasol.<br><br>Ar ddiwedd 2022/2023 dilynwyd ein tudalen Facebook gan ychydig o dan 4k ac roedd ein cyrhaeddiad ar Facebook yn fwy na 20k, 10% yn uwch na'r chwarter blaenorol. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cynhwysiant** | Adnoddau cyfyngedig yn y Tîm Cynhwysiant i fynd i'r afael â materion allweddol addysg ddewisol yn y cartref (ADdC), gwaharddiadau a chymorth i'r disgyblion hynny sy'n derbyn tiwtora y tu allan i'r ysgol. Roedd anawsterau wrth staffio pwyllgorau disgyblu disgyblion a sicrhau bod ymweliadau ADdC yn cael eu cynnal oherwydd y problemau staffio<br><br>Roedd angen defnyddio cyllid craidd i weithredu model gweithio newydd y Gwasanaeth Ieuenctid mewn perthynas â'r rhaglen atal NEET cyn 16 oed mewn ysgolion a thargedu'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET ar ôl 16 oed oherwydd ansicrwydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) ac oedi wrth ddyrannu cyllid.<br><br>Bydd yr angen am ymgysylltu ag ysgolion, ymgysylltu â Bwrdd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI) a phartneriaid ehangach megis cynhwysiant, lles ieuenctid a chwarae yn parhau i lywio'r model darparu gwasanaethau.<br><br>Mae angen cydweithredu â NEET cyn 16 a Digartrefedd Ieuenctid i ddatblygu un rhaglen gydag un pwynt mynediad.<br><br>Ymgysylltwyd â 10 aelod o staff ar yr ailstrwythuro. Roedd pob un o'r 159 o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn rhan o'r broses o drafod eu gofynion. | Mae ailstrwythuro'r Tîm Cynhwysiant wedi mynd i'r afael â materion staffio mewn meysydd allweddol ac erbyn hyn mae 100% o'r Cwricwlwm Datblygiad Personol wedi derbyn cymorth swyddogion yr ALI ac mae pob teulu Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi cael cynnig ymweliadau cartref a chynnig cymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd hyn yn digwydd o'r blaen.<br><br>Cryfhawyd atgyfeiriadau'n fawr ar gyfer y rhai sydd yn y perygl mwyaf gyda system brysbennu newydd. Mae hon yn nodi'r cymorth sydd ei hangen, nid yn unig o ran staff prosiectau NEET cyn 16 oed neu ddigartrefedd, ond partneriaid hefyd gan gynnwys mentoriaid Lles Ieuenctid Teuluoedd yn Gyntaf, y Gwasanaeth Cynhwysiant a swyddogion Deilliannau Addysg Hydredol. Mae hyn i gyd wedi galluogi dulliau ymatebol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc a'u teuluoedd.<br><br>Bydd arian gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gadarnhawyd ym mis Ebrill 2023 yn gwrthbwyso arbed costau i wasanaethau ieuenctid craidd, ac yn ariannu gwaith NEET Cyn 16 am y ddwy flynedd nesaf. Mae £80k ychwanegol hefyd wedi'i sicrhau o'r gronfa i gynyddu lefelau staffio yn y maes hwn a'r effaith y gellir ei chael.<br><br>Mae NEET Ôl-16 bellach yn cael ei gynnwys o dan fodel Cymunedau am Waith (CaW) newydd sy'n gysylltiedig ag arian gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Warant Ieuenctid sy'n creu un pwynt mynediad i bob cleient NEET Ôl-16 NEET yn y Fro. |
| **Dysgu Oedolion yn y Gymuned - Digwyddiad Dysgu a Chyflogadwyedd, Llyfrgell y Barri**<br><br>(gan gynnwys sefydliadau lleol Canolfan Byd Gwaith, Cymunedau am Waith a Mwy, Gyrfa Cymru a chyflogwyr lleol) | Nododd adborth gan gyfranogwyr (dros 300) y mathau o gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth oedd eu hangen, gan gynnwys lefelau galw.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad ar wahân ar gyfer siaradwyr Cymraeg a oedd hefyd yn nodi anghenion hyfforddi. | Cryfhawyd gwaith partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned â rhanddeiliaid a gwell dealltwriaeth am yr hyn y mae sefydliadau eraill yn ei wneud yn ogystal â chynnig gwybodaeth ddefnyddiol am gyrsiau sydd ar gael.<br><br>Roedd hyn yn galluogi Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gasglu gwybodaeth allweddol am y mathau o gyrsiau y mae galw amdanynt gan ddysgwyr a cheiswyr gwaith ac ymateb i'r rhain mewn rhaglenni yn y dyfodol. Roedd gwybodaeth bersonol gan geiswyr gwaith yn galluogi Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gysylltu â nhw ynghylch cyrsiau penodol a allai fod o ddiddordeb iddynt. Defnyddiwyd y data hefyd i lywio cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.<br><br>Rhoddodd sefydliadau cyflogaeth gipolwg ar y cyrsiau sydd eu hangen ar geiswyr gwaith ar hyn o bryd i symud ymlaen a dod o hyd i waith.<br><br>Roedd y digwyddiad i siaradwyr Cymraeg yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Grŵp Addysgu a Dysgu Partneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro i gynnal digwyddiad cyfrwng Cymraeg blynyddol, gan ddod â chyflogwyr a charfan newydd o sefydliadau partneriaeth at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, gyda'r data yn llywio cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Digwyddiad partneriaeth gyda CCF (Coleg Caerdydd a'r Fro) - Dysgu fel Teulu** | Ymgysylltwyd â rhieni sydd wedi bod yn mynychu rhaglenni Dysgu fel Teulu mewn ysgolion cynradd lleol trwy sesiynau blasu yng Nghanolfan Palmerston i hyrwyddo dysgu a chyfleoedd eraill a nodi eu hanghenion. Roedd hyn hefyd yn nodi rhwystrau posibl i ailymgysylltu ag addysg a dysgu, gan gynnwys gofal plant ac anawsterau ariannol, a'r angen am wybodaeth ategol bellach a chyfeirio. | Mae gweithio'n agosach gyda rhieni i ddarparu profiadau dysgu cadarnhaol wedi'u helpu i ailymgysylltu ag addysg a hyrwyddo llwybr dilyniant cerrig camu tuag at gyrsiau yn y dyfodol mewn Dysgu Oedolion a Chymunedol ac Addysg Bellach.<br><br>Mae amrywiaeth o wybodaeth bellach ar gael i gefnogi lles, cyngor ariannol a gofal plant.<br><br>Cyrraedd carfan ddysgu bosibl wahanol i hyrwyddo cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach i hyrwyddo gwybodaeth am Ddysgu Oedolion yn y Gymuned yn y Fro.<br><br>Roedd gwybodaeth adborth hefyd yn llywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer rhaglenni 2023/24. |
| **Sesiynau Briffio Amser Brecwast - Canolfan Palmerston, Canolfan Ddysgu'r Fro ac yng Nghanolfan Byd Gwaith Penarth** | Amlygwyd yr angen i gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am y ddarpariaeth a'r cyfleoedd dysgu lleol i alluogi cymorth a chyfeirio effeithiol. | Gwellwyd cyfathrebu a pherthnasoedd â staff a rheolwyr y Ganolfan Gwaith, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn gyson am y ddarpariaeth a'r cyfleoedd lleol.<br><br>Rydym bellach yn cynnig Cyrsiau Cyflogadwyedd yng Nghanolfannau Gwaith y Barri a Phenarth gan gynnwys Rhaglen Employable Me a Sgiliau Digidol yn ogystal â gweithio gyda Chanolfannau Gwaith i ddatblygu'r agenda 50+. |
| **Y Gronfa Ffyniant Gyffredin -** Ymgysylltu ar oddeutu £14m o arian a ddyrannwyd i Fro Morgannwg dros y cyfnod 2022-25. | Cynhaliwyd cyfres o 10 Hacathon Cymunedol a Busnes (gydag 20 o gyfranogwyr cofrestredig y sesiwn) i ymgysylltu â chymunedau lleol i ddatblygu syniadau am brosiectau a fydd yn gwneud y gorau o'r arian yn unol ag Amcanion Lles y Cyngor. | Cyflwynwyd Cynllun Buddsoddi ym mis Awst 2022 fel rhan o Ranbarth De-ddwyrain Cymru i ddatgloi ein dyraniad cyllid o ryw £14m<br><br>Mae'r Cynllun yn adlewyrchu materion penodol y Fro. Mae ymgynghoriad parhaus yn parhau gyda phartneriaid mewnol ac allanol i helpu i ganolbwyntio cyllid ar y meysydd hynny lle mae'r angen mwyaf.<br><br>Mae bwrdd dethol a chyflawni wedi'i sefydlu i wneud penderfyniadau ar y prosiectau sy'n cael eu hariannu ac i fonitro'r gwaith o gyflawni ac mae'r gronfa bellach ar agor ar gyfer ceisiadau allanol. |
| **Paratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro - Cynllun Ymgysylltu** | Cafwyd adborth cadarnhaol i raddau helaeth am gynlluniau ar gyfer datblygu Marina a Chanolfan Chwaraeon Dŵr newydd ar lannau'r Barri.<br><br>Roedd ymgysylltu hefyd yn ceisio barn y gymuned ar gynlluniau tymor hwy ar gyfer y Barri wrth i'r Cynllun Creu Lleoedd ddatblygu. | Roedd cais rownd 2 yn aflwyddiannus ac mae cais rownd 3 bellach yn cael ei baratoi wedi'i lywio gan farn y gymuned. |

## YR HYN A DDYWEDODD EIN RHEOLEIDDWYR

| Adolygiad | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| Dim adolygiadau rheoleiddio lleol yn 2022/23 | | |

## Ein heriau allweddol

- Mae Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru yn parhau i ddelio â nifer mawr o achosion sy'n deillio o'r anawsterau ariannol a brofwyd gan rai o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig, gyda gwaith yn parhau i ymchwilio i'r benthycwyr anghyfreithlon ac i gefnogi dioddefwyr.
- Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Ymgysylltu am gymorth allanol i ddiwallu anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu'n aruthrol gan roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau a chyllidebau.
- Mae lefelau presenoldeb ysgolion yn parhau i fod yn bryder cyffredinol. Mae tuedd tair blynedd gostyngol o ran presenoldeb ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae angen gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i wella presenoldeb mewn ysgolion, yn enwedig ar lefel uwchradd lle mae presenoldeb ar ôl y pandemig 5.5% yn is na'r targed, sef 91%.
- Rydym yn gweld cynnydd yn nifer y gwaharddiadau ysgol. Yn ystod 2018-19 (cyn Covid), collwyd cyfanswm o 1,102 o ddiwrnodau gwaith oherwydd gwaharddiadau, sydd wedi cynyddu i 2,241 o ddiwrnodau yn 2022-23. Er bod cyfradd y gwaharddiadau yn isel o'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill, mae hyn yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder.





## Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol

- Symud ymlaen â chynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer y 4 prif dref ym Mro Morgannwg i gefnogi twf economaidd a chynaliadwy ein cymunedau.
- Symud ymlaen â chyfnewidfa drafnidiaeth Cogan yn unol â'n hymrwymiad i weithio tuag at ddatblygu system drafnidiaeth gyhoeddus integredig, effeithlon, ddiogel, hygyrch a chynaliadwy.
- Sicrhau digon o ddarpariaeth i fynd i'r afael â galw a chymhlethdod cynyddol lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc ar lefelau cynradd ac uwchradd trwy ystyried modelau darparu gwasanaethau newydd i gydbwyso'r twf yn y galw am wasanaethau.
- Adolygu a gwella arfer cynhwysol mewn ysgolion i leihau gwaharddiadau.
- Rydym wedi parhau i feithrin perthynas â darparwyr hyfforddiant newydd a phresennol i gynyddu sgiliau gweithlu/cyflogaeth y Cyngor; fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i annog rheolwyr i ystyried y prentisiaethau hyn fel opsiynau recriwtio addas.
- Adeiladu ar berthnasoedd da â sefydliadau addysg lleol (megis Prifysgol Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro) yn ogystal â darparwyr Prentisiaethau annibynnol a chyflogwyr lleol i ehangu cynnig Cynllun Prentisiaethau'r Cyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddenu pobl ifanc 16-24 oed i lywodraeth leol fel dewis gyrfa.

# PERFFORMIAD EIN CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL YN ÔL AMCANION LLES

## AMCAN LLES 3: CYNORTHWYO POBL GARTREF AC YN EU CYMUNED

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i gynyddu lles corfforol a meddwl pobl cymaint â phosibl i sicrhau eu bod yn ddiogel gartref ac yn y gymuned ac y gallant wneud dewisiadau sy'n cefnogi eu lles cyffredinol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl yn cael y cyngor, y gofal a'r cymorth angenrheidiol yn ôl yr angen.

### STATWS PERFFORMIAD

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag **Amcan Lles 3** | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | Statws CMG Cyffredinol ar gyfer **Amcan Lles 3** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau |
| 100 | 22 | 90 (90%) | 14 (64%) | 0 | 4 (18%) | 10 (10%) | 4 (18%) | GWYRDD |

Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 3 yw **DA**. Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod.

### YR HYN A DDYWEDON NI Y BYDDEN NI'N EI WNEUD

| Rhif | Ymrwymiad | Statws Perfformiad |
|---|---|---|
| 1 | Gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i barhau i ymateb i effeithiau pandemig COVID-19 ac i adfer ohonynt. | G |
| 2 | Datblygu a hyrwyddo'r ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau hamdden ac addysgol sydd ar gael ar draws ein lleoliadau a'n mannau awyr agored. | M |
| 3 | Gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer hamdden, chwarae a datblygu chwaraeon | G |
| 4 | Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac i weithredu'r Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda. | G |
| 5 | Datblygu Strategaeth Buddsoddi Cymunedol newydd i wella ansawdd bywyd tenantiaid ar ystadau tai Cyngor. | G |
| 6 | Gwella seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus trwy roi cymorth i wasanaethau bysus sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol ac uwchraddio'r seilwaith trafnidiaeth. | G |
| 7 | Gweithredu ffyrdd newydd o weithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cefnogi ein preswylwyr yn effeithiol yng nghyd-destun yr heriau a grëwyd gan y pandemig ac ar gyfer eu hanghenion yn y dyfodol. | G |
| 8 | Gweithio gydag arweinwyr/partneriaid cymunedol yn Llanilltud Fawr fel cynllun peilot i adolygu a thrawsnewid yr ystod o gymorth sydd ar gael i bobl hŷn o fewn eu cymuned. | G |
| 9 | Ymateb i heriau'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol ar gyfer pobl â sgiliau a phrofiad priodol. | G |
| 10 | Cryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a sefydlu Cynghrair y Fro i ddatblygu a gweithredu mwy o fodelau gofal integredig. | G |
| 11 | Ailffocysu'r ffordd y caiff gofal cartref ei ddarparu i wella llais a rheolaeth yr unigolyn dros ei drefniadau gofal trwy ehangu 'Eich Dewis'. | G |
| 12 | Darparu amrywiaeth o wasanaethau, cymorth a gwybodaeth i gefnogi iechyd meddwl a lles ar gyfer pob oedran. | G |

**13** Cydweithio â phlant a'u teuluoedd trwy fodel sy'n seiliedig ar gryfderau i wella canlyniadau a lles.

Statws Perfformiad: G

**14** Cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag cael eu hesgeuluso a'u cam-drin a rhag camfanteisio.

Statws Perfformiad: G

**15** Cyflawni'r camau gweithredu a geir yng Nghynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022/23 i wella iechyd a lles, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, diogelu'r amgylchedd, cefnogi'r economi leol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Statws Perfformiad: G

**16** Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Bro Ddiogelach a datblygu Strategaeth Bro Ddiogelach newydd ar gyfer 2023-2026.

Statws Perfformiad: G

**17** Gweithredu'r Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Statws Perfformiad: G

**18** Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Cynllun Adfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i wella canlyniadau pobl ifanc

Statws Perfformiad: G

**19** Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i adeiladu tai cyngor a chaffael, a bwrw ymlaen gyda'r gwaith o adeiladu mwy na 100 o Gartrefi Cyngor newydd ar draws y Fro.

Statws Perfformiad: C

**20** Gweithredu Strategaeth Dai Leol pum mlynedd i fynd i'r afael ag angen tai, lleihau digartrefedd a chynyddu nifer y tai hygyrch a fforddiadwy o ansawdd da sydd ar gael.

Statws Perfformiad: G

**21** Gweithio gyda phartneriaid i leihau digartrefedd a gweithredu Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai.

Statws Perfformiad: G

## EIN CYFLAWNIADAU

**1.**

- Buom yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ac asiantaethau partner i **gefnogi cartrefi gofal a lleoliadau risg uchel** eraill mewn perthynas **â heintiau Covid-19.**
- Cymerwyd rhan gyda **Grŵp Rhybudd a Hysbysu rhanbarthol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y De** i baratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf, ymgyrchoedd atgyfnerthu Covid-19 a threfniadau ar gyfer llifogydd/tywydd garw.
- Datblygwyd **Strategaeth Buddsoddi nad yw'n ymwneud â Thrysorlys** gyda £12M cychwynnol wedi'i glustnodi ar gyfer buddsoddiadau.
- Buom yn gweithio gyda gweithredwyr Trafnidiaeth Teithwyr a'r Ddinas-ranbarth **i gynyddu darpariaeth gwasanaethau bysus** ar ôl y pandemig gan gynnwys digwyddiadau defnyddwyr i hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio arni.
- **Cytunwyd ar estyniad contract 10 mlynedd â Legacy Leisure** i reoli cyfleusterau hamdden gan roi sicrwydd o ran darpariaeth hamdden ar gyfer y dyfodol.

**2.**

- Llwyddwyd i sicrhau **arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi 4 prif dref y Fro** er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr.
- Cynhaliwyd mwy na **30 o ddigwyddiadau** ar y cyd â sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan gefnogi economi'r Fro a chodi proffil y Fro fel cyrchfan digwyddiadau.
- **Mae cyfleusterau Gofod Gwneud** yn Llyfrgell Penarth a'r Barri ar waith gyda nifer mawr o ddigwyddiadau a chyrsiau gan breswylwyr, grwpiau cymunedol a busnesau lleol.

**3.**

- Cyflwynwyd ciwbiau chwarae mewn **7 lleoliad** ar draws y Fro i gynyddu mynediad i chwarae cymunedol am ddim.
- Cynhaliwyd **116** o sesiynau chwarae cymunedol trwy gydol y flwyddyn, gyda **2,677** o gyfranogwyr.
- Mae **21** o ysgolion y Fro yn cymryd rhan ym menter Ysgolion sy'n Dda i Chwarae i gynyddu cyfleoedd chwarae.
- Cymerodd dros **100 o blant o ysgolion â nifer uchaf o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim** ran yng Ngŵyl Chwaraeon Gareth Bale.
- Roedd **130 o bartneriaid** yn ymwneud â chynnal **147 o weithgareddau** mewn **946 o sesiynau** mewn **23 o ardaloedd** y Fro. Dros **19,500 o achosion o gymryd rhan gyda boddhad o 99%** gyda'r gweithgareddau. Gwnaeth **433** o blant ag anableddau a **477** o blant ag anghenion dysgu ychwanegol gymryd rhan.
- Mae iechyd **90%** o gleientiaid wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff, sy'n uwch na 30.1% yn 2021/22.
- Mae'r **prosiect Crewyr Chwarae** wedi gweld **265 o blant** o 16 ysgol gynradd yn derbyn hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau i roi cyfleoedd gweithgarwch corfforol i'w cyfoedion.

**4.**

- Mae **90% o ddisgyblion ysgolion babanod** wedi cymryd Pryd Ysgol am Ddim i Ysgolion Cynradd ers ei lansio ym mis Medi 2022, y nifer uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru, **gan arbed £475 y plentyn i rieni.**
- Mae **cyllid o £100,000** wedi cael ei ddyfarnu ar draws y Fro i nifer o wasanaethau cymorth ansicrwydd bwyd.
- Mae Bwyd y Fro wedi ennill **'Gwobr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Efydd'** ac wedi arwain ceisiadau yn llwyddiannus gyda phartneriaid am nifer o grantiau a fydd yn cefnogi gweithredu bwyd cynaliadwy yn y Fro.
- Ehangwyd **prosiect y Tocyn Aur** i Ddwyrain y Fro, Gorllewin y Fro a'r Barri gan gynorthwyo pobl hŷn i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel pêl-rwyd dan gerdded, pêl-droed dan gerdded a chadw heini mewn cadair.
- Treialwyd y prosiect **Meysydd Chwarae Llesol** gyda 7 ysgol yn derbyn marciau maes chwarae gan arwain at **gynnydd o 58%** mewn camau ymhlith grŵp sampl a arsylwyd.
- Llwyddodd **10** sefydliad i gwblhau **Siarter Teithio Llesol Caerdydd a'r Fro.**
- Darparwyd prosiectau maeth, coginio ymarferol a gweithgarwch corfforol wedi'u teilwra trwy **'Brosiect Hapi Cymru'** gan gynnwys sesiynau a gynhaliwyd mewn partneriaeth ag Ysgol Uwchradd Pencoedtre, Ysgol Gynradd Parc Jenner, Age Connects yng Nghanolfan Gymunedol CF61 ac Atal y Fro.
- Llwyddodd **10** sefydliad i gwblhau **Siarter Teithio Llesol Caerdydd a'r Fro.**
- Dyrannwyd **£11,671** o gyllid i sefydliadau cymunedol i ddarparu lluniaeth cynnes, a chyfraniadau at filiau cyfleustodau ychwanegol.
- Ariannwyd **26 o fannau cynnes** ar draws y Fro i gefnogi preswylwyr y Fro.
- **Lansiwyd tudalennau gwe Costau Byw** sy'n cyfeirio dinasyddion at wybodaeth am gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i breswylwyr trwy wasanaethau'r Cyngor a sefydliadau ehangach.

**5.**

- Cofrestrwyd 75 o gyfrifon gyda bron **20 o bartneriaid** yn cynnig gwobrau fel rhan o'r cynllun **Gwerth yn y Fro** sydd wedi bod o fudd i wirfoddolwyr a busnesau lleol. Mae 100% o wirfoddolwyr yn fodlon ar eu lleoliadau, mae **100%** yn teimlo ei fod wedi **gwella eu rhagolygon cyflogaeth,** mae **100% yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymunedau** gyda **100% yn dweud y byddent yn argymell Gwerth yn y Fro** i eraill, ac mae **99% wedi gweld gwelliant yn eu lles.**
- Sefydlwyd **Grŵp Asesu Ansawdd Gwasanaethau Tenantiaid** sy'n gweithredu fel Cyfeillion Beirniadol ac yn cynghori Cartrefi'r Fro ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad ydyw ac sy'n gwneud argymhellion o ran y newidiadau sydd eu hangen. Yn ogystal â siopa dirgel, mae'r grŵp wedi adolygu Llawlyfr Deiliaid Contract Cartrefi'r Fro a phecynnau croeso Cartrefi'r Fro.
- Cafodd pobl eu helpu i ddatblygu sgiliau garddio, lleihau diweithdra ac ymddieithrio a chynyddu gweithgarwch corfforol a lles trwy'r prosiect cymunedol **'Gardd Pawb'** a drawsnewidiodd safle adfeiliedig i'w ddefnyddio.
- Cefnogwyd dychweliad y **Clwb Beicio** sydd wedi rhoi'r cyfle i blant lleol ddysgu a datblygu sgiliau beicio hyderus. Cymerodd tua **600** ran bob dydd Mawrth, dros y flwyddyn.

**6.**

- Cafodd **10 safle bws** eu huwchraddio a gosodwyd **31 o arddangosiadau gwybodaeth safle bws electronig.**
- Dyrannwyd **£400k** o gontractau gwasanaethau bysus â chymorth ynghyd â Grant Cymorth Gwasanaethau Bysus Llywodraeth Cymru o £380,490.

**7.**

- Lansiwyd **Siarter Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a'r Fro** a sefydlwyd **gwasanaeth newydd** i gefnogi gofalwyr di-dâl.
- Elwodd **1,200** o ofalwyr o'r **Gronfa Gofalwyr Di-dâl**
- Sefydlwyd **Gwasanaeth Cwympiadau 24/7 integredig** i ddarparu ymateb cyflym i bobl sydd wedi cwympo a mynediad i ymyriadau arbenigol. Ymatebwyd i **dros 500** o gwympiadau mewn un mis, gan arbed tua £547,026.
- **300** o gwsmeriaid Teleofal newydd, sy'n gynnydd o 20% ers 2021/22.
- Mae **100% o bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl** yn dweud bod y cymorth wedi gwneud iddynt deimlo'n **fwy diogel ac yn fwy annibynnol** yn eu cartrefi eu hunain, sy'n uwch na 96.5% yn 2021/22.
- **297 o ddiwrnodau ar gyfartaledd** i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sy'n uwch na 334 o ddiwrnodau yn 2021/22.
- Mae **925 o ddinasyddion** wedi derbyn gofal yn eu cartrefi gyda chyfartaledd o **15.66 o oriau gofal yr wythnos** yn cael eu darparu.
- Cynhaliwyd **mentrau cymunedol lleol ar gyfer Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth** gan gynnwys nosweithiau sinema, sesiynau 'Cadw i Wenu' gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sesiynau ymwybyddiaeth o berthnasoedd ac iechyd rhywiol.
- Mae dau **dŷ clyfar** yn weithredol, gyda thrydydd un yn cael ei adeiladu a **6 arall** yn yr arfaeth ar gyfer 2024/25, gan gefnogi byw'n annibynnol a gwella lles dinasyddion ymhellach.

**8.**

- Gweithiwyd gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg ac Age Connects i ehangu gwasanaethau yn Nhŷ Illtud, Llanilltud Fawr i helpu pobl i gysylltu'n rhwydd â'u cymuned, gwasanaethau cymorth a gweithgareddau cymdeithasol.
- Mae bron **24 o sefydliadau** yn darparu gwasanaeth i'r gymuned ar unrhyw un adeg, gan gynnwys cymorth i oedolion ag anawsterau dysgu, Cyfeillion Dementia Llanilltud, dosbarthiadau dawns ac ymarfer corff Age Connects i'r henoed, gweithgareddau sy'n deall dementia dan arweiniad Motion Control, caffi Lles, a digwyddiadau i bobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl.

**9.**

- Recriwtiwyd **14 o Swyddogion Gofal Cymdeithasol newydd** i gynyddu gwydnwch gwasanaethau.
- Hyrwyddwyd y fenter **'Grow your own social workers'** gyda **9** aelod o staff yn astudio ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru).
- **Noddwyd 6 aelod o staff** i gwblhau Lefel 2 y radd Gwaith Cymdeithasol.
- Darparwyd **20 o leoliadau ychwanegol i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol** ar gyfer ein prifysgolion partner.
- Cynyddwyd ein **Rhaglen Hyfforddi Llwybr Cyflym i Ofal** i unwaith y mis i helpu i ateb y galw am weithwyr gofal cymdeithasol. Cofrestrodd 41 o bobl ar 5 rhaglen yn 2022/23 gyda **39 yn ei chwblhau.**

## EIN CYFLAWNIADAU

**10.**

- Fel rhan o **Gynghrair y Fro,** rydym wedi cytuno ar strwythur llywodraethu, wedi llwyddo i recriwtio Rheolwr Ardal y Fro ac yn symud ymlaen gyda 3 blaenoriaeth – y Gwasanaeth Materion Lles, Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro a Chontractau Trydydd Sector.
- Cafodd gwasanaethau iechyd a lles yn y Fro trwy Dewis Cymru **253,194 o ymweliadau,** sy'n gynnydd o **26.6%** ers 2021/22.
- Datblygwyd protocolau gweithio i sicrhau bod ymatebion iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn cael eu darparu'n rhwydd i bobl sy'n defnyddio'r **Gwasanaeth Materion Lles.**

**11.**

- Mae **11 o ddarparwyr** yn cynnig gofal o dan y cynllun 'Eich Dewis'.
- Mae **235 o breswylwyr yn derbyn eu gofal** a'u cymorth a ddarperir fel **pecyn YC** (tua 3,700 o oriau'r wythnos).
- **Sefydlwyd grwpiau Myfyriol Seiliedig ar Gryfderau** i gefnogi integreiddio gwasanaethau ataliol, osgoi gorfod mynd i'r ysbyty a chymunedau cryf.

**12.**

- Cynyddwyd ein cynnig Lles mewn llyfrgelloedd gyda **934 o ddigwyddiadau** yn denu **15,459 o gyfranogwyr.**
- Ariannwyd **bron 1,900 o baneidiau o de a choffi am ddim** gan Warm Spaces.
- Cydweithiwyd â **Choleg Cerdd a Drama Cymru** ar raglen newydd i bob oedran ym Mhafiliwn Penarth ac mae'r nifer sy wedi cymryd rhan wedi bod yn wych. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni am ei effaith ar les plant.

**13.**

- **Sefydlwyd grŵp 'Datblygu Gwasanaethau Gyda'n Gilydd'** i gynnwys y teuluoedd rydym yn eu cefnogi wrth ddatblygu gwasanaethau, gan fodelu gwerthoedd 'Adeiladu ar Gryfderau'.
- Cafodd **74%** o asesiadau i blant eu cwblhau o fewn amserlenni, yn uwch na 54% y llynedd.
- Bu'n rhaid i **8.3%** o blant mewn gofal symud deirgwaith neu fwy, gan wella ar berfformiad y llynedd, sef 10%.
- Cymeradwywyd **19 o ofalwyr sy'n berthnasau** sy'n darparu dewisiadau amgen i deuluoedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan leihau galw ychwanegol am ddarpariaeth prif ffrwd.

**14.**

- Cydymffurfiodd **100%** o'r holl benodiadau corfforaethol â'r polisi recriwtio mwy diogel.
- Cydweithiwyd ar ddatblygu'r fersiwn ddrafft newydd o **Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a'r Fro.**

**15.**

- Enwebwyd podlediad y GRhR **'Ask the Regulator'** yn y **Gwobrau Radio Cymunedol Cenedlaethol.**
- Atafaelwyd **54,560 o sigaréts anghyfreithlon** yng Nghaerdydd â gwerth manwerthu o £31,266 ac 8.75 kg o dybaco rholio â llaw â gwerth manwerthu o £4,748.
- Cynhaliwyd **2 ymgyrch dan oed** yn cael eu cynnal mewn perthynas â gwerthu e-sigaréts tafladwy; rhoddwyd rhybuddion a chyngor ysgrifenedig i **35 o safleoedd**.
- Cynhaliwyd ymgyrch **ymwybyddiaeth o sgamiau** ar draws y Fro.
- Darparodd **Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru** hyfforddiant i 46 o sefydliadau o bob rhan o Gymru gyda bron **900 o gyfranogwyr,** sy'n cynrychioli cynnydd o 36% ers 2021/22 a **lansiwyd gwefan newydd** ganddynt.
- Cynyddwyd portffolio'r Awdurdod Sylfaenol o **28 i 34 o bartneriaethau,** gan alluogi adennill costau llawn ar gyfer gwaith a wnaed.
- Archwiliwyd **100%** (65) o safleoedd bwyd risg uchel.
- Cywirwyd **90.1%** (20) o achosion sylweddol o dorri rheolau gan ymyrraeth Safonau Masnach.
- Ymatebwyd i **93%** o gwynion sŵn ac ansawdd aer o fewn 3 diwrnod gwaith

**16.**

- Anfonwyd **488 o negeseuon** gan y Tîm Diogelwch Cymunedol trwy wahanol lwyfannau ar-lein, gan gynnwys cyngor diogelwch ar gyfer Iechyd Meddwl, Gwybod ble mae'ch Plant yn ystod Gwyliau Hanner Tymor, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cam-drin Domestig a Thipio Anghyfreithlon.
- Gosodwyd **84 o gamerâu a 10 o gamerâu y gellir eu hadleoli** ledled y Fro fel rhan o waith uwchraddio teledu cylch cyfyng i wella diogelwch cymunedol.

## EIN CYFLAWNIADAU

**17.**

- Adroddodd **100% o ddioddefwyr cam-drin domestig** eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i welliannau diogelwch i gartrefi dioddefwyr a ddarperir gan Bartneriaeth Bro Ddiogelach.
- Mae **18 ysgol** wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gyda **738 o staff** wedi cwblhau'r hyfforddiant.
- Cafodd **963 o oedolion a 107 o blant a phobl ifanc** a oedd yn dioddef oherwydd cam-drin domestig eu cefnogi gan Atal y Fro, trwy gymorth proffesiynol arbenigol (386) a oedd yn ymwneud â thenantiaeth (165), llety lloches (48), cwnsela a gwaith grŵp therapiwtig (143) gyda **boddhad cwsmeriaid o 92%**.
- Mae **2,317** o aelodau staff y Cyngor wedi'u hyfforddi ar Lefel 1 a **948** ar Lefel 2 mewn Diogelu/Cam-drin Domestig er mwyn gwella eu gallu i adnabod a chyfeirio unigolion sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr cam-drin domestig.

**18.**

- Cyflawnwyd **sgôr arolygu 'da'** gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- **Cynyddwyd y cymorth dargyfeiriol** ar gyfer pobl ifanc a nodwyd gan yr Heddlu trwy recriwtio ymarferydd ychwanegol.
- Darparwyd **94%** o'r holl gymorth trwy waith ataliol, gyda **chynnydd o 32% o blant sy'n derbyn y cymorth hwn** yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol.
- **Gostyngiad sylweddol o 36% yn nifer yr Ymgeiswyr Tro Cyntaf i'r Cyfiawnder Ieuenctid Cyfundrefn** gyda **gostyngiad o 37% mewn achosion o aildroseddu.**

**19.**

- Mae **138 o Gartrefi Cyngor newydd** mewn 5 safle ar draws Bro Morgannwg yn cael eu hadeiladu gan ddisgwyl eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2024.

**20.**

- Cymeradwywyd **Strategaeth Dai Leol 5 mlynedd newydd.**
- **Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 72% o unedau tai fforddiadwy ychwanegol** yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd ganiatâd cynllunio, sy'n uwch na 58.5% y llynedd.

**21.**

- Dynodwyd **72% (291)** o'r anheddau a gymeradwywyd trwy'r system gynllunio yn ystod y flwyddyn yn dai fforddiadwy.
- Cymeradwywyd **56 o anheddau fforddiadwy eraill** ar hen Seidins Rheilffordd y Barri gan y Pwyllgor Cynllunio.
- Bu canran yr holl aelwydydd lle **llwyddodd camau atal cadarnhaol i atal/lliniaru digartrefedd** yn codi i **47% yn 2022/23** o 40.9% yn 2021/22.

# GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU: YR HYN A DDYWEDODD EIN PRESWYLWYR A'N DEFNYDDWYR GWASANAETH

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Arolwg Boddhad Trafnidiaeth Gyhoeddus a Diogelwch ar y Ffyrdd** | Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos sut mae pandemig Covid ac ymadawiad y DU o'r UE wedi cael effaith negyddol ar y diwydiant a darpariaeth gwasanaethau. Hefyd, bu effaith cyllidebau llai ar wasanaethau trafnidiaeth, cynnal y priffyrdd a glanhau strydoedd.<br><br>Er enghraifft, diffyg gyrwyr Cerbydau Cludo Teithwyr cymwys profiadol oherwydd salwch Covid neu drosglwyddo eu sgiliau i'r diwydiant Cerbydau Nwyddau Trwm mwy proffidiol, a llai o yrwyr cymwys o'r UE.<br><br>Nodwyd dymuniadau defnyddwyr i uwchraddio safleoedd ac arosfannau bysus ledled y Fro a fydd yn helpu i dargedu arian sydd ar gael at y diben hwn.<br><br>55 o bobl a ymatebodd i'r arolwg. Y sgoriau boddhad o 5 ynghylch yr agweddau canlynol oedd:<br><br>Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus = 2.3<br>Gwasanaethau bysus = 2.11<br>Gwasanaethau rheilffyrdd = 2.48<br>Gwasanaethau cludiant cymunedol = 2.18<br>Tacsis = 2.72<br>Gwybodaeth Electronig ar Safleoedd Bysus = 2.17<br>Prisiau bysus = 2.52<br>Safleoedd ac arosfannau bysus wedi'u huwchraddio ers 2020 = 2.77<br>Glanweithdra safleoedd ac arosfannau bysus = 2.44<br>Cynnal a chadw safleoedd ac arosfannau bysus = 2.44<br>Mesurau diogelwch ffyrdd = 2.28<br>Cyflwr palmentydd = 1.8<br>Cyflwr ffyrdd = 1.59 | Mae dymuniadau defnyddwyr i safleoedd ac arosfannau bysus gael eu huwchraddio wedi'u casglu ynghyd i nodi'r ardaloedd a'r safleoedd penodol a grybwyllwyd, a fydd yn galluogi penderfyniadau gwybodus, pan fydd cyllid ar gyfer hyn ar gael.<br><br>Mae dull arloesol a dyfeisgar yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddatblygu gwasanaethau er gwaethaf cyllidebau sy'n lleihau a bydd y rhain yn parhau i gael eu llywio gan ein canfyddiadau ymgysylltu. |
| **Ymgysylltu Teuluoedd yn Gyntaf** | Roedd mwyafrif y defnyddwyr (95%) yn hapus gyda'r gwasanaethau yr oeddent wedi'u defnyddio ac yn dweud bod y rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau.<br><br>Amlygodd digwyddiad rhwydweithio lles gyda 44 o bartneriaid a thros 256 o weithwyr proffesiynol werth rhwydweithio rhwng ysgolion, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill i gael gwybodaeth y mae mawr ei hangen am wasanaethau gwahanol sydd ar gael i Blant a Phobl Ifanc ym Mro Morgannwg a sut i gael mynediad i'r rhain.<br><br>Wrth adolygu data Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, nodwyd lefelau isel o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf. | Cryfhawyd sut mae'r bartneriaeth ar y cyd yn defnyddio mewnwelediadau data gan riant-gyfranogwyr, partneriaid cymunedol, plant a phobl ifanc a'n prosiectau cymorth amrywiol i wella dyluniad gwasanaethau a thargedu darpariaeth yn well. Mae cynnwys ystod eang o bartneriaid ac asiantaethau lleol yn rheolaidd wrth adolygu sut rydym yn gweithio ochr yn ochr â mewnwelediadau data gwasanaethau wedi cyfrannu at ddull darparu mwy cyson a llai o ddyblygu.<br><br>Mae'r tudalennau gwe Teuluoedd yn Gyntaf wedi'u hadolygu a'u diweddaru. Mae pob prosiect yn archwilio sut y gall denu mwy o bobl o gefndiroedd ethnig mwy amrywiol.<br><br>Mae data atgyfeirio gan Linell Gynghori Teuluoedd yn Gyntaf wedi galluogi'r Bwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf i dargedu datblygiad gwasanaethau. Mae hyn wedi arwain at greu Gwasanaeth Mentora Plant. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Datblygu gwasanaeth mwy cynaliadwy a chynhwysol i gyflawni amcanion Strategaeth Gelfyddydau'r Cyngor a'r defnydd o Oriel Gelf Ganolog yn y dyfodol** | Mae'r mwyafrif (92%) o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi cadw'r Oriel Gelf Ganolog fel lleoliad celfyddydau yn y Barri ac i gynhyrchu ffynonellau refeniw newydd i gefnogi'r ddarpariaeth a'i galluogi i ddatblygu.<br><br>Ymatebodd dros 300 o bobl i'r ymgynghoriad. | Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau a datblygu sgiliau a chreadigrwydd trwy'r dulliau canlynol: ardaloedd Gofod Gwneud yn llyfrgelloedd Penarth a'r Barri; mwy o arddangosfeydd digidol yn dilyn llwyddiant yn ystod y pandemig; cyflwynwyd cyfrifiad celfyddydau blynyddol i nodi anghenion sefydliadau celfyddydau, sefydlu gofynion cymorth ac ariannu cyffredin a chefnogi datblygiad Strategaeth Gelfyddydau'r Cyngor; cyflwynwyd rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau celfyddydau masnachol a chymunedol ym Mhafiliwn Penarth gan gynnwys sinema. |
| **Pafiliwn Pier Penarth** | Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yr hoffent weld y Pafiliwn yn cynnwys gofod sinema gyda chaffi, bar neu le bwyd stryd cysylltiedig y gellid ei ddefnyddio trwy gydol y dydd a chyda'r nos, rhywbeth tebyg i Ganolfan Gelfyddydau Chapter Caerdydd.<br><br>Hoffai cyfran fawr o'r ymatebwyr weld y gofod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cerddoriaeth fyw, theatr a pherfformiadau comedi.<br><br>Byddai llawer o'r ymatebwyr yn dal yn awyddus i weld y gofod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthiadau a sesiynau grŵp ar gyfer pobl hŷn a phobl ifanc.<br><br>Yn olaf, roedd llai o gefnogaeth dros ddefnyddio'r Pafiliwn ar gyfer busnes a digwyddiadau, gyda llawer yn myfyrio ar bwysigrwydd ei fod yn gyfleuster cymunedol agored.<br><br>Ymatebodd dros 1,000 o bobl i'r ymgynghoriad | Mae Pafiliwn Pier Penarth bellach yn lleoliad digwyddiadau ffyniannus sy'n darparu ar gyfer gweithgareddau cymunedol a masnachol fel ei gilydd.<br><br>Rhoddir cyfran o drosiant o Gaffi Pier (Big Fresh Company) yn ôl i'r Pafiliwn i gefnogi ei weithrediad ac i sicrhau gwydnwch i'r gwasanaeth yn erbyn pwysau cost posibl yn y dyfodol. Mae elw'r cwmni yn cael ei ailfuddsoddi yn ysgolion Bro Morgannwg a grwpiau cymunedol lleol.<br><br>Mae gweithrediad Pafiliwn Pier Penarth wedi cyfrannu'n sylweddol at Strategaeth Celfyddydau a Diwylliant y Cyngor, gan hwyluso nifer o ddigwyddiadau cymunedol, lles, celfyddydau a diwylliant ers i'r Cyngor ei roi yn ôl ar waith.<br><br>Cafodd yr ardal gyhoeddus ei wella trwy adnewyddu'r seilwaith ar hyd Esplanâd Penarth, yn y Pafiliwn ac ar hyd glannau Penarth. |
| **Rhaglenni 'Haf o Hwyl' a 'Gaeaf Llawn Lles' i gefnogi lles plant a phobl ifanc** | Nododd ysgolion a phartneriaid amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn ymdrin â phrif amcanion y rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, h.y. cefnogi hwyl a'r cyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu hunain trwy chwarae; mentrau rhyngweithiol, creadigol a chwarae yn y gymuned ar gyfer pob oedran; a chyfle i chwarae gyda ffrindiau a chyfoedion.<br><br>Cwblhaodd 88 o bobl yr arolwg Haf o Hwyl ar-lein a grëwyd ar gyfer cyfranogwyr. Ar ben hynny, cwblhaodd pob sefydliad cyflawni adroddiad diwedd prosiect a oedd yn cynnwys adborth gan staff y sefydliad, cyfranogwyr, rhieni ac ati. | Roedd canfyddiadau ymgysylltu yn llywio rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau a digwyddiadau hamdden, chwaraeon, dysgu a chelfyddydau a oedd yn rhad ac am ddim ac a gynhaliwyd trwy gydol yr haf a'r gaeaf i gefnogi lles plant a phobl ifanc.<br><br>Cynyddwyd cyfleoedd (dros 30 o ddigwyddiadau) i deuluoedd gymryd rhan am ddim mewn gweithgareddau lles a gynhaliwyd ar y cyd â'r Urdd, Legacy Leisure, YMCA a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Bydd cefnogi iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol trwy'r cyfleoedd hyn yn helpu i wella sgiliau cymdeithasol, ailadeiladu hyder ac ailgydio yn nysgu ac addysg. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN)** | Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys aelodau etholedig, cynghorau tref a chymuned a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch y Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion ar gyfer y Cynllun a'r Opsiynau Twf a Gofodol. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Cwmpasu ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae materion allweddol a nodwyd trwy gydol y broses ymgysylltu wedi llywio proses y cynllun. | Mae'r broses ymgysylltu wedi ymdrin â'r prif faterion ac yn parhau i wneud hynny yn ôl yr angen, gyda newidiadau'n cael eu hymgorffori ym mhroses y cynllun. |
| **Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro** (GACF) | Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (150) yn dweud bod gwybodaeth a chyngor defnyddiol ar gael ar ddechrau'r gwasanaeth a phan oedd angen hyn; bod gweithwyr gofal a'r gwasanaeth yn ddibynadwy ac yn barchus iawn iddynt; bod y gwasanaeth a'r cymorth a ddarparwyd ganddo wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i les; eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn gorfforol ac yn emosiynol o ganlyniad i'r gwasanaeth; eu bod yn rhan o gynllunio'r gwasanaeth ac yn gallu gwneud newidiadau os oes angen; eu bod weithiau'n profi oedi neu newidiadau i amserau galwadau, ond eu bod yn cael eu hysbysu o hyn mewn da bryd, a hefyd bod oedi'n cael ei egluro'n llawn. | Defnyddiwyd canfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu i lywio newidiadau a wnaed i brosesau a gweithdrefnau, megis darparu gwybodaeth fwy amrywiol a dylunio taflenni; gwella cydweithio â Thimau Iechyd fel y Nyrsys Ardal a Gofal Sylfaenol (meddygon teulu), yn enwedig mewn perthynas â chymorth meddyginiaeth ac archwilio ac adolygu rheolaidd a gynhelir ar y cyd â'r Swyddog Ansawdd a'r Rheolwr Cydymffurfio. |
| **'Cysylltu Bywydau' y Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion** | Mewn perthynas â Chysylltu Bywydau, roedd unigolion yn teimlo'n hapus gyda'r wybodaeth roeddent yn ei chael a'i bod yn well ganddynt siarad â phobl am y gwasanaeth newydd; yn teimlo eu bod yn rhan o ysgrifennu eu cynllun "amdanaf i" a bod hwnnw'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw; yn teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n byw a'u bod yn mwynhau'r gweithgareddau maen nhw'n eu gwneud sy'n eu helpu i deimlo'n rhan o'r teulu maen nhw'n byw gyda nhw.<br><br>Mae lletywyr yn fodlon ar yr wybodaeth maen nhw'n ei chael i fod yn lletywyr ac yn teimlo'n gadarnhaol am y broses gyflwyno. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau/newidiadau i'r gwasanaeth a bod dogfennau'n adlewyrchu trafodaethau a gynhelir â'r holl bartïon. Ar y cyfan, roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys mewn ymweliadau, adolygiadau a materion sy'n ymwneud â gofal ac yn bennaf roeddent yn fodlon ar hyfforddiant sy'n eu paratoi i ddod yn lletywr. Mae'r lletywyr yn fodlon ar y cymorth gan y gwasanaeth pan fo problemau gyda lleoliadau ac maent yn hapus iawn gyda'r cymorth gan eu gweithwyr prosiect ac yn teimlo y gallant fynd atynt i drafod materion y maent yn eu hwynebu.<br><br>Cymerodd 17 o ddinasyddion a 6 o letywyr ran yn yr ymgynghoriad. | Mae gwybodaeth ar gyfer unigolion a lletywyr yn parhau i fod yn ffocws a bydd dulliau amgen yn parhau i gael eu harchwilio. Mae ffilm yn cael ei datblygu sy'n arddangos gwaith y lletywr a buddion y cymorth y maent yn ei roi i unigolion. Mae cymryd rhan yn y broses cynllunio gofal yn ffocws allweddol a bydd y cynllun 'Amdanaf i' yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.<br>Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi adolygu a datblygu ei raglen hyfforddi a bydd yn parhau i fonitro hyn. |
| **Tîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro (TAChF)** | Mewn perthynas â Thîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro, roedd gweithwyr allweddol mewn cysylltiad rheolaidd ac yn cadw'n gyson, felly roedd unigolion yn gallu meithrin ymddiriedaeth; roedd ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles, gyda rhai yn teimlo bod arnynt ddyled i'r gwasanaeth; mae unigolion yn teimlo eu bod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth ac nad ydynt yn cael eu barnu; roedd unigolion yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth a chyngor ar adegau sy'n ddefnyddiol iddyn nhw, beth bynnag y bo adeg y dydd.<br><br>Cymerodd 12 o ddefnyddwyr gwasanaeth ran yn yr ymgynghoriad. | Rydym yn datblygu'r dulliau cyfathrebu presennol i hwyluso ymgysylltu ac adborth ar ddiwedd y gwasanaeth.<br><br>Mae ffocws ar sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau'n hawdd cael mynediad iddo gan nad yw llawer yn gwybod am y cymorth gan Dîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Dydd | Ar y cyfan, roedd unigolion yn hapus gyda'r cyfathrebu â staff ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol ag eraill. Roeddent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi ac roedden nhw wedi magu mwy o hyder cymdeithasol; maen nhw'n teimlo eu bod yn gallu aros yn annibynnol ond maent yn arbennig o fodlon ar yr amser y gall staff ei dreulio gyda nhw yn helpu gyda gweithgareddau a rhoi cymorth gyda rhai tasgau. Roedden nhw'n fodlon ar weithgareddau a hoffen nhw gael mynychu ar y penwythnos.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn teimlo'n hapus gyda chyngor, gofal, cymorth a chyfathrebu. Er bod adnoddau'n brin, roedd unigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhan o grŵp a bod y gwasanaeth yn effeithiol yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau a chynyddu hunanhyder i wneud mwy o weithgareddau wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn. Cymerodd 5 defnyddiwr gwasanaeth a'u teuluoedd ran yn yr ymarfer ymgysylltu. | Mae mwy o ffocws ar wella'r gweithgareddau sydd ar gael i unigolion, yn enwedig y rhai sy'n helpu i gefnogi iechyd meddwl a lles. |
| Gwasanaethau Gofalwyr | Ymatebodd 37 o ddefnyddwyr gwasanaeth i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf o ofalwyr yn derbyn digon o wybodaeth am gymorth i ofalwyr di-dâl ond nid oedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u hawl i asesiad o'r angen am ofalwr. Roedd y rhan fwyaf wedi derbyn asesiad gofalwyr di-dâl, ac roedd llawer yn fodlon ar y broses asesu. Roedd y rhan fwyaf o ofalwyr yn fodlon ar unrhyw gymorth neu wasanaethau y maent wedi'u derbyn o ganlyniad i'w hasesiad anghenion. | Bydd cyfathrebu yn parhau i fod yn ffocws fel bod gofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau ac o'r Porth Gofalwyr.<br><br>Ffocws parhaus ar sicrhau bod gwybodaeth ar gael am asesu a chymorth i ofalwyr di-dâl.<br><br>Ffocws parhaus ar sicrhau bod gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u deall.<br><br>Ffocws parhaus ar gynnal cysylltiadau cryf â gwasanaethau eraill er mwyn galluogi gwaith partneriaeth effeithiol i gefnogi ein gofalwyr di-dâl. |
| Gwasanaeth Cymorth Cymunedol Iechyd Meddwl Ardal y Fro (GCCIMAF) | 27 Roedd defnyddwyr Cymorth Cymunedol Iechyd Meddwl Ardal y Fro yn teimlo bod croeso iddynt pan aethant i'r gwasanaeth am y tro cyntaf a bod eu meddyliau wedi'u tawelu. Gallent gael cymorth i ailintegreiddio â'r gymuned ac roeddent hefyd yn teimlo eu bod yn perthyn i grŵp. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am sut y gall y gwasanaeth helpu, gyda'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod wedi derbyn y cymorth yr oedd ei hangen arnynt gan y gwasanaeth. Maen nhw wedi sylwi ar welliannau sylweddol yn eu lles ers cael gafael ar gymorth ac mae'r grwpiau cymdeithasol wedi helpu unigolion i fagu hyder i ryngweithio mewn grwpiau llai a threulio amser gydag eraill mewn lleoliad anffurfiol. | Gwella tai cymorth sy'n cael eu goruchwylio gan y Gweithwyr Cymorth Cymunedol.<br><br>Ffocws ar ddarparu cymaint o wybodaeth ag sydd ei hangen ar unigolion ar adeg sy'n briodol iddyn nhw, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gorlethu.<br><br>Bydd cymorth therapydd galwedigaethol yn cael ei sicrhau i ddarparu cymorth pellach ar gyfer tasgau pob dydd.<br><br>Ystyrir sefydlu system bydi pan fydd pobl newydd yn ymuno â'r grŵp, fel bod aelodau eraill sydd wedi cael profiad o'r cymorth yn gallu rhoi gwybodaeth gychwynnol mewn ffordd anffurfiol.<br><br>Parhau i gynnal tryloywder ynghylch yr hyn y gall y gwasanaeth ddarparu cymorth ar ei gyfer a'r hyn na all ei ddarparu, fel bod disgwyliadau'n parhau i gael eu rheoli. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Tîm Lleoliadau** | Roedd 19 o ofalwyr maeth yn teimlo'n gadarnhaol am y broses adolygu flynyddol. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi trwy newidiadau yn y gwasanaeth.<br><br>Roedd gofalwyr maeth yn teimlo'n fodlon ar y cyfathrebu a'r cymorth y mae eu gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi'u darparu, a gan y gwasanaeth maethu yn gyffredinol. Roedd y grwpiau anffurfiol yn cael eu hystyried yn adnodd gwerthfawr i godi unrhyw bryderon neu awgrymu gwelliannau. | Canolbwyntio ar sicrhau bod y dulliau cyfathrebu â gofalwyr maeth yn effeithiol a bod grwpiau ffurfiol ac anffurfiol yn parhau i gael eu cefnogi.<br><br>Cynnal lefelau da o gymorth parhaus i ofalwyr maeth newydd a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth.<br><br>Canolbwyntio ar sicrhau bod cynlluniau dysgu a datblygu ar gyfer gofalwyr maeth yn diwallu eu hanghenion unigol.<br><br>Pwyslais ar gefnogi gofalwyr maeth i fyfyrio ar eu dysgu. |
| **Gwasanaeth Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd** | Roedd mabwysiadwyr yn fodlon ar yr wybodaeth a roddwyd gyda'r ymateb cychwynnol gan y gwasanaeth. Roedd y rhan fwyaf wedi ymgysylltu â gwasanaethau eraill a gynigiwyd iddynt gan y Gwasanaethau Addysg a Chymorth Therapiwtig mewn Mabwysiadu e.e., gweminarau, gweithgareddau lles, ac mae ganddynt ddiddordeb mewn gwasanaethau tebyg pellach. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y cymorth yn cynnig sefydlogrwydd i'w teuluoedd; roedd ymatebwyr wedi gallu cysylltu â gweithwyr proffesiynol yn hawdd pan oedd angen. Roedd mabwysiadwyr yn fodlon ar gynnwys y Cynllun Cymorth Mabwysiadu a'r esboniad o'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r panel mabwysiadu; codwyd rhai materion mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer y broses baru. Nid oedd rhai mabwysiadwyr yn ymwybodol o sut i gael gafael ar gymorth ar ôl lleoliad.<br><br>Cymerodd 17 o ddefnyddwyr gwasanaeth ran yn yr ymgynghoriad. | Gwella cysondeb cyfathrebu rhwng gweithwyr cymdeithasol a mabwysiadwyr.<br><br>Canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr o safon am y plentyn cyn y broses baru.<br><br>Parhau i sicrhau bod ceisiadau am gymorth a gwybodaeth yn cael sylw mewn modd amserol ac bod mabwysiadwyr yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Parhau i gynnig cymorth a chyngor yn rhagweithiol gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau cymorth priodol. |
| **Dechrau'n Deg** | Mae'r gwasanaeth wedi bod yn ystyriol o anghenion teuluoedd ac mae rhieni'n gwerthfawrogi hyn. I ddechrau, roedd y feithrinfa'n dda iawn am ddiweddaru'r dudalen cyfryngau cymdeithasol ac mae angen cynnal hyn ynghyd â mathau eraill o ddiweddariadau. Roedd teuluoedd yn teimlo bod cyngor yn bodloni disgwyliadau'r rhan fwyaf o bobl a bod cyfranogiad Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu perthnasoedd teuluol a'u lles emosiynol. Darperir "Llyfrynnau Taith Ddysgu" sy'n cynnwys llawer o'r meysydd a gall rhieni fynd â nhw adref i'w cadw.<br><br>Cymerodd 36 o ddefnyddwyr gwasanaeth/teuluoedd ran yn yr ymgynghoriad. | Parhau i ganolbwyntio ar gynnal safonau cyfathrebu da gyda theuluoedd a rhoi gwybodaeth berthnasol a chryno.<br><br>Darparu mwy o wybodaeth i rieni am arferion cyffredinol yn ystod y dydd a lles cyffredinol.<br><br>Darparu mwy o fanylion i rieni am ryngweithio cymdeithasol eu plentyn, er enghraifft a oedd yn chwarae mwy ar ei ben ei hun neu gyda grŵp o blant eraill.<br><br>Mae'r gwasanaeth wedi cofrestru ar gyfer ap rhannu gwybodaeth newydd fel y bydd rhieni'n gallu ei ddefnyddio a chael gwybodaeth fel y dymunant. |
| **Arolwg STAR HouseMark - Tenantiaid y Fro** | Ymatebodd 925 o denantiaid i'r arolwg.<br>Dyma'r canfyddiadau allweddol:<br>Mae 76% o denantiaid yn fodlon ar y gwasanaethau cyffredinol a ddarperir, gyda 32% yn fodlon iawn. Mae 75% o denantiaid yn cytuno bod gan y Cyngor staff cyfeillgar a hawdd mynd atynt, ac mae 71% hefyd yn cytuno eu bod wedi darparu'r gwasanaeth y maent yn ei ddisgwyl gan eu landlord. Roedd 69% o'r farn bod y Cyngor yn darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol; roedd 57% yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu deall; a dywedodd 54% fod y Cyngor yn cadw ei addewidion.<br><br>Y tair prif flaenoriaeth oedd atgyweirio a chynnal a chadw; ansawdd cyffredinol cartrefi tenantiaid; a gwrando ar denantiaid a'u hysbysu'n gyson. | Mae meysydd gwella a nodwyd yn llywio datblygiadau gwasanaethau i'r dyfodol. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Iechyd ac Anabledd Plant a Gadael Gofal** | Cymerodd 4 o bobl ifanc a'u teuluoedd ran yn yr ymgynghoriad.<br>Roedd y rhan fwyaf o rieni yn gallu cael gwybodaeth am sut y gallai'r tîm eu cefnogi ac roeddent yn gallu siarad â gweithiwr cymdeithasol eu plentyn pan oedd angen; roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch ac y gallent gael gafael ar y cymorth yr oedd ei hangen arnynt. Mae'r cymorth a dderbyniwyd wedi helpu rhieni a'u plant i deimlo'n ddiogel.<br>Roedd pobl ifanc yn cael eu cefnogi i deimlo'n ddiogel ac roeddent yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau. Roeddent yn hapus gyda'r cymorth roeddent yn ei dderbyn ac roeddent yn gallu gofyn i'w gweithiwr cymdeithasol neu eu gweithiwr allweddol a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau am yr help roeddent yn ei gael yn yr ysgol ac yn y cartref. Roedd rhieni'n teimlo eu bod yn rhan o'r broses datblygu cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer eu plant. | Gwella'r wybodaeth a roddir ar gyfer cymorth a gwasanaethau sydd ar gael lle bo hynny'n briodol.<br>Canolbwyntio ar sicrhau bod teuluoedd yn parhau i gael eu cynnwys ac yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio ar gyfer gofal a chymorth eu plentyn.<br>Sicrhau bod teuluoedd yn derbyn digon o wybodaeth/cymorth ynglŷn â'r broses bontio.<br>Canolbwyntio ar sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gwrando ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â'r cymorth y maent yn teimlo y mae ei angen arnynt. |
| **Tîm 14 Plus** | Roedd y rhai oedd yn gadael gofal yn gallu cysylltu â'u cynghorydd pobl ifanc yn hawdd, ac os nad oedd ar gael, roeddent yn gwybod y byddent yn dod yn ôl atynt cyn gynted ag y gallent. Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn teimlo bod eu cynghorydd pobl ifanc wedi gallu eu helpu gyda'u cwestiynau a'u pryderon a'u trin â chwrteisi a pharch.<br>Dywedodd pobl ifanc fod y gwasanaeth wedi'u helpu i deimlo'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod y gwasanaeth wedi helpu i'w paratoi ar gyfer oedolaeth ond eu bod yn teimlo y byddai angen mwy o gymorth ysgafnach arnynt ar ôl y cam hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn gadael gofal yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn y gwaith i gynllunio eu gofal i'r dyfodol ac roedd pawb yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt. Cymerodd 6 o ddefnyddwyr gwasanaeth 14-Plus ran yn yr ymgynghoriad. | Parhau i ganolbwyntio ar archwilio cyfleoedd i ymgysylltu'n ehangach trwy gyfryngau cymdeithasol e.e. WhatsApp ac Instagram.<br>Mwy o ffocws ar gynnwys pobl ifanc mewn cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori i sicrhau bod ganddynt lais cryf wrth ddatblygu gwasanaethau.<br>Mwy o ffocws ar sicrhau bod y tîm yn gallu teilwra cymorth i anghenion unigol e.e. cyngor ar dai, lles, byw'n annibynnol.<br>Nod y gwasanaeth yw parhau i ganolbwyntio ar gysondeb ac ansawdd y cysylltiadau a wneir gan Weithwyr Cymdeithasol a Chynghorwyr Pobl Ifanc (ar gyfer y rhai dros 18 oed). |
| **Gwasanaethau Gofal Preswyl** | Roedd perthnasau'n falch o'r gofal a'r cymorth a ddarperir i breswylwyr ar draws y cartrefi, ac roedd teuluoedd yn hapus gyda'r dewisiadau a'r cyfleoedd i breswylwyr ond rhoesant awgrymiadau ar gyfer gwella gweithgareddau a'u teilwra i ddiddordebau'r preswylwyr.<br>Roedd perthnasau'n teimlo bod anghenion preswylwyr wedi cael eu diwallu gan y gwasanaeth yn briodol ac ar y cyfan roeddent yn hapus iawn gyda'r cymorth a oedd yn cael ei ddarparu. Roeddent yn teimlo'n dawel eu meddwl bod y preswylwyr yn cael eu cadw'n ddiogel.<br>Roedd preswylwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth cryf iawn, ac roedd y rhan fwyaf yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb. Roedd y staff yn cael eu hoffi a'u gwerthfawrogi. Roedd y preswylwyr yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac ansawdd y bwyd a ddarperir ac roedd eu lles wedi gwella'n sylweddol ers byw yn y cartref gan eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi wrth gynnal rhywfaint o annibyniaeth. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y gwasanaeth cyflwyno yn ddefnyddiol i bawb oedd yn ymwneud ag ef. Roedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan breswylwyr a pherthnasau, ond bod prinder staffio wedi effeithio ar yr amser y gallent ei dreulio gyda phreswylwyr.<br>Cymerodd 25 o breswylwyr, 15 o berthnasau a 18 o aelodau staff ran yn yr ymgynghoriad. | Canolbwyntio ar ddatblygu mwy o wydnwch trwy wella'r cymorth sydd ar gael i dimau staff gofal preswyl fel goruchwylio a chyfleoedd hyfforddi o fewn eu hamser gwaith, ac annog cyfranogiad yn y sesiynau lles corfforaethol.<br>Parhau i weithio gyda staff i geisio nodi ffyrdd y gallwn wella capasiti i roi mwy o amser o ansawdd i staff gyda phreswylwyr.<br>Parhau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau i breswylwyr i wella eu lles.<br>Sicrhau bod preswylwyr, perthnasau a staff yn parhau i gael cyfleoedd i roi eu barn ar y gwasanaeth. |
| **Mannau Cynnes/Hwyl Dydd Gwener (Canolfan Palmerston)** | Roedd adborth o weithgareddau Blasu Galw Heibio Hwyl Dydd Gwener yn nodi lefelau'r galw a'r angen i ddarparu ar gyfer carfan wahanol o ran cyfleoedd dysgu. | Mwy o gyrhaeddiad a nifer uwch o bobl yn manteisio ar gyfleoedd dysgu o grwpiau ehangach o ddysgwyr.<br>Defnyddiwyd gwybodaeth adborth i lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer rhaglenni 2023/24. |

# YR HYN A DDYWEDODD EIN RHEOLEIDDWYR

| Adolygiad | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| **Gwerthusiad Perfformiad o Arolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg Gwasanaethau** | Mae uwch arweinyddiaeth gref o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynlluniau strategol clir ar waith i fonitro a gwerthuso gwelliannau ar draws gwasanaethau trwy 'Fwrdd Ail-lunio'r Gwasanaethau Cymdeithasol'. Mae cynlluniau ar waith i gryfhau ansawdd yr oruchwyliaeth o fewn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc trwy'r model 'Adeiladu ar Gryfderau' ond mae angen gwneud rhagor o waith cyn i hyn gael ei weithredu'n llawn. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n derbyn cymorth a gwasanaethau gan y Cyngor yn gwneud hynny mewn modd amserol ac yn cael eu cefnogi i gynnal eu diogelwch a'u lles ac mae eu lleisiau'n cael eu clywed. Ceir tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o'r Gymraeg ac roedd dewis iaith pobl i'w weld mewn dogfennau allweddol. Mae gwaith y 'Bwrdd Ail-lunio' yn mynd i'r afael â'r angen i ddatblygu ymhellach system sicrhau ansawdd gadarn.<br><br>Mae 18 maes i'w wella wedi'u nodi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol o dan themâu Pobl –Llais a Rheolaeth, Atal, Lles a Phartneriaethau. | Mae rhagor o gydweithio yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella sy'n cael eu hadlewyrchu mewn camau o fewn traciwr Bwrdd Ail-lunio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac adroddir am gynnydd y rhain bob mis. |
| **Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi** | Priodolwyd sgôr gyffredinol 'Da' i'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid ym Mro Morgannwg gyda graddau mewn safonau craidd fel isod:<br><br>**Cyflawni sefydliadol:**<br>• Llywodraethu ac arweinyddiaeth - *Angen Gwella*<br>• Staff - *Da*<br>• Partneriaethau a gwasanaethau - *Da*<br>• Gwybodaeth a chyfleusterau - *Da*<br><br>**Datrysiadau llys:**<br>• Asesu - *Da*<br>• Cynllunio - *Da*<br>• Gweithredu a chyflawni - *Rhagorol*<br>• Adolygu - *Da*<br><br>**Datrysiadau y tu allan i'r llys:**<br>• Asesu - *Annigonol*<br>• Cynllunio - *Da*<br>• Gweithredu a chyflawni - *Da*<br>• Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys - *Da*<br><br>Gwnaed 6 argymhelliad ar gyfer Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid y Fro. | Gweledigaeth ac uchelgais drafft ar gyfer y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a ddatblygwyd ac a arweinir gan bobl ifanc ac ymarferwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Cadarnhau Polisi gan Fwrdd y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid (GTI).<br><br>Mae Polisi Adsefydlu drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad ag asiantaethau partner ac ymarferwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, gyda'r polisi terfynol i'w gadarnhau gan Fwrdd y GTI.<br><br>Datblygwyd Polisi Anghymesuredd drafft gyda chynllun gweithredu ategol wedi'i lywio gan asiantaethau partner.<br><br>Ymgysylltu â gweithwyr ac ymarferwyr i gytuno ar ddull i'w ymgorffori yn ymarfer y GTI.<br><br>Cytunwyd ar brosesau Archwilio, Sicrhau Ansawdd ac Adroddiadau'r BRhI ac fe'u rhoddwyd ar waith mewn perthynas â goruchwylio achosion gan reolwyr. |

## Ein heriau allweddol

- Mae datblygu Cynghrair y Fro wedi cael ei gymhlethu gan ganllawiau Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr a nawr bydd angen ail-werthuso hyn yn y cyd-destun hwn.
- Mae methiant darparwyr yn bryder parhaus. Yng nghyd-destun y galw cynyddol am ofal a chymorth cartref, mae breuder y farchnad yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder sylweddol o ran gallu'r farchnad gofal cymdeithasol allanol i ymateb i'r galw cynyddol wrth iddynt barhau i fod dan bwysau gweithlu a chostau byw cynyddol.
- Mae heriau o hyd o ran recriwtio a chadw staff ar draws swyddi allweddol yn ein gweithlu. Mae rhai heriau staffio o hyd o fewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â rhai swyddi Gwaith Cymdeithasol ac nid oes digon o staff gofal (mewn gofal preswyl a chartref) ar draws y Cyngor a'r Fro ehangach. Mae hyn hefyd yn achosi anawsterau wrth gomisiynu gofal digonol i'n preswylwyr.
- Yn gysylltiedig â lefelau galw cynyddol, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau presennol ac mewn cyd-destun lleoliadau. Mae'r gwasanaeth wedi dod yn fwy dibynnol ar ofal a brynir yn allanol, yn arbennig lleoliadau asiantaethau maethu annibynnol lle mae argaeledd yn amlwg wedi lleihau hefyd.
- Ers y pandemig, bu ymgyrch i ryddhau cleifion o'r ysbyty i'r cartref yn ddiogel. Fodd bynnag, yr her i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion yw bod hyn yn rhoi pwysau a galw ychwanegol ar wasanaethau ailalluogi/gofal cartref i allu sicrhau bod anghenion preswylwyr yn cael eu diwallu a bod preswylwyr yn derbyn gofal diogel yn eu cymunedau.
- Mae'r amgylchedd economaidd presennol a'r argyfwng costau byw hefyd yn effeithio'n andwyol ar yr oedi wrth adeiladu tai o ganlyniad i'r pandemig e.e. mae adeiladwr pwysig sydd wedi codi tai fforddiadwy ers blynyddoedd yng Nghymru wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ddiweddar.
- Mae costau rhent cynyddol a'r argyfwng costau byw yn creu heriau o ran gwella nifer yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag bod yn ddigartref. Yn ogystal, mae heriau wedi'u hachosi gan y newidiadau mewn dyletswyddau digartrefedd a'r mewnlifiad o ffoaduriaid o'r Wcráin a gwledydd eraill.



## Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol

- Parhau i ddatblygu gwaith gyda phartneriaid allweddol ar ddatblygu a gweithredu model Cynghrair y Fro.
- Bwrw ymlaen â datblygu elfen gofal cartref y model Clystyrau Gofal Sylfaenol a chefnogi'r clystyrau carlam ledled y Fro.
- Datblygu rhaglen adeiladu tai cyngor ac ymchwilio i ddatblygiadau gyda chymysgedd o dai cyhoeddus/preifat i gynyddu'r incwm sydd ar gael i helpu i ddatblygu safleoedd newydd.
- Parhau i weithio trwy ffrwd waith cynllunio capasiti y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau Cymdeithasol. Symud ymlaen i i ymateb i heriau denu, recriwtio a chadw'r gweithlu sy'n wynebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi a darparu ymyriadau effeithiol i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Gweithio ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat i wella nifer yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag bod yn ddigartref.
- Bwrw ymlaen â gwaith i gynyddu nifer y cartrefi newydd sy'n hygyrch/wedi'u haddasu.
- Bwrw ymlaen â gwaith ar y Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o fynd i'r afael â thlodi bwyd mewn ysgolion yn unol â'r agenda Symud Mwy, Bwyta'n Dda.
- Parhau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyfeirio dinasyddion at weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol sydd wedi'u dylunio i wella eu hiechyd meddwl a'u lles.
- Parhau i gefnogi mentrau cymunedol sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, gan gynnwys darparu cyngor i staff a dinasyddion.

# PERFFORMIAD EIN CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL YN ÔL AMCANION LLES

## AMCAN LLES 4: PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD

Rydym yn ymrwymedig i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd i sicrhau y gallwn fod yn falch o'r etifeddiaeth a adawn i genedlaethau'r dyfodol.

### STATWS PERFFORMIAD

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag **Amcan Lles 4** | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | Statws CMG Cyffredinol ar gyfer **Amcan Lles 4** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau |
| 50 | 12 | 44 (88%) | 9 (75%) | 0 | 0 | 6 (12%) | 3 (25%) | GWYRDD |

Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 4 yw **DA.** Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod.

### YR HYN A DDYWEDON NI Y BYDDEN NI'N EI WNEUD

**1** Gweithredu Prosiect Sero, ein Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd sy'n canolbwyntio ar ein hadeiladau, defnydd ynni, trafnidiaeth, tir a bwyd
Statws Perfformiad: G

**2** Cyhoeddi Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys y Bartneriaeth Natur Leol, i ymateb i'r rgyfwng natur.
Statws Perfformiad: G

**3** Gwella adeiladau ysgol sy'n bodoli eisoes a chreu adeiladau newydd ar gyfer Sain Nicolas, St Baruc, y Ganolfan Dysgu a Lles, Ysgol y Deri ac ysgolion cynradd yn y Bont-faen gan eu gwneud, lle bo hynny'n bosibl, yn adeiladau carbon-isel neu ddigarbon yn ddelfrydol.
Statws Perfformiad: G

**4** Adeiladu cartrefi cyngor newydd sydd bron yn ddigarbon, neu sydd o leiaf â sgôr A, i fwrw targedau lleihau carbon ar gyfer stoc dai bresennol y Cyngor ac i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
Statws Perfformiad: G

**5** Sefydlu rhwydwaith o fannau gwefru Cerbydau Trydan hygyrch lleol a gwneud gwaith i sicrhau bod gan y Cyngor fflyd cerbydau mwy cynaliadwy.
Statws Perfformiad: G

**6** Annog a chefnogi newidiadau cynaliadwy i'r ffordd y mae pobl yn teithio trwy gynyddu cyfleoedd i deithio'n llesol a rhaglenni cynnal a chadw ac atgyweirio effeithiol ar gyfer ein ffyrdd, ein palmentydd a'n seilwaith priffyrdd.
Statws Perfformiad: G

**7** Gweithredu fersiwn ddiwygiedig y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd gan gynnwys cynlluniau penodol ynghyd â'r Cynllun Rheoli Traethlin a gwaith monitro'r arfordir.
Statws Perfformiad: G

**8** Casglu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a pharatoi'r weledigaeth, yr amcanion/opsiynau twf a'r strategaeth a ffefrir.
Statws Perfformiad: C

**9** Buddsoddi mewn addysg, trafnidiaeth gynaliadwy a chyfleusterau cymunedol o ganlyniad i sicrhau taliadau Adran 106 gan ddatblygwyr mewn ardaloedd lle mae datblygiad wedi digwydd.
Statws Perfformiad: G

**10** Adolygu a gweithredu opsiynau i sefydliadau cymunedol weithredu cyfleusterau fel meysydd chwaraeon, parciau, mannau agored, rhandiroedd a chyfleusterau cyhoeddus fel rhan o Raglen Drawsnewid y Cyngor.
Statws Perfformiad: G

**11** Yn unol â Strategaeth Rheoli Gwastraff Bro Morgannwg 2021/31, cyflawni amrywiaeth o welliannau i reoli gwastraff.
Statws Perfformiad: G

**12** Gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddatblygu strategaeth sbwriel a gorfodi sy'n cydnabod rôl y gymuned wrth wella ein hamgylchedd lleol.
Statws Perfformiad: G

**13** Cynnal asesiadau ansawdd aer lleol i sicrhau bod amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn parhau i gael eu cyflawni
Statws Perfformiad: G

## EIN CYFLAWNIADAU

**1.**

- Gosodwyd Darllenyddion Mesuryddion Awtomatig ar gyfer defnydd dŵr ar draws **200 o adeiladau'r Cyngor.**
- Defnyddiwyd **£179,553** o arian Cymunedau Cryf i gefnogi prosiectau cymunedol.
- Mae **100%** o'n trydan yn parhau i gael ei brynu o ffynonellau adnewyddadwy.
- Datblygwyd **Strategaeth Rheoli Asedau** newydd.
- Ychwanegwyd **Cerbyd Ailgylchu Trydan** at fflyd y Cyngor.
- Mae Bro Morgannwg wedi ennill **Statws Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Efydd.**
- **Adolygwyd data am ein hôl troed carbon** a nodwyd cyfleoedd allweddol ar gyfer gweithredu.
- Gosodwyd paneli solar ar **23 o adeiladau** i gynhyrchu ynni cyfunol o bron 1 Megawatt.

**2.**

- **Sicrhawyd cyllid ar gyfer prosiect gwyddoniaeth dinasyddion** i fesur bioamrywiaeth mewn ysgolion.
- Mae **gwelliannau bioamrywiaeth** bellach yn cael eu sicrhau ar bob datblygiad.
- Plannwyd **120 metr** o resi dwbl am yn ail o wrychoedd, gyda chyfanswm o ryw 480 o goed ar Lwybr Mawr Morgannwg.
- Datblygwyd cynllun rheoli 15 mlynedd ar gyfer **Gwarchodfa Natur Leol Cwm Talwg** gydag offer a chyfarpar wedi'u hariannu i gefnogi gweithredu.
- Nodwyd **61** o safleoedd newydd ar gyfer rheoli blodau gwyllt. Bylbiau newydd.
- Mae A106 wedi ariannu **plannu bylbiau a choed** yn Y Faenor, Gwenfô, ym Mharc Pencoedtre, y Barri ac yng 'Ngardd Bee Hapus' yn Llanilltud Fawr.
- Hyrwyddwyd **hadau a choed am ddim i ysgolion gan Coed Cadw** i wella tiroedd ysgolion.

**3.**

- Datblygwyd **Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion** newydd.
- Adeiladwyd Ysgol Sant Baruc fel safle **carbon isel.** Mae **carbon sero net ar waith** yn Ysgol Sain Nicolas, y Ganolfan Dysgu a Lles ac Ysgol Gynradd y Bont-faen.
- Mae **99% o wastraff adeiladu** o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei ailgylchu neu caiff ynni ei adfer ohono i leihau allyriadau ac osgoi mynd ag ef i safle tirlenwi.

**4.**

- Gosodwyd **40 o systemau.**
- **gwresogi hybrid** ac mae tenantiaid y cyngor yn cael eu cefnogi i weithredu'r rhain.
- Gosodwyd synwyryddion Airwit mewn **100** o gartrefi'r Cyngor i gasglu data sylfaenol.
- Mae staff wedi cofrestru ar gwrs hyfforddiant **Cydlynwyr Ôl-osod PAS2035.**
- Codwyd cyfartaledd GAS (sgôr perfformiad ynni) stoc dai'r Cyngor i 73 drwy welliannau SATC.

**5.**

- Mae **80** o fannau gwefru cerbydau trydan bellach wedi'u gosod ar safleoedd y Cyngor gyda **36** o fannau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus .
- Prynwyd beiciau gan 46 aelod o staff trwy gynllun **Beicio i'r Gwaith** y Cyngor.

**6.**

- Cwblhawyd **llwybr teithio llesol trwy'r Rhws.**
- Roedd **100% o'r briffyrdd a thir perthnasol** a arolygwyd yn cyrraedd safon glendid uchel neu dderbyniol
- Sicrhawyd cyllid i osod **8 gorsaf docio beiciau trydan** yn y Barri i ehangu rhaglen feiciau trydan OVO. **Doc Brompton hefyd wedi'i osod** yng nghyfnewidfa Llanilltud Fawr.
- Cafodd **dau lwybr cerdded yn y Barri** eu gwella i safon Teithio Llesol.
- Uwchraddiwyd **10** safle bws, gan gynnwys arosfannau bysus newydd ac arddangosiadau electronig.

## EIN CYFLAWNIADAU

**7.**

- Cyflwynwyd technoleg newydd ac arloesol sy'n seiliedig ar ddelweddau i gefnogi monitro traethlin.
- Adnewyddwyd y **Cynllun Rheoli Traethlin** (CRhT) a chrëwyd rôl swyddog arfordirol newydd i gynorthwyo i gyflawni polisïau CRhT ar draws y rhanbarth.

**8.**

- Cyhoeddwyd y **gofrestr safleoedd ymgeisiol** a chanlyniadau asesiad Cam 1.
- Cwblhawyd gwaith ymgysylltu â Gweledigaeth, Materion ac Amcanion a gwaith ymgysylltu pellach ar opsiynau twf a gofodol mewn perthynas â'r **Cynllun Datblygu Lleol newydd.**

**9.**

- **Buddsoddwyd mewn cyfleusterau cymunedol** trwy gyllid A106 gan gynnwys Ardal Chwarae Windmill Lane, Llanilltud Fawr; ardal chwarae Parc Sant Cyres/St David's Crescent, Penarth; offer ffitrwydd awyr agored newydd yn Heol yr Orsaf Ddwyreiniol, Gwenfô; cyfleusterau chwaraeon Murchfield; gwelliannau i Barc Celtic Way yn y Rhws; gwaith adnewyddu Pafiliwn Belle Vue; cysgodfan hanesyddol ym Mhenarth.
- Cymorth parhaus ar gyfer **gwasanaeth trafnidiaeth cymunedol Greenlinks.**

**10.**

- Mae **Pod Bwyd** Penarth wedi ehangu ei ystod o wasanaethau ac yn rhoi cymorth rheolaidd i **dros 100** o bobl leol sy'n dioddef tlodi bwyd.
- Sefydlwyd **Pod Gwybodaeth** wrth ymyl y Pod Bwyd sy'n rhoi cymorth, gwybodaeth ac arweiniad i denantiaid a phreswylwyr lleol ynglŷn â materion tai, cyflogaeth, hyfforddiant, arian a chyngor ar ddyledion.

**11.**

- Mabwysiadwyd **Strategaeth Rheoli Gwastraff 10 mlynedd.**
- Mae'r Cyngor wedi agor **Cyfleuster Adfer Adnoddau** (CAA) newydd i brosesu deunydd ailgylchu sy'n cael ei ddidoli ar garreg y drws, a **siop ailddefnyddio** newydd.
- **Ehangwyd yr ystod o ddeunyddiau ailgylchu ymyl y ffordd** i gynyddu cyfranogiad dinasyddion, gan gynnwys batris ac offer trydanol bach.

**12.**

- Cafodd **10 gwobr parc gwyrdd** eu cadw.
- **Dyfarnwyd statws Baner Werdd i 12 safle** ar draws y Fro, yn ogystal â phedwar traeth gyda sgôr ansawdd dŵr 'Ardderchog'.

**13.**

- Adolygwyd **Gorchmynion Rheoleiddio Parcio, trefniadau parcio preswyl a dulliau rheoli parcio diwygiedig yn Llandochau** mewn ymateb i bryderon amgylcheddol.
- Ymatebwyd i **71%** o gwynion sŵn ac aer masnachol a diwydiannol o fewn un diwrnod gwaith, yn uwch na 68% y llynedd.
- Cymerwyd **624 o samplau ansawdd aer** i sicrhau cydymffurfiad parhaus.



## GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU:
## YR HYN A DDYWEDODD EIN PRESWYLWYR A'N DEFNYDDWYR GWASANAETH

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Prosiect Llechen Lân** | Nododd preswylwyr o Ystâd Sant Luc a Sant Paul ym Mhenarth welliannau i wneud eu cymunedau'n lanach, yn wyrddach, yn fwy gwydn ac yn fwy cysylltiedig.<br><br>Cymerodd dros 30 o breswylwyr ran yn yr ymgynghoriad. | Erbyn hyn mae'r gymuned yn defnyddio'r Pod Bwyd o ddifri. Mae'r gymuned leol yn rhan o ddatblygu cynllun ar gyfer ardal chwarae ar gyfer y plant.<br><br>Sefydlwyd gardd gymunedol, tŷ gwydr, mannau plannu gyda ffrwythau, llysiau a choed ffrwythau o amgylch yr ardal, ac ardal ddynodedig i'r gymuned eistedd a chael coffi yn yr ardd lle gallant gysylltu â'u cymuned, gwirfoddolwyr a staff y cyngor sy'n gweithredu'r safle. Cyfrannwyd at gasglu sbwriel/amnest sgipiau i glirio'r ystâd.<br><br>Bydd datblygu hyb gwybodaeth ger y pod bwyd yn ein galluogi i gynnal nifer o asiantaethau a all roi cymorth i'r gymuned leol, e.e. cyngor ariannol, byw'n iach. |
| **Ymgysylltu Cymunedau Creadigol:**<br><br>Esplanâd Penarth<br><br>Creu Lleoedd y Barri<br><br>Creu Lleoedd y Bont-faen<br><br>Creu Lleoedd Llanilltud Fawr | Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno mai uchafbwyntiau esplanâd Penarth oedd yr opsiynau eistedd a bwyta awyr agored, y pier, y pafiliwn a mynediad i lan y môr. Cytunwyd hefyd y byddai uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus a mwy o opsiynau bwyta ac yfed yn gwella'r ardal. Nodwyd yr angen am gerddwyr, llai o geir a thraffig, gwell cysylltiadau trafnidiaeth, gwell goleuadau a mwy o seddi awyr agored.<br><br>Aeth dros 70 o bobl i'r sesiynau galw heibio.<br><br>Mae blaenoriaethau lleol yn cael eu nodi gan gymunedau yn Llanilltud Fawr, y Bont-faen a'r Barri ar y cyd â chynghorau cymuned a rhanddeiliaid allweddol eraill. | Mae blaenoriaethau lleol Penarth wedi llywio cyfres o argymhellion i'r bwrdd a'r Cabinet. Mae'r gwaith hwn yn llywio Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Penarth<br><br>Bydd y gwaith hwn yn llywio Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer yr ardaloedd perthnasol. |
| **Ymgynghoriadau gweithredu Adran 106**<br><br>Mannau Agored Cyhoeddus yn ardal chwarae Windmill Lane, Llanilltud Fawr; ardal chwarae Parc Sant Cyres/St David's Crescent, Penarth; offer ffitrwydd awyr agored newydd yn Heol yr Orsaf Ddwyreiniol, Gwenfô a Lougher Place, Sain Tathan; cyfleusterau chwaraeon Murchfield, Dinas Powys; gwelliannau i Barc Celtic Way yn y Rhws.<br><br>. | O bob un o'r ymgynghoriadau hyn, mae'n amlwg bod y gwahanol gymunedau'n frwd iawn dros wella offer chwarae a chyfleusterau hamdden, a buddsoddi mewn ardaloedd cyhoeddus. Cafodd pob ymgynghoriad gefnogaeth gref. Croesawyd integreiddio gwelliannau amgylcheddol fel rhan o bob cynllun hefyd.<br><br>Roedd 186 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar fannau agored cyhoeddus yn ardal chwarae Windmill Lane, Llanilltud Fawr; 187 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar ardal chwarae Parc Sant Cyres/St David's Crescent, Penarth; 7 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar yr offer ffitrwydd awyr agored newydd yn Heol yr Orsaf Ddwyreiniol, Gwenfô a 22 ar gyfer Lougher Place, Sain Tathan; 136 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar gyfleusterau chwaraeon Murchfield, Dinas Powys; a 141 o ymatebwyr i welliannau Parc Celtic Way yn y Rhws. | Roedd pob ymgynghoriad yn galluogi'r Cyngor i ddefnyddio adborth yn uniongyrchol gan breswylwyr i benderfynu ar y briff dylunio oedd yn cael ei gynnwys yn y pecyn dyfynbris/tendr. Mae hyn yn golygu y bydd syniadau a gyflwynir gan breswylwyr yn bwydo'n uniongyrchol i'r cynllun terfynol, gan arwain at berchnogaeth gymunedol. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Prosiect dynodi llwybrau a mapio** | Cynhyrchwyd llawer o gynnwys ar gyfer y map o wybodaeth leol.<br><br>Dewiswyd nifer o dirnodau allweddol i'w dangos ar y map.<br><br>Cydnabuwyd pwysigrwydd cynnwys Parc Porthceri yn y map er ei fod ymhellach i ffwrdd, fel ased pwysig i breswylwyr.<br><br>Roedd pobl hefyd eisiau taflenni map a map digidol ar eu ffonau symudol yn ogystal ag arwyddion mapiau ar y stryd. | Mae adnoddau dynodi llwybrau a mapio yn gyfoethocach gyda gwybodaeth fwy lleol a pherthnasol. Bydd adborth cadarnhaol ar gyfer y map a lliw/dyluniad y mapiau a'r arwyddion yn golygu y gallwn fwrw ymlaen â'r cyhoeddi.<br><br>Mae ymgynghori ynghylch y Gymraeg wedi arwain at lawer o gyfieithiadau newydd a diddorol ar gyfer lleoedd yn y Barri a fydd yn cefnogi datblygiad y Gymraeg yn yr ardal. |
| **Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu** | Roedd 52% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r pwyntiau gweithredu a nodir yn y strategaeth. Roedd cefnogaeth i'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref newydd arfaethedig yn Llandŵ oherwydd maint a phroblemau hygyrchedd y safle presennol. Roedd pryder ynghylch pa ddeunydd sy'n mynd i mewn i ba fag a'r gallu i ailgylchu mathau ychwanegol o ddeunydd e.e. tecstilau, batris, plastigau meddal, cewynnau ac eitemau trydanol bach. Awgrymwyd bod angen i'r Cyngor ddarparu mwy o wybodaeth am le mae'r gwastraff yn mynd ar ôl ei ailgylchu a dylid cymryd camau gorfodi yn erbyn preswylwyr nad ydynt yn ailgylchu.<br><br>Ymatebodd 431 o breswylwyr i'r arolwg a gynhaliwyd trwy Cymryd Rhan y Fro. Cyfradd ymateb o 12% arall gan Banel Dinasyddion Barn y Fro. | Mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu gyda glasbrint casglu yn cael ei gyflwyno ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd y Fro.<br>Gwnaed gwelliannau i'r gwasanaeth ailgylchu ymyl y ffordd presennol trwy ychwanegu eitemau trydanol bach fel tegellau, sychwyr gwallt a batris.<br>Mae'r seilwaith gwastraff wedi'i wella trwy adeiladu.<br>Cyfleuster Adfer Adnoddau, y siop ailddefnyddio, parcio fflyd yn y Barri a sefydlu Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) newydd yn Llandŵ. |

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| **Prosiect Sero**<br><br>Ymgysylltu â Gwasanaeth Ieuenctid yr Haf<br><br>Gweithdy 3 Gorwel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)<br><br>Arolwg Staff<br><br>Ymgysylltu gan y Cyngor Ieuenctid ynghylch y Newid yn yr Hinsawdd<br><br>Penarth Ynghyd am yr Hinsawdd: Sgwrs (Penarth Growing Community) | Darparu mannau gwyrdd mewn trefi; cynyddu ailgylchu, uwchgylchu ac ailddefnyddio. Gwastraffu llai o ynni mewn cartrefi, adeiladau a ffatrïoedd. Anogwyd busnesau lleol i ailgylchu. Mwy o ymgyrchoedd addysgol. Mannau ailgylchu a rennir mewn cymunedau.<br>Daeth 100 o bobl ifanc i'r digwyddiad.<br><br>Nododd y blaenoriaethau canlynol gan randdeiliaid y BGC (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus): cwblhau canolfan ailddefnyddio yng nghanolfan gwastraff y Barri; cynyddu'r defnydd o lwyfannau ar-lein, e.e. Gum Tree a Too Good To Go, i helpu economi sy'n rhannu a lleihau gwastraff; cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddu a lleihau'r defnydd o danwydd ffosil; darparu mwy o fannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan; darparu mwy o drafnidiaeth integredig, fforddiadwy a hygyrch; cynyddu cynlluniau beicio i'r gwaith a chlybiau ceir; cynllun Fareshare - rhandiroedd â chymorth i helpu i gynyddu rhoddion bwyd; gwella'r defnydd o dechnoleg; gwneud y defnydd gorau o ysgolion a pharciau fel hybiau cymunedol; ymgysylltu a chyfranogiad cyson gan y gymuned gydag adnoddau gwell - Ffyniant Bro.<br>Cymerodd 30 o bobl ran yn y gweithdai.<br><br>Dyma'r canfyddiadau allweddol o ran staff: Cytunodd dros 80% o'r ymatebwyr y gallant gyfrannu at waith [Prosiect Sero] yn eu rôl; cytunodd 60% y dylai'r Cyngor fod yn arwain wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Dywedodd 48.5% yr hoffent chwarae mwy o ran wrth lunio sut mae'r Cyngor yn ymateb i faterion mawr fel y newid yn yr hinsawdd.<br>Ymatebodd 1106 (48.5%) o staff i'r arolwg.<br><br>Amlygodd ymgysylltu gan y Cyngor Ieuenctid yr angen am fwy o drafnidiaeth gyhoeddus drydanol; bysus ysgol rhatach; mwy o wybodaeth a chyngor am wastraff ynni anghynaladwy; ysgolion yn codi ymwybyddiaeth e.e. diwrnodau ABCh - y Newid yn yr Hinsawdd; annog ysgolion i ddefnyddio syniadau mwy cynaliadwy; mwy o bŵer gwynt; trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc 16 i 18 oed.<br><br>Ymhlith yr awgrymiadau gan Penarth Growing Community mae'r canlynol: gwneud y mwyaf o gyfleoedd o rôl Penarth fel yr Ardd ar lan y Môr; rhannu mannau gwyrdd a gerddi a rhandiroedd cymunedol; creu mwy o le tyfu yn y dref, a lleihau palmentydd a choncrid; rhoi pwysau ar awdurdodau lleol a chynrychiolwyr lleol - os bydd digon o bobl yn mynnu newid, bydd hynny'n digwydd; dod â chymunedau at ei gilydd i godi ymwybyddiaeth; lobïo'r Cyngor ynglŷn ag adeiladau newydd a pham nad ydynt yn cael eu hadeiladu'n gynaliadwy.<br>Cymerodd 36 o bobl ran. | Llywio cynlluniau a mentrau allweddol y BGC (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) a'r Cyngor fel sy'n cyd-fynd ag Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd a'r rhaglen Prosiect Sero. |

## YR HYN A DDYWEDODD EIN RHEOLEIDDWYR

<table>
<tr><th>Adolygiad</th><th>Canfyddiadau</th><th>Ein hymateb</th></tr>
<tr><td colspan="3">Hefyd yn berthnasol o dan WBO4 mae adolygiad Archwilio Cymru o'n gwaith i weithredu Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Gellir gweld hyn trwy'r dolenni a ddarparwyd yn gynharach yn y ddogfen.</td></tr>
</table>



## Ein heriau allweddol

- Bu heriau ariannol ac adnoddau wrth gyflawni amrywiaeth o welliannau i reoli gwastraff yn unol â Strategaeth Rheoli Gwastraff 2022-2032 y Cyngor, megis prinder gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm ac effaith cynnydd chwyddiant o ran cost deunyddiau a thanwydd ar brosiectau cyfalaf. Mae'r rhain wedi effeithio ar ein hymdrechion i fwrw targedau ailgylchu gwastraff domestig, gydag amcangyfrif o berfformiad ar ddiwedd y flwyddyn o 68% yn erbyn targed o 71%.
- Mae cwblhau'r cynllun gosod LED ar gyfer llusernau stryd pwrpasol wedi cael eu gohirio nes derbyn llusernau arbenigol.
- Mae heriau adnoddau wedi gohirio datblygu Cynllun Rheoli Carbon 2023-2030.
- Mae tynnu'r contractwr llwyddiannus yn ôl wedi gohirio cyflwyno'r system garthffosiaeth amgen i breswylwyr yn Trem y Môr, Marcroes a Croft John, Pen-marc.
- Mae nifer y plant sydd angen trafnidiaeth i'r ysgol, diffyg gyrwyr wrth gefn a chostau cynyddol y ddarpariaeth yn parhau'n her i'n gwasanaeth trafnidiaeth, o ystyried ein nod i gynyddu effeithlonrwydd gwasanaethau a lleihau allyriadau carbon.
- Bydd cyflawni ein hymrwymiadau i gyflawni sero net erbyn 2030 yn creu heriau sylweddol yn y tymor byr i'r tymor hir oherwydd pwysau ariannol parhaus a'r her sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi.
- Bydd cwrdd â chostau'r safon SATC newydd sy'n canolbwyntio ar ariannu blaenoriaethau carbon sero ac adeiladau newydd yn gofyn bod ffrwd refeniw ar gael i ariannu costau benthyca cyfalaf a gallai hyn arwain at Gynllun Busnes Tai anhyfyw.

## Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol

- Gweithio gyda phartneriaid Prosiect Gwyrdd a Viridor i helpu i gyflawni ymrwymiad y Cyngor i fwrw targedau ailgylchu statudol a chyfrannu at agenda 'Tuag at Net Sero' Llywodraeth Cymru.
- Cwblhau'r rhaglen newid i oleuadau stryd LED yn unol â'n hymrwymiad lleihau carbon.
- Datblygu a mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon newydd ar gyfer 2023-2030.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddarparu bron dim carbon, neu o leiaf dai Cyngor newydd â sgôr A i gyfrannu at Brosiect Sero a bodloni'r safonau SATC newydd.
- Parhau i fuddsoddi yn ein stoc dai bresennol a gwella effeithlonrwydd thermol gan gynnwys edrych ar gyflenwadau tanwydd amgen i gefnogi lleihau carbon a lleihau tlodi tanwydd.
- Parhau i fuddsoddi mewn mesurau lleihau carbon ar draws ein hasedau, gan gynnwys ystâd ysgolion a chyflawni prosiectau mawr i gefnogi'r gwaith o gyflawni Prosiect Sero.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith i ddarparu trefniant carthion amgen cynaliadwy i breswylwyr Trem y Môr, Marcroes a Croft John, Pen-marc.
- Gweithredu Cynllun Dysgu a Datblygu Sefydliadol Prosiect Sero i godi ymwybyddiaeth staff, gwella gwybodaeth a chreu cyfleoedd i gymryd rhan.
- Defnyddio'r gronfa wrth gefn sydd newydd ei hailfframio i gefnogi cyflawni ein blaenoriaethau newid yn yr hinsawdd fel yr amlinellir ym Mhrosiect Sero.
- Parhau i optimeiddio llwybrau gwasanaethau trafnidiaeth ysgol er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion, cynyddu effeithlonrwydd gwasanaethau a lleihau allyriadau carbon.
- Cwblhau a chyhoeddi Strategaeth Seilwaith Gwyrdd y Cyngor.

# EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU 2022/23

Heb ddata meincnodi cenedlaethol, rydym wedi parhau i asesu ein perfformiad trwy ddefnyddio data tueddiadau lleol a mewnwelediadau data gwasanaethau eraill lle mae ar gael.

Rydym yn parhau i weithio gyda Data Cymru i ddatblygu set ddata graidd hunanasesu genedlaethol i'n galluogi i gymharu ein perfformiad ar draws ystod o wasanaethau. Mae cynnydd yn erbyn ein Fframwaith Mesurau Perfformiad Corfforaethol wedi'i adrodd i Bwyllgorau Craffu a Chabinet y Cyngor bob chwarter, gan gynnwys adroddiad diwedd blwyddyn (Chwarter 4) ym mis Gorffennaf 2022

Isod ceir detholiad o ddangosyddion perfformiad ar draws ein pedwar Amcan Lles y mae data ar gael ar eu cyfer ac sy'n cymharu ein perfformiad presennol â pherfformiad y llynedd (2021/22). Mae'r pandemig wedi effeithio ar berfformiad mewn rhai meysydd, yn enwedig lle bu angen ailflaenoriaethu adnoddau mewn ymateb i heriau cysylltiedig.

## AMCAN LLES 1: Gweithio gyda a thros ein cymunedau

**Roedd 230 o breswylwyr** yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol dros y flwyddyn, sy'n fwy na ffigur y llynedd, sef 160

Cytunwyd ar **50%** o argymhellion y Pwyllgor Craffu gan y Cabinet, sy'n llai na 70% yn 2020/21.

**12.82 diwrnod gwaith** wedi'u colli i absenoldeb salwch fesul gweithiwr, gan godi o 11.35 yn.[1]

**£6,540,848** wedi'i wario ar staff asiantaethau, £417,439 lyn llai na 2021/22.

Ni chynhaliwyd cwynion yr Ombwdsmon yn erbyn y Cyngor, o 1 y llynedd.

Gwariwyd **£272.558m** gennym ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, sy'n gynnydd o **£18.457m** ers y llynedd. Gyda phoblogaeth o 132,534, mae hyn yn cyfateb i £2,057 y pen, yn uwch na £1,878 yn 2021/22.Yn unol â'n blaenoriaethau, roedd Dysgu a Sgiliau a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn cyfrif am 74.06% (72.98% yn 2021/22) o wariant y Cyngor a gyllidebwyd yn 2022/23 wrth gyflawni ein blaenoriaethau allweddol fel a amlinellir yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r Cynllun Corfforaethol.

Ymdriniwyd â **51.4%** o gwynion corfforaethol o fewn yr amserlenni targed, yn llai na ffigur y llynedd, sef 61%.

Mae'r gyfradd **97%** ar ddychwelyd ffurflenni canfasio blynyddol ychydig yn llai na ffigur y llynedd, sef 100%.

**3.11** Cymhareb staff amrywiaeth y cyngor yn uwch na ffigur y llynedd, sef 2.94

**Cafodd bron 87%** o ymholiadau cwsmeriaid i Cyswllt Un Fro eu datrys ar adeg y cyswllt cyntaf, ychydig yn llai na ffigur y llynedd, sef 88%.

**1,329,363** Cyfanswm y ffigurau ar gyfer nifer y rhai a gyrhaeddwyd ar dudalen Bywyd Bro Morgannwg ar Facebook, sydd wedi gostwng ychydig o 1,384,141.

**2,044,600** Cyfanswm y ffigurau ar gyfer nifer y rhai a gyrhaeddwyd ar gyfrif Twitter @VOGCouncil, sy'n ostyngiad o 2,188,700

[1] Nid yw data meincnodi absenoldeb salwch ar gyfer 2022/23 ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o'r 12 Awdurdod Lleol yng Nghymru lle darparwyd data, roedd y Fro yn yr 8fed safle ar y cyd, gyda'r perfformiad gwaethaf yn adrodd ffigur o 15.45 diwrnod wedi'u colli i absenoldeb salwch fesul gweithiwr llawn amser a'r perfformiad gorau yn adrodd 9.2 diwrnod. Roedd cynnydd cyffredinol o ran absenoldeb, wrth i'r pandemig ddod i ben. Cafwyd cynnydd hefyd yn absenoldeb tymor hir ar gyfer straen cysylltiedig â gwaith a chynnydd mewn absenoldeb ar gyfer llawdriniaeth/gwella.

# AMCAN LLES 2:
# Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

**0.23%** o bobl ifanc NEET ar ôl gadael Blwyddyn 12, sy'n well na ffigur y llynedd, sef 0.35%, sy'n ei roi yn yr 2il safle yng Nghymru.

**£3.686m** o fuddsoddiad wedi'i neilltuo i gynlluniau gwella trafnidiaeth, sy'n llai na £4.11 miliwn yn 2021/22.

**43 o sefydliadau dan arweiniad y gymuned** wedi'u cefnogi'n ariannol trwy gyllid Arwyr y Fro a Chymunedau Cryf, sy'n llai na ffigur y llynedd, sef 54

**5.74m** yw cyfanswm y diwrnodau ymwelwyr â'r Fro, sy'n ostyngiad o 2.8% ers y llynedd yn 2019.

**£292.49m** yw cyfanswm effaith economaidd twristiaeth, sy'n ostyngiad o 5.3% ers 2019.

Penderfynwyd ynghylch **99%** o geisiadau cynllunio deiliaid tai o fewn 8 wythnos, gan gynyddu o 96.37% yn 2021/22.

Bu **211** o bobl yn ymgysylltu â'r Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy, sy'n uwch na'r 177 o bobl yn 2021/22.

**264 wedi dechrau swyddi** trwy CaW a CaW+, gan godi o 189 yn 2021/2022.

**Daeth 1.5%** o ymadawyr Blwyddyn 11 yn NEET, yn is na ffigwr y llynedd sef 0.6%, er bod y perfformiad yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef 2.10%.

Cyfradd llwyddiant **98%** ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr blaenoriaeth, sy'n fwy na ffigur y llynedd, sef 91%, a'r cymharydd cenedlaethol.

**£4,422m wedi'i sicrhau mewn cyfraniadau A106** er budd ein cymunedau, sy'n gynnydd o £2.276 miliwn yn 2021/22

**£5.859m** o gyfraniadau A106 wedi'i wario ar welliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, mannau agored cyhoeddus a chelf gyhoeddus yn 2021/22, sy'n uwch na'r £5.576 miliwn yn 2021/22

(Mae'r ffigur yn amodol ar gau cyfrifon)

**£179,553** o Gyllid Grant Cymunedau Cryf wedi'i ddyrannu i gefnogi mentrau cymunedol, sy'n uwch na'r £162,000 yn 2021/22.

Er bod y gyfradd swyddi gwag gyfartalog yng nghanol prif drefi'r Fro wedi cynyddu ychydig o 7.6% yn 2021/22 i **8.9%** mae hyn yn parhau i fod yn well na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Bu cynnydd yn nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth a gydnabyddir yn ffurfiol o fewn y Cyngor o 4.4 yn 2021/22 i **10** fesul **1000** o gyflogeion.

Dyfarnwyd y **Marc Ansawdd Arian** i'r Gwasanaeth Ieuenctid, gan ragori ar ei statws Efydd y llynedd.

**2.56%** o bobl ifanc NEET ar ôl gadael Blwyddyn 13, ychydig yn is na pherfformiad y llynedd, sef 2.3%, gan ei roi yn yr 8fed safle yng Nghymru.

**200 o denantiaethau** wedi'u cynnal 6 mis ar ôl derbyn cyngor ariannol, sy'n ostyngiad o 329 o denantiaethau yn 2021/22.

**3,022 o swyddi cyfwerth ag amser llawn** wedi'u cefnogi gan wariant twristiaeth, sy'n ostyngiad o 5.3% ers 2019.

## AMCAN LLES 3:
## Cynorthwyo pobl yn eu cartrefi ac yn eu cymunedau

**90%** o iechyd cleientiaid wedi'i wella ar ôl cwblhau rhaglen atgyfeirio ymarfer corff cenedlaethol, sy'n uwch na 30.1% y llynedd

Cymerodd **44%** o oedolion 16+ oed ran mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 39,% ac yn uwch na 41% yn 2021/22.

Roedd **51.47%** o deuluoedd wedi'u hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref, sy'n uwch na 44.9% yn 2020/21

Bu'n rhaid i **8.3%** o blant mewn gofal symud 3 neu fwy o weithiau, gan wella ar berfformiad y llynedd, sef 10%.

Mae **43%** o blant 7-16 oed yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 39%, ond yn is na chanlyniadau'r arolwg blaenorol yn 2018, sef 54%.

Nododd **92%** o oedolion eu bod wedi ymgymryd â 2 neu fwy o'r 5 ymddygiad iach, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 93%.

Dywedodd **91%** o ddefnyddwyr wasanaeth Cefnogi Pobl fod y gefnogaeth a gafwyd wedi'u helpu i gynnal eu hannibyniaeth, ychydig yn llai na 92% yn 2021/22.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio i **72%** o unedau tai fforddiadwy o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd ganiatâd cynllunio, sy'n uwch na 58.5% y llynedd.

Cymerodd **71%** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn clwb cymunedol o leiaf unwaith yr wythnos yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â 56% yng Nghymru, gan gynnal ein perfformiad yn arolwg 2018.

Nododd **66%** o oedolion eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol (hynny yw, ar gyfartaledd maen nhw'n yfed dros 14 uned o alcohol yr wythnos, sy'n cyfateb i gyfartaledd Cymru, sef 66%).

Roedd **100%** o bobl a dderbyniodd grant cyfleusterau anabl yn teimlo bod y cymorth yn eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol gartref, sy'n uwch na 96.5% yn 2021/22.

Cynnydd o **14%** yn nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, o 73.3% y llynedd.

Yn achos **84%** o oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi, nid oedd angen unrhyw becyn gofal a chymorth arnynt ar ôl 6 mis, sy'n uwch na 75% y llynedd.

**99** o funudau o Addysg Gorfforol gwricwlaidd wedi'u darparu yn ysgolion y Fro fesul disgybl bob wythnos, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 93.4 o funudau, ac yn llai na 103 o funudau yn arolwg 2018.

Roedd **92%** **o gwsmeriaid Teleofal** yn fodlon ar y gwasanaeth monitro Teleofal, ychydig yn is na ffigur y llynedd, sef 99.6%

Mae **97%** o sefydliadau bwyd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' â'r safonau hylendid bwyd, sydd wedi aros yn ddigyfnewid ers 2021/22, yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 95%

Roedd **106** eiddo yn destun mesurau diogelwch ychwanegol (gwella diogelwch) o gymharu â 116 eiddo yn 2021/22.

**9,971** o ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn lle roedd yr ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, sy'n uwch na 6,753.3 fesul 1000 o'r boblogaeth.

Mae gan **71%** **o oedolion 60+** oed docyn bws rhatach, ychydig yn is na ffigur y llynedd, sef f 72%.

Roedd **100%** o ddioddefwyr cam-drin domestig yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i fesurau gwella diogelwch, sy'n ffigur digyfnewid ers 2021/22

Boddhad o **95%** ymhlith pobl yn defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, ychydig yn is na 96% y llynedd.

Cymerir **297** o ddiwrnodau i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl, sy'n uwch na 334 o ddiwrnodau yn 2021/22.

**71%** o oedolion 16+ oed oedd wedi mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celf, diwylliant neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy y flwyddyn, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 65%.

Trafodwyd **285** o achosion risg uchel o gam-drin domestig yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), gyda 53% yn achosion ailadroddus, o gymharu â 363 yn 2021/22, yr oedd 45% ohonynt yn achosion ailadroddus.

Mae **0.01%** o rent wedi'i cholli oherwydd bod eiddo'n wag, sy'n well na ffigur y llynedd o 0.90%.

Boddhad cyffredinol o **76%** ymhlith tenantiaid gyda'r gwasanaethau a ddarperir, sy'n berfformiad chwartel is (80%) o'i gymharu â 23 cymdeithas dai (Meincnod HouseMark 2021)

Nododd **8%** o oedolion eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd, yn is na chyfartaledd Cymru o 13%.

# AMCAN LLES 4:
# Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Dyfarnwyd
**12 Baner Werdd**
i Barciau yn y Fro, sy'n uwch na pherfformiad y llynedd, pan ddyfarnwyd 10. Roedd **16 o Fannau Cymunedol a Ddyfarnwyd** dan reolaeth gwirfoddolwyr a grwpiau cyfeillion, sy'n golygu mai Bro Morgannwg yw'r ardal â'r ail nifer mwyaf o ddyfarniadau yng Nghymru am ansawdd ei mannau gwyrdd.

Roedd
**312,403m²**
o barciau, mannau agored a thir priffyrdd wedi'u hau â blodau gwyllt neu eu cynnal fel ardal naturiol, yn uwch na ffigur y llynedd, sef 274,993.38m². Mae hynny'n cyfateb i 44 cae pêl-droed.

Prynwyd
**100%**
o drydan o adnoddau adnewyddadwy, gan adlewyrchu perfformiad y llynedd.

Roedd
**2,695 o ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus**
yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, yn uwch na 1,117 o ymweliadau yn 2021/22.

Mae
**80**
o fannau gwefru cerbydau trydan bellach wedi'u gosod ar safle'r Cyngor a **36** o fannau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus, sy'n uwch na 18 yn 2021/22.

Roedd
**£27 y pen yn cael ei wario ar drafnidiaeth gyhoeddus**
yn is na chyfartaledd Cymru, sef £34, gan osod y Fro yn y chwartel isaf yng Nghymru o ran gwariant.

Roedd
**128kg o wastraff gweddilliol**
nad yw'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu na'i gompostio wedi'i gynhyrchu fesul person, sydd ychydig yn is na pherfformiad y llynedd, sef 126kg.

Roedd
**98% o'r priffyrdd**
a thir perthnasol a arolygwyd o safon glendid uchel neu dderbyniol, yn is na ffigur y llynedd, sef 100%.

Roedd
**67.8% o wastraff cartref**
a gasglwyd naill ai cael ei baratoi i'w hailddefnyddio neu eu hailgylchu, yn is na pherfformiad y llynedd, sef 70.1%

Roedd
**100% o adeileddau peryglus**
eu harolygu o fewn 1 diwrnod gwaith o dderbyn adroddiad, gan gynnal perfformiad y llynedd.

Mae
**4**
o'n traethau - Cold Knap, Southerndown, Penarth a Chol-Huw - wedi'u disgrifio fel rhai ag ansawdd dŵr rhagorol, yn is na 5 y llynedd.

# CALENDR YMGYSYLLTU BLYNYDDOL A MEWNWELEDIADAU ALLWEDDOL

Mae ymgysylltu â dinasyddion yn ymddangos fel un o werthoedd craidd y Cyngor o fewn ei Gynllun Corfforaethol ac rydym yn rhagweithiol wrth annog preswylwyr a chwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau oherwydd ei fod yn hyrwyddo ymgysylltu, yn rhoi syniad i ni o ran barn cwsmeriaid ar berthnasedd gwasanaethau ac yn gwella ein dull o ddatblygu gwasanaethau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â dinasyddion y Fro a'n cymunedau i nodi, llunio a darparu atebion cynaliadwy dan arweiniad y gymuned i ateb ein heriau allweddol yn y tymor hir. Mae hyn wedi dod yn bwysicach fyth o ystyried yr heriau sylweddol sy'n ein hwynebu. Os ydym am ddatblygu ymatebion arloesol iddynt, bydd angen i ni fanteisio ar ddoniau a photensial holl aelodau'r gymuned. Mae hynny'n golygu rhoi llais a rôl ystyrlon i bobl wrth wneud penderfyniadau lleol.

Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 yn nodi, trwy'r Rhaglen Gyfranogiad, sut y byddwn yn ei gwneud yn haws i breswylwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi parhau i ddatblygu a chryfhau 'mewnwelediad' mewnol y Cyngor sy'n dod ag ystod eang o ffynonellau data ynghyd i helpu i ddeall materion lleol a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi cryfhau ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd trwy ddatblygu rhaglen dreigl o ymgysylltu thematig sy'n cyd-fynd â'n Hamcanion Lles blynyddol. Mae'r ymgysylltiad trawsbynciol hwn ar draws sawl sianel, gan gynnwys ein platfform ymgysylltu Participate Vale, yn helpu i lywio nifer o raglenni gwaith a phenderfyniadau'r Cyngor.

# AROLWG BARN Y CYHOEDD 2023

Adlewyrchwyd mewnwelediadau ymgysylltu a'n hymateb i'r rhain trwy gydol yr Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol, yn unol â'n pedwar Amcan Lles, ac mae'r rhain wedi llywio'r meysydd ffocws a nodwyd. Eleni, mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal Arolwg Barn y Cyhoedd a bydd y data llawn o'r arolwg hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref a bydd yn llywio blaenoriaethau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2024/25.

Dechreuodd Arolwg Barn y Cyhoedd 2023 ym mis Medi 2023 ac ar hyn o bryd mae'n dal i fynd rhagddo gyda bron 1,800 o breswylwyr wedi cwblhau'r arolwg hyd yma. Mae'r arolwg yn rhoi cyfle i breswylwyr ddweud wrthym am eu profiadau o fyw yn y Fro, pa wasanaethau cyhoeddus sy'n bwysig iddyn nhw, pam, a sut y gellid gwella'r holl bethau hyn. Unwaith y bydd ymarfer yr arolwg wedi'i gwblhau ddiwedd mis Hydref 2023, bydd yr ail gam yn dechrau canolbwyntio'n benodol ar grwpiau na chlywir yn aml i sicrhau bod gennym set gynrychioliadol o safbwyntiau i lywio ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 a'r tu hwnt (Cynllun Corfforaethol 2025-2030). Ar ôl dadansoddi canfyddiadau'r arolwg (hydref 2023), byddant yn cael eu defnyddio i helpu i lunio sut rydym yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar wella ansawdd bywyd pobl a, lle bynnag y bo'n bosibl, weithio gyda phreswylwyr i fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig iddynt.

Mae prif ganfyddiadau cynnar arolwg Gadewch i ni Siarad am Fywyd yn y Fro yn dangos bod meysydd pryder allweddol ymatebwyr yn cyd-fynd yn gyffredinol â heriau hanfodol y Cyngor fel y'u nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol cyfredol 2023/24 (costau byw, Prosiect Sero - ymateb y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd a natur a gwydnwch sefydliadol, yn enwedig wrth ateb y galw cynyddol am wasanaethau craidd) sy'n rhoi rhywfaint o sicrwydd bod ein meysydd ffocws yn y flwyddyn bresennol a'r rhai sy'n deillio o ganfyddiadau ein Hunanasesiad Blynyddol yn symud i'r cyfeiriad cywir o ran blaenoriaethau preswylwyr. Fodd bynnag, roedd anfodlonrwydd sylweddol gan ymatebwyr ynghylch ansawdd gwasanaethau'r Cyngor, a oedd gwasanaethau'r Cyngor yn cynrychioli gwerth am arian, bod y Cyngor yn gweithredu er budd preswylwyr lleol a'i fod yn ystyried eu barn wrth wneud penderfyniad. O ran rhyngweithio â'r Cyngor, nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53%, 949) eu bod yn gwybod pwy yw eu cynghorydd lleol, gyda 50% (897) yn ymwybodol o rai o gyfrifoldebau eu cynghorwyr.

Pan ofynnwyd iddynt flaenoriaethu pa amwynderau oedd bwysicaf iddynt, mynediad i wasanaethau gofal ac iechyd, cymdogaeth lân a thaclus a'r gallu i brynu neu rentu cartref o ansawdd da oedd y tair prif flaenoriaeth i ymatebwyr. Y gallu i gadw'n heini ac yn iach am ddim neu am bris fforddiadwy, y gallu i gymryd rhan mewn dysgu ffurfiol i ennill sgiliau newydd, a mynediad i ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth am ddim neu am bris fforddiadwy oedd y tair blaenoriaeth isaf i ymatebwyr. Mae gan y Cyngor rôl, ynghyd ag eraill, i ymateb i'r blaenoriaethau hyn a bydd hyn yn llywio'r broses o bennu cyllideb a datblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sydd ar ddod.

Fel yr adlewyrchir yn ein canfyddiadau hunanasesu, mae ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd yn parhau i fod yn faes ffocws parhaus i'r Cyngor. Mewn ymateb i'r mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg, rydym wedi cryfhau ymhellach y meysydd ffocws i'r dyfodol yn ein hunanasesiad ac wedi adolygu a diwygio ein sgôr ymgysylltu gyffredinol o 'Da' i 'Gweddol' i adlewyrchu'r gwelliannau sydd eu hangen yn y maes hwn. Byddwn yn parhau i wella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu ein heriau ariannol a heriau eraill, yn cynnwys preswylwyr ac yn gwrando arnynt ac yn sicrhau ein bod yn rhoi esboniadau clir a syml o sut y gwnaed penderfyniadau a'r effaith y byddant yn ei chael ar ein dinasyddion.

# CWYNION A CHANMOLIAETH

Oherwydd gofynion deddfwriaethol rhai gwasanaethau, mae gennym ddwy weithdrefn ar wahân ar gyfer ymdrin â chwynion gan ddibynnu ar a ydynt yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a gofal cymdeithasol i oedolion neu'r holl wasanaethau eraill (corfforaethol). Mae gan y ddwy weithdrefn ymrwymiad i ganolbwyntio ar yr unigolyn, i fod yn deg ac yn glir, gyda chanlyniadau amserol. Mae gan bob gweithdrefn ei nodweddion a'i safonau ymateb ei hun ac mae'r ddwy weithdrefn yn dod dan ymbarél Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn creu pwynt cyfeirio terfynol cyson os bydd person yn parhau'n anhapus ar ôl cwblhau'r broses gwyno.

Mae dysgu o gwynion yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus sut rydym yn rheoli, yn monitro ac yn dysgu o gwynion. Yn 2022/23, ymdriniwyd ag ychydig dros 52% (205/395) o'r holl gwynion (dan y **weithdrefn gorfforaethol**) o fewn amserlenni targed o gymharu â 61% (218/359) yn y flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli'r gostyngiad mewn perfformiad yn rhannol i gydweithwyr sy'n addasu i weinyddu meddalwedd cwynion newydd (GovService) ym mis Awst 2022 ac mae cynllun gweithredu ar waith i sicrhau gwell perfformiad yn y maes hwn yn y dyfodol. Er gwaethaf hyn, nid oes unrhyw gwynion wedi'u cofnodi gan breswylwyr ynghylch faint o amser a gymerir i ymchwilio i gwynion. Yn ystod y flwyddyn, uwchgyfeiriwyd 5.2% o'r holl gwynion yng ngham 2 y broses o'i gymharu â 7% yn y flwyddyn flaenorol. Ers cyflwyno'r feddalwedd gwynion newydd (GovService), mae canran yr achosion sydd ag achos a gofnodwyd wedi cynyddu o 33% i 100% ac mae Deilliannau Dysgu a gofnodwyd wedi cynyddu o 10% i 94.69% o achosion. Bydd y gwelliant hwn o ran cipio data, dros amser, yn rhoi gwell mewnwelediad i ddisgwyliadau dinasyddion a pherfformiad gwasanaethau, gan agor cyfleoedd i wella gwasanaethau presennol a rhoi llais pwysig ar gyfer cyfraniad y dinesydd i ddylunio gwasanaethau yn y dyfodol. Fodd bynnag, er mwyn i'r broses hon weithio'n effeithiol, mae angen i wasanaethau ddiweddaru'r system yn brydlon gan sicrhau bod data cywir yn llywio dysgu a bod y deilliannau dysgu a nodwyd yn cael eu cyflawni pryd bynnag y bo modd.

O ran y gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn, yn gorfforaethol rydym wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar nifer o feysydd sydd, o ran y tair prif flaenoriaeth, yn cynnwys yr angen i ganolbwyntio ar hyfforddi a datblygu staff (38.46% o ddeilliannau dysgu a gofnodwyd) a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o safonau gwasanaethau (58.72% o achosion cwynion a gofnodwyd); adolygu a diwygio'r wybodaeth a'r cyfathrebu a rown i'n cwsmeriaid (27.13% o ddeilliannau dysgu); a sicrhau bod pob cwyn yn cael ei chofnodi'n gywir ar GovService er mwyn hwyluso dysgu o gwynion. Mae'r cynllun gweithredu yn mynd i'r afael â'r meysydd ffocws hyn gyda phob gwasanaeth ac yn benodol ar gyfer y meysydd hynny lle nodwyd ei fod yn faes ffocws. Er mwyn cefnogi cydweithwyr i reoli cwynion yn effeithiol, darparodd y Swyddfa Archwilio a Gofal Cymdeithasol hyfforddiant ym mis Ionawr 2023 i staff rheng flaen a'r rhai sy'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion. Ym mis Mawrth 2023 cynhaliwyd cyfres o "Sesiynau Ôl-weithredol" gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am weinyddu cwynion. Nodwyd cyfleoedd i wella perfformiad y feddalwedd newydd a chreu swyddogaeth newydd ac mae'r rhain yn cael eu datblygu i'w cyflwyno yn 2023/24.

Os yw preswylwyr wedi disbyddu gweithdrefnau cwynion y Cyngor ac maent yn parhau'n anhapus, mae ganddynt hawl i uwchgyfeirio eu cwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) i'w hystyried. Yn ystod 2022/23, ni chafodd unrhyw gwynion i'r Ombwdsmon eu cynnal yn erbyn y Cyngor, mewn cymhariaeth ag 1 yn 2021/22.

Derbyniwyd 51 o gwynion ynglŷn â **Gwasanaethau Cymdeithasol** yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd terfyn ar 26 ohonynt yn ystod y flwyddyn (naill ai oherwydd nad oedd rhagor o gyswllt neu nad oedd modd ystyried y gŵyn yn y broses gwyno). O'r 25 cwyn oedd yn weddill, cafodd 89.2% eu datrys o fewn yr amserlenni dynodedig, cafodd 9.5% eu datrys y tu allan i'r amserlenni ac roedd 1.3 (3) yn parhau ar agor ddiwedd y flwyddyn, felly'n parhau ymlaen i 2023/24.

Y gwersi allweddol a ddysgwyd: yr angen am gyswllt clir a pharhaus â defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd i'w hysbysu'n gyson o'r wybodaeth ddiweddaraf; atgoffa staff i ymateb yn gyflym ac yn briodol pan godir gwallau, cwynion neu bryderon; gosod disgwyliadau clir o ran darparu gwasanaethau gydag amlinelliad clir o gostau, amserlenni a pha lefel o wasanaeth y gellir ei darparu mewn cyfnod heriol; yr angen i gofnodi data mwy penodol am gwynion ac ymholiadau i roi dealltwriaeth fanylach o feysydd i'w gwella; yr angen i symleiddio'r broses o adrodd canmoliaeth a chwynion ac annog rhannu straeon cadarnhaol; cefnogi cyfathrebu amserol ac effeithiol â'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau a sicrhau bod timau a gweithwyr unigol yn nodi eu negeseuon e-bost cyswllt a'u rhifau ffôn i gefnogi cyfathrebu priodol.

Mae cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod yn fwyfwy cymhleth ac mae hyn wedi effeithio ar amseroldeb ein hymateb, yn enwedig lle mae angen cyngor cyfreithiol. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i wella ein hymatebolrwydd i gwynion o fewn yr amserlenni dynodedig. Rhaid nodi y ceir cytundeb achwynwyr i estyniad yn achos yr holl gwynion yr ymdrinnir â hwy y tu allan i'r amserlenni dynodedig, er nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amserlenni statudol.

# SUT RYDYN NI'N DEFNYDDIO EIN HADNODDAU A LLYWODRAETHU

Y sgôr gyffredinol ar gyfer 'sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau' yw **DA.**

## Mae Cyngor gwydn yn un sydd wedi'i lywodraethu'n dda, sy'n arloesol, yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y presennol a'r dyfodol ac yn byw o fewn ei fodd.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol a chyfrannu at y nodau cenedlaethol, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn deg. Mae hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi asesu pa mor dda yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i'n galluogi i gyflawni ein hymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23. **Hunanasesiadau Blynyddol Cyfarwyddiaethau** Mae'r rhain, ynghyd â'r calendr perfformiad, yn ein galluogi ar ddiwedd y flwyddyn i ddod â mewnwelediadau allweddol at ei gilydd o bob rhan o wasanaethau'r Cyngor i lywio ein barn gyffredinol o ba mor dda yr ydym wedi defnyddio ein hadnoddau. Mae'r asesiad hefyd yn ein galluogi i wirio ein cynnydd wrth ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran sut rydym yn gweithio i fodloni'r gofynion newidiol ar wasanaethau craidd a sicrhau eu cynaliadwyedd yn y tymor hir. Bydd heriau a chyfleoedd tymor canolig a hirdymor presennol ac sy'n datblygu a nodwyd trwy'r asesiad hwn yn llywio ein canfyddiadau Hunanasesiadau Blynyddol a fersiwn nesaf y Cynllun Cyflawni Blynyddol.

Mae her 'cyfaill beirniadol' fewnol ymhlith cymheiriaid o ganfyddiadau Hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau wedi'i chynnal, ac yna her arall trwy ymarfer cymedroli dan arweiniad y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ac Arweinydd Gweithredol y Cyngor i gadarnhau barn gyffredinol y cyngor. Yn seiliedig ar ein hasesiad (a oedd yn cynnwys myfyrio ar farnau'r llynedd), rydym wedi priodoli sgôr ar draws y cyngor o 'Da' i adlewyrchu ein cynnydd fel yr amlinellir isod, sy'n debyg i farn y llynedd.

| Galluogwyr corfforaethol: Crynodeb Cyngor Cyffredinol | Sgôr 2021/22 | Sgôr 2022/23 | Cyfeiriad Teithio (CT) |
|---|---|---|---|
| Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ein pobl? | Da | Da | |
| Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ein cyllid, comisiynu a chaffael? | Da | Da | |
| Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ein hasedau? | Da | Da | * |
| Pa mor dda ydyn ni'n perfformio ac yn rheoli ein risgiau? | Da | Da | |
| Pa mor dda ydyn ni'n ymgysylltu ac yn defnyddio mewnwelediadau ymgysylltu? | Da | Gweddol | *2 |
| **Y SGÔR GYFFREDINOL AR GYFER 'SUT RYDYN NI'N DEFNYDDIO EIN HADNODDAU'** | **DA** | **DA** | |

* Mae'r cyfeiriad teithio cyffredinol mewn perthynas â rheoli ein hasedau'n adlewyrchu'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor yn y maes hwn.

*2 Adolygwyd ein sgôr o 'Da' i 'Gweddol' yng ngoleuni mewnwelediadau ymgysylltu sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'r broses hunanasesu. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith sylweddol sydd ei angen i wella ein dull o gyfathrebu â phreswylwyr am ein heriau ariannol ac eraill, i gynnwys, gwrando a rhoi adborth am y penderfyniadau a wnawn sy'n effeithio arnynt.

### Mae dyfarniad o 'Da' yn golygu:

- Ystyrir bod ein rheolaeth ar adnoddau (pobl, asedau ffisegol a digidol, cyllid a chaffael) yn dda ac mewn sefyllfa gref i sicrhau gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol yn gynaliadwy.
- Mae gennym fecanweithiau/arferion cadarn ar waith i weithredu ein gwasanaethau mewn modd economaidd, effeithlon, effeithiol a theg.
- Mae'r 5 ffordd o weithio yn cael eu deall a'u hystyried wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i gyflawni ein Hamcanion Lles a gellir rhoi tystiolaeth ohonynt.
- Mae ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu deall a'u hystyried wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i nodi a lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol a gellir rhoi tystiolaeth ohonynt.
- Mae gennym ddealltwriaeth/tystiolaeth/enghreifftiau da o sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau i wella perfformiad, cael canlyniadau a/neu ddiwallu angen.
- Mae gennym ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen i ni ei wneud i wella ein perfformiad a sicrhau gwelliant parhaus. Mae gennym gynllun ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd gwella hyn.

# YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

## Pobl

- Datblygwyd Strategaeth Pobl a strategaethau ategol allweddol i adlewyrchu'r ffyrdd newydd o weithio sy'n cefnogi cyflawni Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.
- Cryfhawyd perthnasoedd da â sefydliadau addysg lleol, darparwyr Prentisiaeth Annibynnol, KickStart a'n cynlluniau Cychwyn Cyflym a phrentisiaethau lleol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu mwy hygyrch yn y gwaith gyda llwybrau gofalwyr a nodwyd. Mae hyn yn rhan o ymdrechion i ddenu talent ifanc i'r cyngor.
- Datblygwyd cynllun Dysgu i gefnogi twf sgiliau a chymhwysedd sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Pobl a'n Cynllun Corfforaethol. Cafodd y broses arfarnu perfformiad ei gwella, gan roi llwyfan cadarn ar gyfer perfformiad staff asesu a fframwaith cefnogol ar gyfer datblygu staff i ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau.
- Datblygwyd dangosfyrddau Pobl gan ddefnyddio Power BI i gynorthwyo'r sefydliad i wneud dewisiadau gwybodus ar sail gwybodaeth ystadegol. Bydd hyn yn galluogi rheolwyr llinell i ddeall dadansoddi tueddiadau a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ar sail data allweddol mewn meysydd fel recriwtio, amrywiaeth, talent ac olyniaeth.
- Cafodd ein cymorth Iechyd, Diogelwch a Lles ei ddatblygu a'i wella, gan adolygu a gwella polisïau a gweithdrefnau yn ogystal â chryfhau sgiliau ein hysgolion a'n rheolwyr llinell mewn cymwysterau allweddol, megis IOSH (Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol).
- Cynhaliwyd Rhaglen Sefydlu Aelodau gynhwysfawr i gefnogi pob aelod gan gynnwys aelodau cyfetholedig yn eu rolau newydd.
- Buddsoddwyd yn helaeth mewn lles ar draws ein gweithlu trwy lawer o fentrau.
- Mabwysiadwyd dulliau mwy creadigol i fynd i'r afael â'n heriau recriwtio gan arwain at lwyddiant mewn gwasanaethau allweddol fel gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau rheoleiddio a rennir, cynllunio ac adfywio, gwasanaethau cymdogaeth a thrafnidiaeth.
- Cafodd mesurau i gryfhau trefniadau cynllunio'r gweithlu eu hadolygu'n feirniadol a'u roi ar waith i'n galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.
- Datblygwyd ein rhwydweithiau amrywiaeth staff ymhellach i sicrhau ein bod yn gyflogwr cynhwysol

## Asedau

- Cafwyd buddsoddiad parhaus mewn seilwaith digidol a chyflwynwyd ystod o ddatblygiadau digidol i wella ein gwydnwch dros y tymor canolig i'r t ymor hir e.e. Oracle Fusion, Granicus, MS365, Bang the Table (platfform ymgysylltu ar-lein), cynllun E-ddeiseb. Rydym hefyd wedi cyfrannu at gynyddu cynhwysiant a mynediad i wasanaethau, lleihau costau a sicrhau mwy o dryloywder i ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill.
- Cyhoeddwyd ein Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol (2023-28) newydd sydd wedi canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'n hasedau dros y tymor canolig yn y ffordd fwyaf cynaliadwy.
- Apeliwyd yn llwyddiannus yn erbyn nifer o Asesiadau Ardrethi Annomestig ar gyfer ein hystâd gorfforaethol, gan arwain at ad-daliadau sylweddol o Ardrethi Annomesitg Cenedlaethol i'r Cyngor ac arbedion.
- Llwyddwyd i gyflawni rhaglen gyfalaf sylweddol gwerth tua £6m, mewn amgylchiadau heriol.

## Ymgysylltu a Mewnwelediad

- Ymgorfforwyd dull integredig o gyflawni'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd trwy Rwydwaith Ymarferwyr Cyfranogiad y Cyhoedd (RhYCC), Rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau a'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb.
- Cydweithio â phartneriaid allweddol, gan gynnwys y sector gwirfoddol a'r trydydd sector, i ymgorffori dull integredig o gydlynu ein hymateb i heriau allweddol a chefnogi mentrau cymunedol e.e. mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, mentrau adfywio cymunedol.
- Llwyddwyd i gyflawni a chynnal Etholiadau Llywodraeth Leol a'r Canfasio blynyddol, yn unol â'n hymrwymiad i gynyddu cyfranogiad mewn democratiaeth leol.
- Rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i wella craffu ar ein penderfyniadau ac annog cyfranogiad y cyhoedd yn y broses.
- Buddsoddwyd yn helaeth mewn technoleg ddigidol i ehangu cyrhaeddiad ymgysylltu a chyfranogiad, gan gynnwys grwpiau na chlywir yn aml a phlant a phobl ifanc.

## Cyllid

- Cyhoeddwyd ein Strategaeth Ariannol a'n Cynllun Ariannol pum mlynedd treigl a datblygwyd cynigion cyllidebol ar gyfer 2023/24 wedi'u llywio gan flaenoriaethau dinasyddion y Fro.
- Cyflwynwyd rhaglen arbedion yn llwyddiannus a chydweithiwyd â gwasanaethau i fonitro cynnydd gydag arbedion.
- Datblygwyd a mabwysiadwyd polisi a strategaeth Caffael sydd wedi cyflwyno gofyniad gwerth cymdeithasol yng nghytundebau cynghorau ac sy'n amlinellu ein hymagwedd at ymarfer moesegol, gan gefnogi'r economi, cyflogaeth a gweithredu ar gyfer yr hinsawdd.
- Ymrwymwyd i drefniant gwasanaeth a rennir gyda chynghorau Caerdydd, Sir Fynwy a Thorfaen i ddarparu mwy o wydnwch, symleiddio ein prosesau a sbarduno arbedion caffael yn y dyfodol.
- Parhawyd i fabwysiadu dull integredig o wneud y defnydd gorau o'n ffrydiau cyllid grant amrywiol mewn ffyrdd creadigol er mwyn sicrhau'r canlyniadau mwyaf posibl yn unol â'n Hamcanion Lles.
- Sicrhawyd cyllid cyfalaf a refeniw allanol yn llwyddiannus i gefnogi ein cymunedau a'n busnesau a buddsoddi yn ein hasedau adfywio, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Y Pethau Pwysig, NRAW (Llwybr Mawr Morgannwg) a phlannu coed yn nalgylch Afon Ddawan.
- Sefydlwyd bwrdd Cronfa Ffyniant Gyffredin i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu gyda ffocws ar fudd cymunedol a thwf busnes.

## Perfformiad a Risg

- Datblygwyd y defnydd o PowerBI fel llwyfan i gyflwyno data mewnwelediad allweddol, gan gynnwys o'r Cyfrifiad, yr Asesiad Lles a meysydd gwaith pwnc penodol fel Prosiect Sero a Chostau Byw yn ogystal â chreu Dangosfyrddau Pobl.
- Datblygwyd argymhellion astudiaethau lleol a chenedlaethol Archwilio Cymru, gan wneud cysylltiadau rhwng y rhain a meysydd ffocws allweddol megis tlodi, costau byw, mannau cynnes a chymorth bwyd sy'n cynnwys partneriaid allweddol megis sefydliadau'r trydydd sector a'n cymunedau.
- Mae ffocws ar symleiddio ein gweithgareddau rheoli asedau wedi'u llywio gan brosiect adolygu'r Model Landlordiaid Corfforaethol.
- Mae ein hadolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn llywio'r gwaith o ddatblygu darpariaeth bellach yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP).
- Sicrhawyd bod ein hysgolion yn derbyn cymorth gan GACCCD (Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De) i gyflawni gwelliannau a nodwyd sy'n cael effaith gadarnhaol ac yn ychwanegu gwerth.
- Parhawyd i wneud gwelliannau i lwyfan System Wybodaeth Gymunedol Cymru gyda ffocws ar sicrhau cofnodi amserol a chymesur i lywio a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau.





## GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU:
## YR HYN A DDYWEDODD EIN PRESWYLWYR A'N DEFNYDDWYR GWASANAETH

| Yr hyn yr oeddem yn ymgysylltu ag ef | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Arolwg Lles Staff | Cynyddodd canran y mynegai ymgysylltu fel rhan o Arolwg Lles Gweithwyr o 70% i 71%. Roedd lles, datblygiad a gwobrau a buddion cyflogeion yn themâu allweddol a nodwyd. | Gwell darpariaeth lles i staff trwy gynyddu gwasanaethau a chyfleoedd. Cynyddu cyfleoedd datblygu i gefnogi sgiliau a datblygiad yn y dyfodol a diwylliant dysgu. Adolygu cyflog gweithwyr, a chynnig gwobr a buddion ehangach. |

## YR HYN A DDYWEDODD EIN RHEOLEIDDWYR

| Adolygiad | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| Hefyd yn berthnasol yn ein defnydd o adnoddau mae adolygiadau Archwilio Cymru o'n trefniadau **Cynllunio'r Gweithlu** a **Rheoli Asedau** a'n defnydd o **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws gwasanaethau'r Cyngor y cyfeiriwyd atynt yn gynharach o dan Amcanion Lles 1 a 4. Gellir gweld y rhain trwy'r dolenni a ddarperir. | | |

# EIN HERIAU ALLWEDDOL

## Pobl

- Mae heriau sylweddol yn parhau mewn rhai gwasanaethau o ran denu a chadw staff, a waethygir gan bwysau cyllidebol, prinder sgiliau cenedlaethol a grymoedd y farchnad. Yn genedlaethol, llywodraeth leol yw'r rhan o'r sector cyhoeddus sy'n talu'r isaf o hyd ac, o ganlyniad, nid oes ganddi atyniad fel dewis gyrfa. Gan feddwl yn y tymor hir, mae cyfle i gydweithio â sefydliadau addysg, darparwyr prentisiaethau annibynnol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu llwybrau gyrfa sgiliau a gallu newydd i lywodraeth leol i ddenu talent newydd a fydd yn helpu i ddatblygu'r biblinell o sgiliau sydd eu hangen arnom i greu gweithlu gwydn ar gyfer y dyfodol.
- Mae angen gwerthuso modelau ymhellach i leihau cynnydd mewn costau mewn gwasanaethau allweddol fel gofal cymdeithasol ac iechyd trwy brisiau asiantaethau cynyddol. Mae angen i ni fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu a gweithio gyda'n sefydliadau partner i ddatblygu dulliau ehangach o ymdrin â'r her recriwtio.
- Mae her wrth gefnogi'r newid diwylliannol i ddefnyddio technoleg ddigidol.

## Cyllid

- Mae setliadau ariannol blwyddyn unigol yn parhau i effeithio ar gynllunio ariannol hirdymor a chynaliadwyedd ariannol, a byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros setliadau aml-flwyddyn ac am fwy o sicrwydd hirdymor ynghylch cyllid a chyllidebau.
- Mae angen i ni wella cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o bennu cyllidebau, yn enwedig o ran ailgynllunio gwasanaethau, ac mae angen mwy o her gan Bwyllgorau Craffu.
- Bydd cyflawni ein hymrwymiadau i gyflawni sero net erbyn 2030 yn creu heriau sylweddol yn y tymor byr i'r tymor hir oherwydd pwysau ariannol parhaus a'r her sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi.
- Bydd defnyddio cyllid grant yn effeithiol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno mentrau ledled y gymdeithas a sicrhau y gall pob sefydliad dan sylw gyfrannu, dylanwadu a gweithio'n wahanol i gefnogi cymunedau yn dod yn bwysicach fyth o ystyried cyllidebau sy'n lleihau. Bydd angen i ni fod hyd yn oed yn fwy creadigol a hyblyg i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd, er gwaethaf yr amodau ariannu cymhleth sy'n gysylltiedig â'r grantiau hyn.
- Bydd rheoli disgwyliadau'r cyhoedd wrth weithio gyda gwasanaethau a'u darparu i'n cymuned gyda llai o gyllid a llai o adnoddau ar gael i ni yn parhau i greu heriau a bydd angen rheoli'r rhain yn ofalus.
- Mae'n rhaid i ni fynd ati'n rhagweithiol i ymchwilio i gyfleoedd incwm newydd gyda'r bwriad o gynyddu incwm o bob ffynhonnell i'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr yn y tymor hir.

## Asedau

- Mae heriau sy'n gysylltiedig ag annog ysgolion i fanteisio i'r eithaf ar eu hasedau ffisegol a digidol i gefnogi ein gweledigaeth i sicrhau bod pob ysgol wrth wraidd ei chymuned gan gynnig gwasanaethau cymunedol ehangach. Bydd defnydd strategol o gyfleoedd fel y Grant Ysgolion Bro yn allweddol wrth gefnogi'r gwaith hwn.
- Mae llwyddiant cynlluniau Creu Lleoedd yn parhau i ddibynnu ar gyfranogiad gweithredol y Cynghorau Cymuned a Thref i nodi gweledigaeth a rennir. Yn ogystal, bydd y gallu i gyflawni yn dibynnu fwyfwy ar ba mor llwyddiannus yr ydym o ran sicrhau cyllid allanol sy'n aml yn fyrdymor ei natur. Mae hyn yn arwain at heriau capasiti ac adnoddau wrth gefnogi cymunedau.
- Bydd lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gynnal cynnydd a diwallu'r galw cynyddol am wasanaethau digidol cyflym, effeithlon ac ymatebol iawn gan ein dinasyddion a rhanddeiliaid allweddol eraill dros y tymor hir yn heriol o ystyried cyllidebau ac adnoddau sydd eisoes dan bwysau.

## Ymgysylltu a Mewnwelediad

- Mae her o ran staffio ac arbenigedd i ddatblygu a gweithredu dulliau newydd o gynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori, yn ogystal ag wrth fodelu a dadansoddi data trwy lwyfannau fel PowerBI i gefnogi gwneud penderfyniadau am wasanaethau a chynllunio ar gyfer y tymor hir.
- Mae angen gwella cynwysoldeb ein gweithgareddau ymgysylltu ymhellach er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd 'lleisiau na chlywir yn aml' a grwpiau gwarchodedig yn effeithiol i gryfhau ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o grwpiau unigol ac anghenion cymunedau. Mae angen i ni hefyd ymgorffori ffocws ar ddefnyddio ymgysylltu fel mecanwaith i ddeall ymhellach 'brofiad byw' defnyddwyr ein gwasanaethau, ein dysgwyr a'n dinasyddion i nodi a mapio anghenion cymunedol yn well gyda'r mewnwelediad yn arwain y broses o ddylunio a datblygu gwasanaethau cynaliadwy i'r tymor hwy.

- Mae materion cyflenwi a chost gynyddol deunyddiau yn parhau i effeithio ar gyflawni prosiectau cyfalaf fel y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r rhaglen adeiladu tai Cyngor. Mae pwysau costau yn arbennig yn cael eu teimlo mewn perthynas â phrosiectau rhagorol sydd wedi achosi oedi ac, yn achos y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, mae'n dal yn ansicr a fydd buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gael i liniaru costau cynyddol.

## Perfformiad a Risg

- Mae angen cryfhau ac ymgorffori ymhellach ein gwaith monitro ysgolion sy'n destun pryder er mwyn sicrhau dull rhagweithiol o gynorthwyo ysgolion i wella. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni weithio gyda'r CCD i nodi meysydd cymorth y mae angen eu cryfhau.
- Mae angen cryfhau ein prosesau gwerthuso ymhellach i fesur effaith ein gwaith o ran cydraddoldebau ar ddefnyddwyr gwasanaeth, dysgwyr, grwpiau gwarchodedig a dinasyddion yn gyffredinol.
- Un o brif heriau proses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yw'r cytundeb cyflawni a reolir yn dynn gyda Llywodraeth Cymru. Pe bai'r adolygiad yn hwyrach na 3 mis, byddai hyn yn gwneud y Cyngor yn agored i risg bellach a byddai'n ofynnol i ni wedyn baratoi ac ymgynghori ar gytundeb cyflawni newydd.
- Bydd cyflwyno'r cynllun gweithredu craffu effeithiol yn gofyn am fewnbwn gan yr holl aelodau etholedig sy'n ymwneud â Phwyllgorau Craffu ac argaeledd adnoddau i gefnogi dulliau craffu newydd ac arloesol, gan gynnwys cymorth ymchwil a dealltwriaeth.
- Mae presenoldeb disgyblion yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol. Ar ôl y pandemig rydym wedi gweld gostyngiad mewn cyfraddau presenoldeb, yn enwedig ar draws ein hysgolion uwchradd. Cafwyd tuedd ostyngol dros y tair blynedd diwethaf mewn presenoldeb ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd y mae angen mynd i'r afael â hwy.
- Mae sicrhau digonolrwydd darpariaeth i fynd i'r afael â galw cynyddol a chymhlethdod lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc (cynradd ac uwchradd) yn parhau i greu heriau ariannol ac adnoddau sylweddol. Yr her allweddol i ysgolion yw nifer cynyddol y plant a'r bobl ifanc sy'n dangos anawsterau Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (ICEM) cymhleth iawn sydd, yn eu tro, yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i ddysgu ac i ryngweithio'n gadarnhaol ag oedolion a chyfoedion.



# MEYSYDD I GANOLBWYNTIO ARNYNT YN Y DYFODOL

## Pobl

- Gweithio ar y cyd â sefydliadau addysg, darparwyr prentisiaethau annibynnol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu sgiliau newydd a llwybrau gyrfa galluogrwydd i lywodraeth leol er mwyn denu talent newydd. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu'r biblinell o sgiliau sydd eu hangen arnom i greu gweithlu gwydn ar gyfer y dyfodol.
- Datblygu Strategaeth Denu a Recriwtio gadarn i fynd i'r afael â phwysau'r gweithlu a gofynion sgiliau'r dyfodol. Canolbwyntio ar ein Brand Cyflogwr.
- Mae angen i ni fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu a gweithio gyda'n sefydliadau partner i ddatblygu dulliau ehangach o ymdrin â'r her recriwtio e.e. gofal cymdeithasol ac iechyd.
- Adolygu ein strategaeth wobrwyo ehangach a'n buddion gan gynnig help i ddenu a chadw talent.
- Trwy'r Strategaeth Pobl a Chynllun Datblygu'r Gweithlu, parhau i ddatblygu sgiliau'r gweithlu fel sy'n cyd-fynd â Rhaglen Ail-lunio'r Cyngor a chryfhau sut mae'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu yn cael ei rhoi ar waith mewn ymateb i argymhellion Archwilio Cymru.
- Symud ymlaen gyda gwaith i ddiwallu anghenion staff yn yr amgylchedd gwaith digidol newydd i gefnogi'r newid diwylliannol i ddefnyddio technoleg ddigidol.
- Cefnogi datblygiad diwylliant ein sefydliad ymhellach.
- Cefnogi rhwydweithiau amrywiaeth y Cyngor ymhellach a chyflwyno hyfforddiant a chymorth perthnasol i staff.

## Cyllid

- Byddwn ni'n parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am setliad aml-flwyddyn i alluogi cynllunio ariannol effeithiol ar gyfer y tymor hir.
- Gwella ar ein trefniadau ar gyfer llunio cynllun ariannol pum mlynedd tymor canolig treigl sy'n ymgorffori gorwel pum mlynedd go iawn, herio a meincnodi allanol, arbedion mwy trawsnewidiol (h.y. buddsoddi i arbed, ymyrraeth gynnar a thrawsnewid digidol), cyfranogiad gwell gan y cyhoedd a chraffu mwy effeithiol.
- Cyflawni'r Strategaeth Fuddsoddi nad yw'n ymwneud â'r Trysorlys sy'n amlinellu dulliau mwy masnachol o ddod ag incwm i mewn, gan gynnwys awydd am risg.
- Gwella dulliau o adfer taliadau'r Dreth Gyngor a Chyfraddau Annomestig a gwella swyddogaeth casglu incwm y Cyngor.
- Defnyddio'r cronfeydd wrth gefn sydd newydd eu hailffraimio i gefnogi'r Cyngor i gyflawni newid trawsnewidiol, lliniaru risgiau a buddsoddi yn ein cymunedau i gefnogi blaenoriaethau sefydliadol allweddol.
- Cynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o bennu cyllidebau a gwneud penderfyniadau a gwella eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r Cyngor a'i gyllid. Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a thrwy gydol y flwyddyn, parhau i hyrwyddo i ddinasyddion Bro Morgannwg y cyllidebau sydd ar gael a disgresiwn dros benderfyniadau gwario i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth.

## Asedau

- Datblygu Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer ein hasedau gan ganolbwyntio ar sero net/carbon isel a chynaliadwyedd hirdymor fel rhan o Brosiect Sero.
- Adolygu'r Rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi Ysgolion yn gyson i adlewyrchu a mynd i'r afael â phwysau/heriau sy'n dod i'r amlwg o ran addasrwydd/hyfywedd ein hasedau corfforol.
- Gweithio gyda'n hysgolion i ganolbwyntio mwy ar y gymuned wrth ddefnyddio eu hasedau ffisegol a digidol i gefnogi ein gweledigaeth i roi ysgolion wrth wraidd eu cymunedau a chynnig gwasanaethau cymunedol ehangach.
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ac ymgysylltu â'n cymunedau i nodi cyfleoedd, gan gynnwys dulliau ariannu blaengar o gefnogi datgarboneiddio ein hasedau a chyflawni prosiectau mawr.
- Cymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon newydd.
- Cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Ddigidol newydd.

## Ymgysylltu a Mewnweledia

- Datblygu ymhellach ein defnydd o fewnwelediad data trwy gryfhau ein defnydd o offer digidol fel PowerBI i'n galluogi i holi data y gellir ei ddefnyddio yn well i helpu i lywio penderfyniadau am wasanaethau ac wrth gynllunio ar gyfer y tymor hir.
- Cryfhau ein dealltwriaeth o ysgogwyr galw ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'n cymunedau i ailgynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau.
- Parhau i weithio ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid i ddatblygu ein gallu ar y cyd ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion/cwsmeriaid a'n defnydd o'r mewnwelediadau hyn ynghyd â pherfformiad a mewnwelediadau data eraill i lywio datblygiadau gwasanaethau yn y dyfodol.
- Gwella cynwysoldeb ein gweithgareddau ymgysylltu ymhellach er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd 'lleisiau na chlywir yn aml' a grwpiau gwarchodedig yn effeithiol i gryfhau ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o grwpiau unigol ac anghenion cymunedau.
- Cryfhau'r ffordd rydym yn defnyddio ymgysylltu fel offeryn i ddangos gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwella'r ffordd rydym yn rhoi adborth i'n dinasyddion am yr hyn sydd wedi newid/gwella o ganlyniad e.e. 'dwedoch chi, gwnaethom ni'.
- Ymgorffori canolbwyntio ar ddefnyddio ymgysylltu fel mecanwaith i ddeall 'profiad byw' ein defnyddwyr gwasanaeth, ein dysgwyr a'n dinasyddion yn well i nodi a mapio anghenion cymunedol yn well gyda'r mewnwelediad sy'n arwain y broses o ddylunio a datblygu gwasanaethau cynaliadwy i'r tymor hwy.
- Dadansoddi ac adrodd am arolwg Gadewch i Ni Siarad am Fywyd yn y Fro i sicrhau bod llais preswylwyr yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau'r Cyngor ac i ddatblygu cynlluniau ar gyfer grwpiau ffocws i sicrhau bod yr holl breswylwyr yn cael eu cynrychioli, gan gynnwys y rhai na chlywir yn aml.

- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ehangu mannau gweithio a rennir a gwneud gwell defnydd o bortffolio eiddo'r Cyngor wedi'i lywio gan adolygiad o'r model landlordiaid.
- Datblygu rhaglen dreigl o brosiectau fel rhan o gynlluniau Creu Lleoedd i achub ar gyfleoedd ariannu allanol.

## Perfformiad a Risg

- Symud ymlaen â gwaith gyda'n partneriaid i weithredu argymhellion adolygiadau Archwilio Cymru o Raglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor, Gwaith Trydydd Sector, Gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ein gwasanaethau i gefnogi cyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol.
- Cryfhau ymhellach ein prosesau gwerthuso i fesur effaith ein gwaith o ran cydraddoldebau ar ddefnyddwyr gwasanaeth, dysgwyr, grwpiau gwarchodedig a dinasyddion yn gyffredinol.
- Parhau i gryfhau a gwreiddio ein monitro o ysgolion sy'n destun pryder i sicrhau y gallwn ddefnyddio dull rhagweithiol o gynorthwyo ysgolion i wella.
- Gweithio gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i nodi meysydd cymorth y mae angen eu cryfhau.
- Symud ymlaen â gwaith i gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- Datblygu Strategaeth Ddata sy'n cefnogi dull integredig o ddefnyddio mewnwelediad perfformiad a gwybodaeth i lywio penderfyniadau fel rhan o Strategaeth Ddigidol y Cyngor.
- Cryfhau craffu mewnol a herio a gefnogir gan ddulliau craffu newydd ac arloesol, gan gynnwys ymchwil a mewnwelediad fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Craffu Effeithiol.
- Gwella cyfleoedd i fynd i'r afael â materion cyffredin fel presenoldeb disgyblion ar draws ôl troed rhanbarthol.
- Gweithio ar y cyd i sicrhau digon o ddarpariaeth i fynd i'r afael â galw cynyddol a chymhlethdod anghenion lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc (cynradd ac uwchradd).

# LLYWODRAETHU

Mae **'Sicrwydd Rhesymol'** o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2022/23, ar sail barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol, gynnal adolygiad blynyddol o reolaeth a llywodraethu mewnol ac mae'n rhaid cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) a ddeilliodd o hynny yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r DLlB felly yn darparu asesiad o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac arfarniad o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau allweddol y Cyngor a nodi lle roedd angen gwneud gwelliannau.

Mae perfformiad allweddol a mewnwelediadau eraill o'r calendr gweithgareddau perfformiad blynyddol, wedi llywio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y DLlB sy'n disgrifio sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol fel sy'n cyd-fynd â Fframwaith CIPFA a SOLACE - Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016 gan ganolbwyntio ar yr egwyddorion canlynol:

A - Ymddwyn gyda gonestrwydd, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.

B - Sicrhau ymgysylltu agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid.

C - Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

Ch - Pennu'r ymyriadau y mae eu hangen i optimeiddio'r gwaith o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.

D - Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys galluogrwydd ei arweinwyr a'r unigolion sydd ynddo.

Dd - Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

E - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

Daeth y DLlB i'r casgliad, ar sail yr adolygiad, yr asesiad a'r gwaith monitro parhaus a wneir, y gellid rhoi sicrwydd rhesymol bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hystyried yn addas i'r diben yn unol â'r fframwaith llywodraethu.

# ADOLYGU
## EIN DULL HUNANASESU

Mae'n bwysig bod ein dull o hunanasesu yn parhau i ddatblygu i ysgogi gwelliant yn unol ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol a'r nodau lles cenedlaethol. Ar sail ein hadolygiad trwy gydol y broses ac adborth gan randdeiliaid a phartneriaid allweddol, bydd angen canolbwyntio parhaus ar y meysydd canlynol yn barod ar gyfer hunanasesiad blynyddol 2023/24. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar y cyd ag adborth gan Lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru, CLILC ac unrhyw arfer gorau a nodwyd gan gydweithwyr ledled Cymru.

- Symleiddio ein dull o ymdrin â Hunanasesiad y Gyfarwyddiaeth ymhellach, gan gyfuno hwn â threfniadau presennol ar gyfer hunanfyfyrio chwarterol a wneir gan Gyfarwyddiaethau fel rhan o drefniadau corfforaethol ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd am y Cynllun Cyflawni Blynyddol.

- Alinio gofynion adrodd cyrff rheoleiddio eraill ymhellach e.e. AGC ac Estyn o fewn hunanasesiadau'r Cyfarwyddiaethau i ddangos integreiddio gweithio gyda'r canfyddiadau sy'n llywio nifer o raglenni gwaith corfforaethol i gyd-fynd â chyflawni ein canlyniadau lles.

- Cryfhau ein defnydd o berfformiad a mewnwelediadau data eraill trwy gydol y flwyddyn i gefnogi dyfarniadau perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn rhan o waith parhaus i ddatblygu ein swyddogaeth fewnwelediad fewnol a fydd yn helpu i gryfhau ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer Hunanasesiad y Cyngor.

- Ar hyn o bryd rydym yn dod â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ynghyd i ystyried y canfyddiadau hunanasesu a'r meysydd sy'n dod i'r amlwg i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol er mwyn rhoi cyfle i adborth a her bellach.  Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau ymhellach ein her 'cyfaill beirniadol' fewnol trwy gynnwys rhanddeiliaid allweddol allanol yn yr Her Cymheiriaid fewnol. Bydd ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn fwy agored i'r byd allanol.

- Cryfhau cyfranogiad aelodau etholedig ymhellach yn y broses Her Cymheiriaid. Bydd estyn lefel y cyfranogiad yn sicrhau bod gennym ystod ehangach o gyfranogiad yn y broses a bydd hefyd yn sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n cael ei hystyried wrth sicrhau cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau sy'n cael eu nodi a'u cynnig.

- Yn dilyn cyhoeddi Hunanasesiad Blynyddol cyntaf y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), gwahoddwyd Cydweithwyr Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad er mwyn rhoi sicrwydd o'r broses, a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i alluogi cynhyrchu cywir a chyhoeddi ein canfyddiadau yn amserol yn unol â deddfwriaeth. Mae cyfle i ailgynnal yr archwiliad hwn yn flynyddol ar gyfer her ychwanegol o'n dull gweithredu, gan sicrhau ein bod yn parhau i adeiladu ar y farn archwilio 'sylweddol' a gyflawnwyd ym Mlwyddyn 1.

- Cryfhau agweddau ar yr Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol gan gynnwys:
  - Cynhyrchu a dosbarthu dogfen gryno gyhoeddus yn eang fel rhan o waith ymgysylltu wedi'i lywio gan adborth gan breswylwyr ac aelodau am sut yr hoffent i wybodaeth perfformiad y Cyngor gael ei hadrodd. Bydd hyn yn cynnwys fersiwn hawdd ei darllen o'r Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol a negeseuon byr ar gyfryngau cymdeithasol.
  - Yn yr adran 'Calendr Ymgysylltu Blynyddol a Mewnwelediadau Allweddol' yr adroddiad Hunanasesiad Blynyddol, rhoi trosolwg o benderfyniadau mawr y cyngor a wnaed yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys amlinellu'r rhesymeg dros benderfyniadau'r Cyngor, y newidiadau canlynol a'r effaith (gadarnhaol a negyddol) ar breswylwyr a chymunedau. Cynnwys crynodeb o'r meysydd sy'n dod i'r amlwg gan aelodau etholedig wedi'u llywio gan y rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau a barn yr holl aelodau ar eu rôl fel cynrychiolwyr cymunedol.
  - Darparu crynodeb yn adroddiad Hunanasesiad Blynyddol y flwyddyn nesaf sy'n tynnu sylw at y llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf trwy bartneriaethau a chydweithio gan gynnwys gwaith gyda'r Trydydd Sector a Chynghorau Tref a Chymuned i roi mwy o sylw i sut mae'r rhain wedi cyfrannu at gyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ac Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.
  - Rhoi ystyriaeth bellach i sut mae canfyddiadau ymgysylltu yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hunanasesu i sicrhau bod yr wybodaeth yn glir, yn feintiol ac yn haws ei chyrraedd.

# Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach

## Am ragor o wybodaeth...

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau ac ati. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

www.bromorgannwg.gov.uk

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG
Cyngor Bro Morgannwg